# Caerdydd a Bro Morgannwg
# Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018 - 2023




**Mae yn ein dwylo ni**

# Partneriaid Strategol

CARDIFF
CAERDYDD

SOUTH WALES POLICE
HEDDLU DE CYMRU

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

ynys saff
safe island

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Cymru
Wales
Community Rehabilitation Company
PRAWF
PROBATION
Gweithredir gan / Operated by Working Links

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

National Probation Service

BRITISH TRANSPORT POLICE

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services NHS Trust

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Velindre NHS Trust

# CYNNWYS


| PENNOD/ ADRAN TUD. | TUD. |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Diffiniadau | 5 |
| Dioddefwr ynteu Goroeswr? | 6 |
| Fframwaith | 7 |
| Gweledigaeth ac Amcanion | 7 |
| Partneriaid Rhanbarthol | 7 |
| Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol | 8 |
| Cwmpas | 11 |
| Rhestr Termau | 12 |
| Dyddiadau Blynyddol Allweddol | 12 |
| Dolenni i Wybodaeth Bellach | 12 |
| **PENNOD UN - PARATOI** | |
| Trosolwg Rhanbarthol | 14 |
| Asesiad Anghenion | 15 |
| Gweithio'n Rhanbarthol | 15 |
| Llywodraethu | 16 |
| Gwasanaethau Arbenigol sydd Ar Gael | 17 |
| Cydweithio Ehangach | 18 |
| Ymgysylltu Goroeswyr | 19 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 20 |
| **PENNOD DAU - MYND AR DRYWYDD** | |
| Ymateb Cyfiawnder Troseddol | 22 |
| Rheolaeth Troseddwr Integredig | 24 |
| Gweithio Gyda Thramgwyddwyr | 26 |

| PENNOD/ ADRAN | TUD. |
|---|---|
| Cyfiawnder Adferol | 27 |
| Defnydd Diogel o Dechnoleg | 28 |
| Annog Dioddefwyr i Adrodd | 28 |
| **PENNOD TRI - ATAL** | |
| Lleoliadau Addysgol | 30 |
| Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol | 34 |
| Ymyrraeth Gynnar | 38 |
| Trais Rhywiol | 39 |
| Stelcian | 40 |
| Trais ar sail Anrhydedd / Priodas dan Orfod | 40 |
| Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) | 41 |
| IDVA Iechyd | 42 |
| Economi Nos | 43 |
| Gweithwyr Rhyw | 43 |
| Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern | 44 |
| Profiadau Andwyol Plentyndod | 45 |
| IRIS | 48 |
| Adolygiadau Ffurfiol | 48 |
| Ymgyrch Rhuban Gwyn | 50 |
| **PENNOD PEDWAR - AMDDIFFYN** | |
| Datgeliadau Cyfraith Clare/ Cyfraith Sarah | 52 |

| PENNOD/ ADRAN | TUD. |
|---|---|
| Hysbysiadau a Gorchmynion | 52 |
| Diogelu | 53 |
| Hyb Diogelu Amlasiantaeth Caerdydd | 54 |
| Rheoli PPNs VAWDASV | 55 |
| Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) | 56 |
| Llysoedd Arbenigol | 57 |
| Cymorth Cysylltiedig â Thai | 58 |
| Polisïau Gweithle | 59 |
| Gyda Gwell Diogelwch | 60 |
| **PENNOD PUMP - CEFNOGI** | |
| Ymchwil | 62 |
| Cynghorwyr Annibynnol | 62 |
| Plant a Phobl Ifanc | 64 |
| Ymyriadau Teulu | 64 |
| Pobl o Gefndir BME | 65 |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | 65 |
| Dioddefwyr Gwrywaidd | 66 |
| LGBTQ + Dioddefwyr | 66 |
| Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol | 67 |
| Pobl Hŷn | 67 |
| Anghenion Cymhleth / Triawd Gwenwynig | 68 |
| Gweithwyr Rhyw | 69 |
| Oedolion mewn Perygl | 69 |

## Partneriaid Trydydd Sector

## Cyflwyniad

Mae trais yn erbyn menywod yn groes i hawliau dynol ac yn achos a chanlyniad anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion. Gall ddigwydd i fenywod o bob cymdeithas, diwylliant a chefndir. Mae'n digwydd i fenywod oherwydd eu bod yn fenywod, ac effeithir yn anghymesur arnynt gan bob ffurf o drais. Mae gan ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ganlyniadau pellgyrhaeddol i deuluoedd, plant, cymunedau a chymdeithas yn ei chyfanrwydd, ac mae angen i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio dull gwahanol a chymesur i ymdrin â'r broblem.

Nid yw'r strategaeth hon yn anwybyddu trais a cham-drin a gyfeirir tuag at ddynion a bechgyn, neu drais a cham-drin gan fenywod. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod yr hyn y gall unrhyw un (menywod, dynion, plant a phobl ifanc) ei brofi a chael eu heffeithio ganddo, ond caiff menywod a merched eu heffeithio'n anghymesur gan gam-drin domestig, treisio a thrais rhywiol, cam-fanteisio'n rhywiol (gan gynnwys trwy'r diwydiant rhyw), caethwasiaeth fodern, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant, stelcian ac aflonyddu rhywiol. Gall hyn ddigwydd mewn unrhyw berthynas waeth beth fo rhyw, oed, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, incwm, daearyddiaeth neu ffordd o fyw y bobl dan sylw.

## Diffiniad

Diffinia Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod hyn fel:

"pob gweithred o drais sy'n seiliedig ar ryw, sy'n arwain at, neu'n debygol o arwain at, niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd i ferched, yn cynnwys bygythiadau o unrhyw weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadedd mympwyol o ryddid, boed yn gyhoeddus neu mewn bywyd preifat."
Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:


⇒ Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin rhywiol o blant benywaidd yn y cartref, trais yn ymwneud â gwaddol, treisio priodasol, anffurfio organau cenhedlu benywod, ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidiol i ferched, trais nad yw'n briodasol a thrais sy'n gysylltiedig â cham-fanteisio;

⇒ Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y gymuned yn gyffredinol, gan gynnwys treisio, cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a bygythiad yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgol ac mewn mannau eraill, masnachu mewn menywod a phuteindra dan orfod;

⇒ Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a gyflawnir neu a oddefir gan y Wladwriaeth, lle bynnag y bo'n digwydd.

Cytunodd y partneriaid statudol amlasiantaeth (a amlinellir ar t.2) sy'n gyfrifol am y strategaeth hon i fabwysiadu'r diffiniad ehangaf, gan gydnabod nad yw pob camdriniaeth yn cael ei chyflawni o fewn y berthynas â'r partner agosaf neu berthnasau teuluol, ond y gall dieithriaid hefyd ei chyflawni (e.e. stelcian).

Cydnabyddir hefyd bod rhai mathau o gamdriniaeth yn effeithio'n anghymesur ar y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig. Gall materion hunaniaeth rhywedd (gan gynnwys trawsrywedd), hil, crefydd, diwylliant, anabledd a rhywioldeb waethygu bregusrwydd, a gallant hefyd lunio agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas â safbwyntiau'r dioddefwr a'r tramgwyddwr.



## BETH AM DDYNION?

Mae hwn yn gwestiwn a ofynnir bob amser mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ac mewn sesiynau hyfforddi. Mae pob un o'r partneriaid yn y rhanbarth yn gwybod y gall dynion hefyd ddioddef cam-drin domestig, ymosodiadau rhywiol, priodas dan orfod, masnachu a thrais sy'n seiliedig ar anrhydedd, ac maent wedi cydnabod hyn trwy gydol y strategaeth a byddant yn parhau i dynnu sylw ato ym mhob digwyddiad cyhoeddus a hyfforddiant staff. Mae'r Ddeddf VAWDASV yn ymdrin â cham-drin domestig a thrais rhywiol a gyflawnir yn erbyn holl bobl Cymru, gan gydnabod bod menywod a merched yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan lawer o'r trais a'r gamdriniaeth y mae'r Ddeddf yn eu trafod. Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'r Ddeddf trwy gydnabod, am y rheswm hwn, bod angen dull ymatebol ar sail rhyw.

Mae partneriaid sy'n gweithio ledled Caerdydd a'r Fro yn cydnabod bod angen mwy o waith i gefnogi dioddefwyr gwrywaidd o drais domestig a rhywiol, o ran cydnabod camdriniaeth pan fydd yn digwydd a chael mynediad at wasanaethau cymorth priodol. Mae angen gwaith i sicrhau bod ein cymunedau'n cydnabod bod trais a cham-drin gan unrhyw un yn annerbyniol, ac nad oes lle iddynt yn ein cymdeithas. Gyda'n partneriaid arbenigol, byddwn yn parhau i ymdrin ag unrhyw fylchau, tra'n parhau i gefnogi gwasanaethau sydd eisoes yn eu lle, a thargedu adnoddau ychwanegol lle mae'r angen mwyaf. Bydd barn dioddefwyr yn rhan annatod o hyn. Yn olaf, mae'r strategaeth hon yn hyrwyddo Llinell Gymorth Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i bawb sy'n cael eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a rhagwelir cynnydd yn nifer y dioddefwyr gwrywaidd sy'n cysylltu â'r gwasanaeth hwn am wybodaeth, cyngor a chymorth.


Stori Sebastian (cymerwyd o'r fenter ManKind:)
Dechreuodd problemau ym mherthynas Sebastian a'i bartner unwaith y dechreuasant fyw gyda'i gilydd, ac y daeth hi'n feichiog. Mae ef yn 6 troedfedd ac mae ei bartner yn 5 troedfedd 3 modfedd. Ar ôl dioddef misoedd o gam-drin treisgar, penderfynodd Sebastian na allai gymryd mwy a phenderfynodd adael, ond roedd ei bartner yn dweud petai'n gadael na châi fyth weld ei fab eto. Cynyddodd camdriniaeth ei bartner ac yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, ymosodwyd arno ddeg gwaith, a dioddefodd lygaid duon, poerwyd arno'n gyson, ac yn ddiweddar taflodd ei bartner gadair ato mor galed fel y torrodd y gadair pan darodd yn erbyn Sebastian. Ni chaniatâi iddo fynd i'r gwely o'i blaen - os y gwnâi hynny, byddai'n dod i mewn ac yn troi'r holl oleuadau ymlaen ac yn dechrau gweiddi arno i'w atal rhag cysgu. Yn y diwedd roedd rhaid iddo adael; mae Sebastian wedi cadw dyddiadur, tynnu ffotograffau ac wedi dweud wrth ffrindiau. Mae bellach yn cysylltu â'i gyfreithwyr ynglŷn â gwarchodaeth ei fab.

## Dioddefwr Ynteu Goroeswr?

Mae gan y geiriau 'dioddefwr' a 'goroeswr' ystyron gwahanol iawn. Gall bod yn 'ddioddefwr' awgrymu diymadferthedd a thrueni, cael eich cornelu a rhywbeth yn cael ei wneud i chi nad oes gennych reolaeth drosto, nad yw o bosibl yn disgrifio'n llawn y profiadau a gaiff rhai pobl o VAWDASV. Fodd bynnag, mae'r term 'goroeswr' yn cydnabod bod pobl yn gallu cymryd rheolaeth o'u bywydau eu hunain; mae'n awgrymu cynnydd yn hytrach na marweidd-dra, ac mae llawer yn ei ddewis oherwydd ei fod yn derm grymuso. Defnyddia rhai pobl y term 'goroeswr' yn unig yn lle 'ddioddefwr', ac i'r gwrthwyneb. Nid yw pobl naill ai'n 'oroeswyr' neu'n 'ddioddefwyr', gan ei bod yr un mor bosib i fod y ddau, yn dibynnu ar gyd-destun y profiad.

Fodd bynnag, er mwyn symlrwydd ac eglurdeb i gynulleidfa eang, mae'r strategaeth hon yn defnyddio'r term 'dioddefwr' i gyfeirio at y rheiny sydd wedi profi VAWDASV yn ddiweddar, neu sydd ar hyn o bryd yn ei brofi, a'r rheiny nad ydynt yn ymwybodol bod yr hyn y maent yn ei brofi yn gamdriniaeth, neu eu bod yn derbyn y gamdriniaeth honno.

Defnyddir 'goroeswr' i gyfeirio at y rhai sydd wedi goresgyn eu sefyllfaoedd o gamdriniaeth, boed o ganlyniad i'w gweithredoedd eu hunain a/neu'n dilyn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth statudol neu wasanaethau eraill.




*Credaf fod lle i'r ddau air ar y daith. Ond i mi, wedi torri'n rhydd, roedd yn bwysig galw fy hun yn oroeswr. Ni chredaf y dylid edrych i lawr ar bobl os ydynt yn gweld eu hunain yn ddioddefwyr yn hytrach na goroeswyr. Goroeswr DC*

## Fframwaith

Mae'r Strategaeth ranbarthol hon yn nodi sut y bydd pob partner yn llunio a chyflenwi ymatebion i bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth.

Amlinella nifer o weithgareddau uchelgeisiol i'w cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf. Rhestrir y rhain fel ymrwymiadau 'Byddwn yn' drwy’r ddogfen, ac fe'u crynhoir yn y cynllun gweithredu ategol. Bydd y gweithredoedd hyn yn cael eu monitro'n barhaus gyda phartneriaid i hysbysu adroddiad ar gynnydd, a gyhoeddir bob blwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod y Strategaeth yn parhau i fod yn ganolog ac yn berthnasol. Defnyddiwyd nifer o fyrfoddau ac acronymau drwy’r ddogfen - cyfeirier at y Rhestr Termau (t.12).

## Gweledigaeth ac Amcanion

**Gweledigaeth:**
**Mae pobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg yn cael y cyfle i fyw bywydau cadarnhaol, annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a chamdriniaeth.**

Datblygwyd y Strategaeth mewn cyfnod o heriau: dyletswyddau deddfwriaethol newydd ar gyrff statudol, llymder parhaus yn arwain at doriadau cyllideb na welwyd mo’u tebyg o’r blaen, a galw cynyddol am wasanaethau. Gan gydnabod yr heriau hyn, nodwyd 5 amcan allweddol:

**Amcan 1 - PARATOI**
Gwella cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV trwy ddull partneriaeth mwy cydlynol ar draws y rhanbarth.

**Amcan 2 - MYND AR DRYWYDD**
Ymdrin â chyflawnwyr VAWDASV trwy wella rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau a defnyddio pwerau cyfreithiol i amharu ar y tramgwyddwyr a’u heuogfarnu.

**Amcan 3 - ATAL**
Ymdrin yn rhagweithiol ag agweddau ac ymddygiadau negyddol sydd â'r potensial i arwain at VAWDASV, gan gydnabod bod hyn yn fusnes i bawb.

**Amcan 4 - AMDDIFFYN**
Gwella'r ymateb amlasiantaethol a chefnogaeth i'r holl ddioddefwyr a'u plant, waeth beth fo'r lefel risg a'r anghenion.

**Amcan 5 - CEFNOGI**
Sicrhau bod gwasanaethau arloesol, hyblyg a seiliedig ar dystiolaeth ar gael i fodloni anghenion dioddefwyr sy'n profi unrhyw fath o VAWDASV.

Adlewyrcha'r amcanion hyn ofynion strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru (gweler y dudalen nesaf) i ymdrin ag atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a hefyd yr ymdrechion sydd eu hangen i fynd ar drywydd y rhai sy'n gyfrifol. Bydd pob un o'r amcanion hyn yn cael sylw mewn pennod ar wahân, er y cydnabyddir bod sawl problem sy’n torri ar draws nifer o feysydd.

## Partneriaid Rhanbarthol

Datblygwyd y strategaeth hon gyda chydweithio a chydweithrediad y partneriaid statudol canlynol ar draws y rhanbarth:

- ⇒ Cyngor Caerdydd
- ⇒ Cyngor Bro Morgannwg
- ⇒ Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- ⇒ Heddlu De Cymru
- ⇒ Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
- ⇒ Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- ⇒ Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- ⇒ Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- ⇒ Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- ⇒ Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Bu partneriaid y trydydd sector ledled y rhanbarth yn rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth hon fel rhanddeiliaid allweddol wrth gyflwyno'r ymateb rheng flaen i ddioddefwyr, ac fe'u rhestrir ar t.4.

Yn bwysicaf oll, datblygwyd y strategaeth hon gyda mewnbwn a mewnwelediadau goroeswyr VAWDASV, yn bennaf trwy broject SEEds Cymorth i Fenywod Cymru (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr), a chydnabyddir eu cyfraniad yn ddiolchgar.




*"Pan fydd menywod yn ffynnu, mae buddion i'r holl gymdeithas, ac mae cenedlaethau dilynol yn cael cychwyn gwell mewn bywyd."*. Kofi Annan

## Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol

**Byd:**

Cydnabuwyd y mater hwn gan Gyngor Ewrop, ar ffurf Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal ac ymdrin â thrais yn erbyn menywod a thrais domestig. Mabwysiadwyd y Confensiwn gan Gyngor Ewrop ar 7 Ebrill 2011 a daeth i rym ar 1 Awst 2014. Llofnododd Llywodraeth y DU y Confensiwn ar 8 Mehefin 2012, ond mae eto i'w gadarnhau, fodd bynnag mae cefnogaeth helaeth i wneud hynny cyn bo hir. Hefyd, ceir cydnabyddiaeth gan y Cenhedloedd Unedig, ar ffurf eu Datganiad ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod, ac yn fwyaf diweddar yn Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 2030.

**DU:**

Mae 'Strategaeth Diweddu Trais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2020' Llywodraeth y DU yn adeiladu ar nifer o fentrau, gan gynnwys: cyflwyno trosedd newydd o reoli neu ymddygiad gorfodol, y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, Gorchmynion Gwarchod Trais Domestig (DVPO) dan Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010, y Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS), Gorchmynion Amddiffyn FGM o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 a dyletswydd adrodd gorfodol am FGM a fewnosodwyd yn Neddf 2003 gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2015, a chryfhau mesurau i reoli pobl sy'n cyflawni troseddau rhywiol neu'r rhai sy'n peri risg o niwed rhywiol.

**Cymru:**

Pwrpas Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella atal, amddiffyn a chefnogi pobl yr effeithir arnynt. Mae'r strategaeth genedlaethol ddilynol yn darparu arweiniad a chyfeiriad a fydd yn hyrwyddo cysondeb ac arfer gorau yn y ffordd y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu blaenoriaethu a'u trafod ledled Cymru, gyda'r nod o "greu Cymru yr ydym i gyd eisiau yn byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol, Cymru lle mae pawb yn gallu byw heb ofn mewn perthnasau a chymunedau diogel, cyfartal sy'n rhydd o drais."

**Rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg:**

Gosododd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol a sefydliadau statudol i ddatblygu strategaethau rhanbarthol, cydymffurfio â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol, gan gynnwys dyletswydd i Ofyn a Gweithredu, a sicrhau y cyfeirir at yr agenda hon ar draws gwasanaethau Addysg. Felly mae'r Strategaeth ranbarthol hon yn nodi sut mae'r dyletswyddau hyn yn cael eu trin yn y rhanbarth a sut y bydd yn cefnogi'r strategaeth genedlaethol i atal, diogelu a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan VAWDASV.


## AMSERLEN DOGFENNAU ALLWEDDOL DIWEDDAR

- Strategaeth VAWDASV Cymru 2016
- Strategaeth Diweddu Trais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2020
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf VAWDASV (Cymru) 2015
- Deddf Troseddu Difrifol 2015
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Confensiwn Istanbul (Confensiwn ar atal ac ymdrin â thrais yn erbyn menywod a thrais domestig) 2014
- Canllawiau Iechyd Cyhoeddus NICE 'Trais domestig a cham-drin; sut y gall gwasanaethau ymateb yn effeithiol (PH50) 2014

Yn ychwanegol at Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae deddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru (ac ehangach y DU) sy'n llywio gwasanaethau rhywedd-benodol yn y rhanbarth. Y rhain yw:

⇒ Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 nod y ddeddf hon yw ei gwneud yn haws rhentu cartref, gan ddisodli darnau amrywiol a chymhleth o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes gydag un fframwaith cyfreithiol clir. Mae hyn yn cynnwys dull newydd o ymdrin â 'chontractau meddiannu' ar y cyd sy'n disodli tenantiaethau a thrwyddedau gyda dau gontract, a bydd yn helpu dioddefwyr trwy alluogi targedu tramgwyddwyr ar gyfer eu troi allan o'r cartref.

⇒ Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi 7 nod lles y mae'n rhaid i gyrff y sector cyhoeddus eu gweithredu. Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i atal VAWDASV a chefnogaeth dioddefwyr, gan gynnwys Cymru mwy cyfartal, Cymru gydnerth a Chymru iach.




⇒ Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ymgorffori mewn deddfwriaeth, ymysg materion eraill, diwygio'r gyfraith digartrefedd a chryfhau dyletswyddau ar awdurdodau lleol i atal a lliniaru digartrefedd.


⇒ Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu 'fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl (oedolion a phlant) sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr sydd angen cefnogaeth, a thrawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.'




⇒ Nodod Deddf Diwygio Lles 2012 gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r system les i wella cymhellion gwaith, symleiddio buddion, ymdrin â thegwch ac ymdrin â chymhlethdod gweinyddol. Mae hyn yn effeithio ar y cyllid a ddarperir i weithredu cynlluniau tai â chymorth, gan gynnwys llochesau.

⇒ Rhaid i Fyrddau Rhanbarthol Diogelu Plant (RSCB) ac asiantaethau partner roi gwybod am gynnydd yn erbyn pedwar canlyniad cyffredinol y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Ymdrin â Cham-drin Plant yn Rhywiol (CSE) (Cymru):

| |
|---|
| **1. PARATOI:** |
| Mae RSCBs ac asiantaethau partner yn tybio bod CSE yn bresennol ac mae ganddynt amcanion penodol i gefnogi:- <br>• Adnabod plant a phobl ifanc sy'n destun CSE neu sydd mewn perygl o CSE <br>• Amrywiaeth o ymatebion ac adnoddau priodol a gynlluniwyd i wella canlyniadau llesiant i blant sy'n destun CSE neu sydd mewn perygl o CSE |
| **2. ATAL:** |
| Mae gan RSCBs ac asiantaethau partner raglen atal a gwasanaethau ymatebol ar waith i helpu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o CSE a'u teuluoedd |
| **3. AMDDIFFYN:** |
| Mae RSCBs ac asiantaethau partner yn weithredol yn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag CSE, trwy gydweithio i sicrhau parhad ac effeithiolrwydd cynlluniau gofal ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n destun CSE neu sydd mewn perygl o CSE |
| **4. MYND AR DRYWYDD:** |
| Mae gan RSCBs ac asiantaethau partner ddealltwriaeth eglur a rennir ar sut y gallant gyfrannu at amharu ar dramgwyddwyr a'u herlyn, a chefnogi dioddefwyr trwy ddull cyson sy'n canolbwyntio ar y plentyn |




⇒ Amlinella Strategaeth y Swyddfa Gartref — 'Diweddu Trais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2020' weledigaeth uchelgeisiol i ymdrin â thrais yn erbyn menywod a merched yn ei holl ffurfiau, gyrru trawsnewidiad wrth gyflwyno gwasanaethau VAWG, gwneud atal ac ymyrraeth gynnar yn sylfeini'r dull newydd, ac ymgorffori VAWG fel 'busnes i bawb' ar draws asiantaethau, gwasanaethau a'r cyhoedd ehangach.

⇒ Mae Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-Gaethwasiaeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer ymdrin â chaethwasiaeth yng Nghymru ac mae'n cydlynu cydweithio rhwng partneriaid datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli a sefydliadau'r trydydd sector. Gan weithio'n unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, amcanion strategol y Grŵp yw:

- adeiladu sail dystiolaeth gan ddefnyddio setiau data cynradd ac eilaidd i asesu'n well y raddfa o gaethwasiaeth yng Nghymru;
- cwmpasu dadansoddiad o anghenion o hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru ar hyn o bryd a gofynion yn y dyfodol;
- datblygu protocolau rhannu gwybodaeth;
- sefydlu cynllun ymgysylltu cyfathrebiadau gwrth-gaethwasiaeth Cymru;
- nodi ac annog arfer da o ran gofal dioddefwyr.

Cymru yw'r unig lywodraeth yn y DU i gyflogi Cydlynydd Gwrth-Gaethwasiaeth, yn dilyn argymhelliad gan Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth Cymru ar Gaethwasiaeth. Mae'r swydd wedi bodoli ers Ebrill 2011.

⇒ Mae 'Cynllun Heddlu a Lleihau Trosedd 2017-2021' Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru (PCC) yn nodi, er nad yw ond yn cwmpasu 10% o ardal ddaearyddol Cymru, bod Heddlu De Cymru'n darparu gwasanaeth plismona i 1.3 miliwn o bobl sy'n cynnwys 42% o boblogaeth y wlad, gyda 49% o gyfanswm y troseddau yng Nghymru.

O fewn y 6 blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Heddlu a Lleihau Trosedd, ceir Blaenoriaeth 3: "Byddwn yn gweithio i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau". Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, mae PCC De Cymru wedi ymrwymo i "Gwblhau gweithrediad Cynllun Gweithredu Trais yn erbyn Menywod a Merched De Cymru."




*"Dylai fod yn destun pryder i bob person, oherwydd mae'n dibrisio ein dynoliaeth gyffredin. Dylai fod yn destun pryder i bob cymuned, oherwydd mae'n rhwygo ein ffabrig cymdeithasol. Dylai fod yn destun pryder i bob busnes, oherwydd mae'n ystumio marchnadoedd. Dylai fod yn destun pryder i bob cenedl, oherwydd ei fod yn peryglu iechyd y cyhoedd ac yn sbarduno trais a throseddau cyfundrefnol. Rydw i'n sôn am anghyfiawnder, gwarth, masnachu mewn pobl, y mae'n rhaid ei alw yn ôl ei enw gwirioneddol - caethwasiaeth fodern."* Barack Obama

⇒ Er bod yr heddlu wedi cael cyngor i flaenoriaethu diogelwch gweithwyr rhyw ers 2011, mae Strategaeth Plismona Gwaith Rhyw 2016 y Prif Gwnstabl Cenedlaethol yn mynd â'r ddyletswydd hon gam ymhellach. Cyflwynodd gyfrifoldeb newydd i ddiogelu gweithwyr rhyw, ac mae'n fframio puteiniaid fel dioddefwyr troseddoldeb posibl yn hytrach na throseddwyr. Cydnabyddir bod cynnal cyrchoedd ar buteindai yn cynyddu diffyg ymddiriedaeth rhwng gweithwyr rhyw, yr heddlu ac asiantaethau allanol. Yn hytrach, cynghorwyd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr i symud oddi wrth orfodi deddfau sy'n troseddu gwerthu rhyw. Mae gan y strategaeth ganllawiau ategol i swyddogion heddlu sy'n parhau i gefnogi gwaith y prif gwnstabliaid a'u staff pan fyddant yn delio â phuteindra, cam-fanteisio cysylltiedig a chanlyniadau cymdeithasol yn eu hardaloedd.

O ran y cyd-destun rhanbarthol, cefnogir y strategaethau a'r polisïau lleol canlynol gan y strategaeth hon, a lle bo angen, cyfeirir at amcanion a/neu gamau gweithredu perthnasol i ddangos aliniad.

⇒ Mae strategaeth 'Cyflenwi Economi Nos sy'n Ddiogel a Chroesawgar' yn nodi bod gan Gaerdydd eisoes record dda o ran sicrhau diogelwch a llesiant y rheiny sy'n defnyddio ac yn gweithio yn yr economi nos ym mhrifddinas Cymru. Yn y cyd-destun hwn, bydd y strategaeth hon yn helpu i sicrhau bod Caerdydd yn cadw economi nos fywiog a diogel trwy barhau i weithio gyda phartneriaid, gan sicrhau bod yr ymrwymiadau a'r adnoddau angenrheidiol ar gael fel bod yr arferion gorau presennol yn cael eu cynnal.

⇒ Mae Strategaeth Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol Caerdydd yn amlinellu sut y bydd partneriaid yn paratoi plant, teuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol i ddod o hyd i blant mewn perygl, atal niwed, amddiffyn dioddefwyr a mynd ar drywydd, amharu ar dramgwyddwyr a'u herlyn.

Yn benodol mae'n nodi amcanion i:


- Ddeall graddfa'r broblem
- Codi ymwybyddiaeth o'r mater trwy addysg a hyfforddiant
- Nodi'r rhai sydd mewn perygl a darparu cefnogaeth gynnar i atal camfanteisio a cham-drin
- Diogelu plant sy'n cael eu heffeithio gan ddilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Cefnogi dioddefwyr i dorri i ffwrdd oddi wrth gamfanteisio rhywiol a chael adferiad o'u profiadau
- Amharu ar dramgwyddwyr a'u herlyn




**BYDDWN YN:**
**Gweithio tuag at ddatblygu strategaethau a pholisïau rhanbarthol ar y cyd lle bo modd**

## Cwmpas

Mae'r strategaeth VAWDASV ranbarthol hon yn adlewyrchu'r fframwaith strategol a pholisi cyfredol sydd mewn grym a bydd yn cael ei diwygio yn unol ag unrhyw newidiadau mewn polisi cenedlaethol neu leol.




Cyfeirir yn naturiol at nifer o fathau o drosedd a materion yn y strategaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rheoli gorfodol
- Cam-drin domestig
- Anffurfio organau cenhedlu benywod
- Trais ar sail Anrhydedd a Phriodas dan Orfod
- Caethwasiaeth fodern –masnachu mewn pobl; caethwasanaeth ddomestig; camfanteisio ar lafur
- Trais rhywiol – Camfanteisio'n rhywiol ar blant; Cam-drin plant yn rhywiol; treisio
- Stelcian
- Tramgwyddwyr o'r cyfan uchod

Bydd nifer o faterion cysylltiedig o fewn cwmpas y strategaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

◊ Y Diwydiant Rhyw
◊ Yr Economi Nos
◊ Technoleg – 'sexting'; gwefannau cariadon; magu/meithrin perthynas seiber amhriodol; gwaith rhyw
◊ \llinellau Sirol - ymateb i anghyfreithlondeb trawsffiniol sy'n effeithio ar VAWDASV

## Rhestr Termau

- ·ACE— *Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod*
- APR— *Adolygiad Ymarfer Oedolion*
- BCU— *Uned Reoli Sylfaenol*
- CPR— *Adolygiad Ymarfer Plant*
- CPS— *Gwasanaeth Erlyn y Goron*
- CSE— *Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant*
- DHR— *Adolygu Dynladdiadau Trais Domestig*
- FGM— *Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod*
- GP— *Meddyg Teulu*
- HBV— *Trais ar sail Anrhydedd*
- IDVA/ISVA/IPA— *Cynghorwr Annibynnol Trais Domestig/Rhywiol /Cynghorwr Annibynnol Personol*
- IRIS— *Adnabod a Chyfeirio i Wella Diogelwch*
- LGBTQ— *Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol*
- MAPPA— *Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd*
- MARAC— *Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol*
- MASH— *Hyb Diogelu Amlasiantaethol*
- MATAC— *Tasgio a Chydlynu Amlasiantaethol*
- NRM— *Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol*
- NTF— *Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol*
- PCC— *Comisiynydd Heddlu a Throsedd*
- PPN— *Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd*
- PSE— *Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)*
- SARC— *Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol*
- SEEdS— *Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr*
- SWP— *Heddlu De Cymru*
- VAWDASV— *Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol*
- WASPI— *Cytundeb Cymru ar Rhannu Gwybodaeth Bersonol*

## Dolenni i Wybodaeth Bellach

- ◊ **http://livefearfree.gov.wales/?skip=1&lang=cy**
- ◊ **https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/?lang=cy**
- ◊ **www.youtube.com/watch?v=u7Nii5w2FaI**
- ◊ **www.beyond-the-gaze.com/briefings**
- ◊ **www.gov.uk/government/publications/analysis-of-serious-case-reviews-2011-to-2014**

## Dyddiadau Blynyddol Allweddol (er gwybodaeth yn unig)

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 6ed Chwefror | Diwrnod Rhyngwladol Dim Goddefgarwch o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod |
| 8fed Mawrth | Diwrnod Rhyngwladol y Menywod |
| 18fed Mawrth | Diwrnod Ymwybyddiaeth Cenedlaethol CSE |
| 18fed Ebrill | Diwrnod Ymwybyddiaeth Stelcian Cenedlaethol |
| 17eg Mai | Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thraffobia |
| 14eg Gorffennaf | Er Cof am Ddioddefwyr Trais ar sail Anrhydedd |
| 19eg Tachwedd | Diwrnod Rhyngwladol y Dynion |
| 20fed Tachwedd | Diwrnod Hawliau Plant |
| 25ain Tachwedd | Diwrnod Rhyngwladol i Ddileu Trais yn erbyn Menywod / Diwrnod Rhuban Gwyn |
| Tachwedd | Wythnos Genedlaethol Diogelu |
| 17eg Rhagfyr | Diwrnod Rhyngwladol i Ddileu Trais yn erbyn Gweithwyr Rhyw |
| 10fed Rhagfyr | Diwrnod Hawliau Dynol |



# PENNOD UN

# PARATOI

**Gwella cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV trwy ddull partneriaeth mwy cydlynol ar draws y rhanbarth.**

## Trosolwg Rhanbarthol

Mae gan yr ardal a gynhwysir o fewn ffiniau awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg boblogaeth gyfan o 489,931 ; 16% o boblogaeth Cymru. Mae'r ffeithiau a'r ffigurau canlynol yn berthnasol i'r rhanbarth:

205,093 o fenywod

194,556 o ddynion

475.3 km²


44,237 o ferched

46,045 o fechgyn

| Oedran | ♂ | ♀ | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| 0-4 | 15,115 | 14,489 | 29,604 |
| 5-15 | 30,930 | 29,748 | 60,678 |
| 16-24 | 37,248 | 38,241 | 75,489 |
| 25-44 | 67,835 | 65,168 | 133,003 |
| 45-64 | 55,595 | 58,786 | 114,381 |
| 65+ | 33,878 | 42,898 | 76,776 |
| TOTAL | 240,601 | 249,330 | 489,931 |

Mae'r holl ffigurau yn gywir ym mis Ionawr 2018

### Ethnigrwydd




93.9% Heterorywiol

2.5% Hoyw neu Lesbiaidd

1.1% Deurywiol


1.6% Arall

0.9% D/G neu'n gwrthod dweud

18 Gorsaf Heddlu
4 y Fro
14 Caerdydd




8 Ysbyty







18.6% anabl

### Enillion Gros Wythnosol (ll/a)

| | Caerdydd | Y Fro |
|---|---|---|
| Gwryw | £576.0 | £639.4 |
| Benyw | £498.9 | £551.1 |

206,577 o aelwydydd

2 safle sipsiwn / teithwyr swyddogol = 80 o leiniau

85 meddygfa: Caerdydd 62, Y Fro 23

1 carchar



| CYFLOGAETH | Caerdydd | Y Fro |
|---|---|---|
| Gweithiwr | 60.9% | 63.1% |
| Hunan-gyflogedig | 7.2% | 10% |
| Di-waith | 5.6% | 4.6% |
| Wedi ymddeol / Arall | 26.3% | 22.3% |


| Ysgolion | Caerdydd | Y Fro |
|---|---|---|
| Cynradd | 95 | 49 |
| Uwchradd | 19 | 9 |
| Arbennig | 7 | 4 |
| Annibynnol | 8 | 2 |
| Colegau / Prifysgolion | 12 | |

## Asesiad Anghenion

Er mwyn helpu i lywio'r strategaeth hon a chomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol, cynhaliwyd ymarfer asesu anghenion rhanbarthol i gasglu data o wasanaethau statudol ac arbenigol i lywio'r Asesiadau Llesiant Lleol, a chynhaliwyd ymarferiad dilynol i lywio'r strategaeth hon. Cyfeirir at y canfyddiadau trwy gydol y strategaeth hon i ddangos y galw am wasanaethau a nodi unrhyw fylchau neu ddyblygu.

Un teclyn ar gyfer deall yr angen am wasanaethau VAWDASV mewn ardal yw Offeryn Cyfrifydd Parod y Swyddfa Gartref. Datblygwyd hwn fel gweithrediad allweddol gan Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) y Swyddfa Gartref. Gan ddefnyddio canfyddiadau Arolwg Trosedd Prydain, mae'n galluogi comisiynwyr gwasanaethau i amcangyfrif yr angen am wasanaethau lleol ar gyfer trais domestig, trais rhywiol a stelcian yn eu hardal.

Ar gyfer poblogaeth oedolion y rhanbarth o 399,649, mae'r offeryn yn amcangyfrif bod:




Yn ogystal, mae'r offeryn yn nodi amcangyfrif o gost trais domestig a thrais rhywiol mewn ardal o'r maint hwn:

| Cyfanswm y costau (heb gynnwys costau dynol ac emosiynol): | Costau gofal iechyd corfforol a meddyliol: | Costau cyfiawnder troseddol: |
|---|---|---|
| **£76,344,150** | **£16,451,082** | **£10,361,971** |
| Costau gwasanaethau cymdeithasol: | Costau eraill (gan gynnwys costau tai, cyfreithiol sifil a | Costau dynol ac emosiynol (heb eu cynnwys yn y cyfanswm): |
| **£1,951,360** | **£47,579,738** | **£243,751,358** |

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys costau ychwanegol stelcian, anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod. Yn ogystal â chost dynol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'n amlwg bod cost hefyd i gymdeithas.

Bydd pob partner yng Nghaerdydd a'r Fro yn parhau i wella eu sylfaen wybodaeth ynghylch gwir effaith VAWDASV yn y rhanbarth a sicrhau bod data'n cael ei ddal ar bob gwasanaeth sy'n gweithredu yn yr ardal.

**BYDDWN YN:**
**Gwella ein dulliau casglu data yn barhaus i hysbysu'n well yr asesiad anghenion parhaus**

## Gweithio'n Rhanbarthol

Yn 2016, gwnaeth Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant Llywodraeth Cynulliad Cymru hi'n ofynnol symud yn genedlaethol tuag at gyflwyno dull gweithredu ariannu a chomisiynu rhanbarthol o 2018 ymlaen.

Cytunodd Caerdydd a Bro Morgannwg i weithredu fel rhanbarth oherwydd ôl troed Bwrdd Iechyd a rennir, patrymau teithio naturiol i waith, mudo i gael mynediad at wasanaethau i drigolion ar draws yr ardal, a bodolaeth bresennol nifer o wasanaethau a pholisïau rhanbarthol.

Cyflwynodd rhanbarth Caerdydd a'r Fro Gynllun Comisiynu ar gyfer 2018/19 i Lywodraeth Cymru. Yn ystod 2018/19, sef y flwyddyn drawsnewid olaf, bydd yn ofynnol i bob rhanbarth ddatblygu Strategaeth Gomisiynu i gwmpasu'r gofynion a osodwyd yn y canllawiau statudol sydd i'w dosbarthu i awdurdodau lleol yn gynnar yn 2018. Bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau trydydd sector eraill a gaiff eu talu'n uniongyrchol ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn trosglwyddo i ddyraniad rhanbarthol awdurdodau lleol o 2019.

Bydd awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg yn sefydlu trefniadau partneriaeth ffurfiol i ddatblygu gweithgareddau rhanbarthol gan gynnwys comisiynu, a thrafodaethau parhaus gyda phartneriaid ar y dull o gaffael gwasanaethau arbenigol yn y rhanbarth.

## Llywodraethu

I symud o un awdurdod i drefniant partneriaeth ranbarthol, roedd angen peth rhesymoli ar lawer o'r grwpiau a'r strwythurau adrodd presennol. Dengys y diagram isod y strwythur llywodraethu arfaethedig sydd i'w fabwysiadu yn y rhanbarth. Esbonnir y grwpiau strategol a throsfwaol canlynol yn fanylach:

***Grŵp Llywio VAWDASV Caerdydd a'r Fro***
Bydd y grŵp strategol trosfwaol hwn yn sicrhau cyflenwi cynllun gweithredu'r Strategaeth a bydd yn goruchwylio'r holl faterion sy'n ymwneud â VAWDASV. Hefyd bydd ganddo gysylltiadau â strwythurau rhanbarthol eraill.

***Grwpiau Gweithredol VAWDASV***
Bydd y grwpiau hyn yn parhau i oruchwylio'r materion sy'n ymwneud â VAWDASV ym mhob ardal awdurdod lleol, gan sicrhau cynrychiolaeth o wasanaethau Addysg, Oedolion a Phlant i ymdrin â mynediad a chyflenwi gwasanaethau lleol a materion strategol.

***Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV***
Yn un o ofynion penodol Llywodraeth Cymru, bydd y Bwrdd hwn yn rheoli comisiynu gwasanaeth arbenigol trwy asesu anghenion dioddefwyr, dylunio a sicrhau gwasanaethau gan ddefnyddio'r cylch 'dadansoddi', 'cynllunio', 'gwneud' ac 'adolygu'.

***Gofyn a Gweithredu, Grŵp Addysg a Hyfforddiant***
Bydd y Grŵp hwn yn goruchwylio cynllunio a chyflenwi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (gweler t.34) i weithwyr y sector cyhoeddus; sicrhau bod ysgolion, colegau a phrifysgolion yn ymwybodol o wasanaethau a llwybrau atgyfeirio; a datblygu deunyddiau codi ymwybyddiaeth priodol.


***Grŵp Strategol Trais Rhywiol***
Bydd y grŵp hwn yn sicrhau bod materion trais rhywiol, gan gynnwys treisio, ymosodiad rhywiol, aflonyddu rhywiol, CSE a FGM yn derbyn sylw strategol.

***Fforwm Diddordeb Proffesiynol***
Dull o rannu projectau a chanfyddiadau ymchwil newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, enghreifftiau o arferion gorau a gwerthusiadau rhwng yr holl randdeiliaid â diddordeb sy'n gweithio yn y sector.

Bydd rhywfaint o adrodd yn parhau trwy drefniadau llywodraethu a goruchwylio awdurdodau lleol. Caiff y strwythur rhanbarthol hwn ei fonitro a'i adolygu'n barhaus i aros yn unol â strwythurau perthnasol eraill.

**BYDDWN YN:**
**Gweithredu ac adolygu trefniadau llywodraethu yn barhaus gan gynnwys aelodaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn addas at y diben.**


Strwythur Adrodd Caerdydd a Bro Morgannwg
yn Ebrill 2018 (i'w gyflwyno fesul cam)



## Gwasanaethau Arbenigol Sydd Ar Gael

Mae'r mapio gwasanaethau sydd ar gael ar draws y rhanbarth yn dangos bod ar hyn o bryd:

- **1** Siop Un Stop (Caerdydd yn unig)
- **36** Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) a **5** Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA)
- **84** uned o lety arbenigol
- **4** Cydlynydd MARAC yn goruchwylio 4 MARAC
- **2** Rheolwr VAWDASV ac 1 Cydlynydd Trais a Cham-drin Domestig a Rhywiol
- **9** darparwr arbenigol o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr
- **2** ddarparwr rhaglenni tramgwyddwyr



- **Dyn Gwasanaeth dioddefwyr gwrywaidd cenedlaethol**
- **Cymru Ddiogelach Project Streetlife i weithwyr rhyw ar y stryd**
- **Cymru Ddiogelach a'r Gwasanaeth Prawf Gwasanaeth Braenaru Menywod**

- **· IDVA Iechyd Caerdydd a'r Fro**

- **Llwybrau Newydd yn darparu cwnsela cam-drin rhywiol cyfredol a hanesyddol i fenywod, dynion a phlant**
- **Gwalia lloches i ddynion**

- **Cymorth i Fenywod Caerdydd (gweithio fel Triwriaeth gyda Bawso a Llamau) yn darparu gwasanaeth VAWDASV RISE Caerdydd-Cymru ar gyfer dioddefwyr benywaidd, gan gynnwys Siop Un Stop, amrywiaeth o lety/lloches argyfwng, cefnogaeth fel y bo'r angen, cefnogaeth plant a phobl ifanc arbenigol, IPA a gwaith therapiwtig**

- **· Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Rhanbarthol (SARC)**
- **· Llys Trais Domestig Arbenigol Rhanbarthol (SDVC)**

- **Atal Y Fro yn darparu lloches sefydlog a gwasgaredig, cefnogaeth IDVA, ymyriadau cymunedol, rhaglenni cefnogi plant/pobl ifanc a rhaglenni tramgwyddwyr / ymyriadau teuluol**

- **Bawso yn darparu gwasanaethau masnachu mewn pobl, priodas dan orfod a gwasanaethau FGM**

## Cydweithio Ehangach

Rhoddodd Cronfa Trawsnewid Gwasanaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched y Swyddfa Gartref (2017) gyfle i bartneriaid comisiynu wneud cais am gyllid a oedd yn cefnogi gweithgaredd sy'n "*ceisio ymgorffori Trais yn erbyn Menywod a Merched fel 'busnes i bawb' ar draws asiantaethau, gwasanaethau a'r cyhoedd ehangach, gan sicrhau bod pob dioddefwr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arni - a'r gefnogaeth y mae ei phlant ei hangen - ar yr adeg iawn*."

Llwyddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru i gael £1.4 miliwn o'r cyllid hwn dros dair blynedd i sefydlu sylfaen gref sy'n galluogi dull systemau cyfan i wella'r ymateb i'r broblem hon a chael effaith gadarnhaol mewn perthynas â'r holl ddioddefwyr/goroeswyr a chymunedau ehangach ar draws ardal De Cymru. Nododd y Swyddfa Gartref y cydweithrediad rhwng yr holl gyrff comisiynu a oedd yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn ar draws De Cymru (PCC, Byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol) fel cryfder penodol y cais. Amcanion y dull systemau cyfan hwn yw:

1. Gwella cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV, trwy ddull partneriaeth fwy cydlynol.
2. Gwella a manteisio i'r eithaf ar y sail dystiolaeth sy'n sail i ymarfer sy'n ymdrin â VAWDASV, trwy ddull dysgu a rennir ar y cyd.
3. Gwella'r dirwedd darparu gwasanaethau - trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau mewn dau faes allweddol:




   - Newid sy'n Parhau - ymyrraeth gynnar ac atal (i'w dreialu yng Nghaerdydd)
   - Gwasanaethau cyfannol gan gynnwys gweithio gyda thramgwyddwyr a theuluoedd
4. Codi ymwybyddiaeth o bob math o VAWDASV, a thrwy hynny gefnogi ymgysylltu â'r gymuned a grymuso.

Bydd y Rhaglen gyfan yn cefnogi'r fframwaith canlyniadau cyffredinol a ddangosir uchod. Mae'r gweithgareddau penodol i'w cyflawni yn ystod y cyfnod tair blynedd a gyllidir yn cynnwys:

- Sefydlu Bwrdd Cydweithredol Rhanbarthol De Cymru i oruchwylio'r project
- Sefydlu ffrydiau gwaith thematig i archwilio atebion i ystod o faterion
- Sefydlu Fforwm Darparwyr Gwasanaeth De Cymru
- Sefydlu prosesau Ymgysylltu Goroeswyr De Cymru
- Datblygu rhwydwaith dysgu rhanbarthol De Cymru
- Cyflawni'r Cynllun 'Gofynnwch i Mi' a Llysgenhadon lleol
- Sicrhau argaeledd gweithwyr proffesiynol hyfforddedig a dibynadwy i Ofyn a Gweithredu
- Darparu gwasanaethau arbenigol i gefnogi di-oddefwyr a thramgwyddwyr

Dengys ymchwil hefyd bod gweithwyr rhyw yn debygol iawn o fod yn ddioddefwyr trosedd, ond eu bod yn annhebygol o adrodd am achosion i'r heddlu a cheisio cyfiawnder. Mae Heddlu De Cymru wedi sicrhau cyllid i wella'r ddarpariaeth bresennol er mwyn gallu ymateb i'r gwendidau hyn ac ymdrin â phryderon sy'n ymwneud â phuteindra yn y gymdogaeth. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Swyddog Heddlu Cyswllt Gwaith Rhyw pwrpasol yn Abertawe a Chaerdydd a gwasanaethau eirioli pwrpasol ychwanegol i'r rhai sy'n ymwneud â phuteindra. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r mentrau newid systemau ehangach a arweinir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

**BYDDWN YN:**
**Helpu'n weithredol i ymgorffori dulliau systemau cyfan ar draws y rhanbarth.**

## Ymgysylltu Goroeswyr

Mae SEEdS yn broject cyfranogi goroeswyr sy'n rhoi cyfle i fenywod sydd wedi byw trwy bob math o drais domestig a cham-drin rhywiol i rannu eu profiadau a dylanwadu ar newid. Mae'r project yn dod â menywod o bob rhan o ranbarthau De Cymru at ei gilydd ac yn darparu hyfforddiant, cefnogaeth ac adnoddau yn ogystal â lle diogel lle gall goroeswyr ddysgu oddi wrth ei gilydd ac annog ei gilydd.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i ddarparu llwyfannau lle gall goroeswyr gael llais i hysbysu cynllunio, datblygu a chyflwyno gwasanaethau trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cefnogir ac anogir cyfranogwyr SEEdS i siarad am eu profiadau eu hunain a goroeswyr eraill o drais a cham-drin. Mae hyn yn cynnwys eu cyfraniad at ymgyrchoedd lleol a chyhoeddusrwydd dilynol. Gweithia SEEdS i godi ymwybyddiaeth am realiti cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math arall o drais yn erbyn menywod, fel y gellir ei ddeall, ei herio a'i atal. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol trwy ddarparu hyfforddiant a siarad mewn cynadleddau. Helpodd cynrychiolwyr SEEdS i lywio datblygiad y Strategaeth hon, gan roi dyfyniadau a mewnbwn gwerthfawr i'r ymrwymiadau a wneir gan bartneriaid.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar ei Fframwaith Ymgysylltu Goroeswyr. Meddai, "pwrpas y Fframwaith Ymgysylltu Cenedlaethol Goroeswyr yw sicrhau y deellir anghenion a phrofiadau goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys y goroeswyr mwyaf ymylol, a'r sawl sy'n wynebu anfanteision lluosog i gael cymorth a chefnogaeth. Mae hefyd yn bwysig bod y rhai y gwneir y polisi ar eu cyfer yn gallu dylanwadu ar y polisi hwnnw a'i arwain, a rhannu beth sy'n gweithio iddynt hwy."



O fewn y rhanbarth, cefnogir y cysyniad hwn yn llawn gan y cydnabyddir bod rhaid caniatáu cyfle i'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rheiny sydd ag anghenion cymhleth, amlweddog, i gyfrannu eu barn a'u lleisiau o ran dylunio a rhoi adborth ar wasanaethau. Rhaid i unrhyw fframwaith o'r fath fod yn gynaliadwy ac yn gynrychioliadol yn ddaearyddol, a bydd y rhanbarth yn cefnogi'n llawn ofynion Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

## LLEISIAU GOROESWYR

Rwyf wrth fy modd yn rhan o'r project hwn ac wrth fy modd gyda'r ffordd y mae'n gyrru ymlaen. Rwy'n teimlo y gallwn ni wneud newid go iawn ac, o'r diwedd, nid y fi'n unig sy'n curo ar ddrysau.

Mae'r hyder a'r sgiliau yr wyf wedi'u datblygu ers ymuno â SEEdS wedi fy ngalluogi i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o ansicrwydd a diffyg hunangred.

Rwy'n teimlo fod fy llais yn cael ei glywed, rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi ac rwy'n teimlo'n rhan bwysig o newid.

Mae SEEdS wedi gadael i mi brofi amgylcheddau na chefais erioed y cyfle i'w gweld neu fod yn rhan ohonynt, a gobeithio y bydd hyn yn parhau i fod yn wir.

Mae project SEEdS yn rhan hynod bwysig o fy mywyd. Mae'n rhoi'r nerth i mi symud ymlaen, adennill fy hunanhyder, fy hunan-barch a dod unwaith eto y fenyw annibynnol gref oeddwn cyn fy mhrofiad.

Mae gwybod y bydd fy mhrofiadau nawr yn dylanwadu ar brofiadau merched eraill ac yn gweithredu newid er gwell yn golygu na fu'r holl ddioddefaint yn ofer, a bod golau yn gallu codi o'r tywyllwch a grëir gan drais yn erbyn menywod.

**BYDDWN:**
**Yn weithredol yn ceisio ymgysylltiad a chyfraniad gan ddioddefwyr a goroeswyr sy'n cynrychioli bob math o drosedd a nodweddion gwarchodedig.**

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gan weithio i Ddeddf Cydraddoldebau 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sydd wedi cael ei diwygio ymhellach gan Fesur yr Iaith Gymraeg 2011, mae pob partner yn y rhanbarth yn ymwybodol o sut y maent yn ymateb i anghenion amrywiol dioddefwyr, gan gynnwys sut y maent yn ymgysylltu â nhw, ac yn bodloni anghenion dioddefwyr a'u plant sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae partneriaid yn rhannu'r gwerthoedd o fod yn agored ac yn barchus ac yn ymroddedig i gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gydnabod unigolrwydd a chydnabod nad yw pobl yn grŵp homogenaidd o ddioddefwyr.

Gwnaeth y partneriaid hi'n ofynnol i'r un gwerthoedd gael eu harddangos o fewn y gwasanaethau arbenigol a gomisiynir i gefnogi dioddefwyr - rhaid iddynt fod wedi ymrwymo i arfer gwrth-ormesol a gwrthwahaniaethol, dangos eu bod yn derbyn profiadau'r dioddefwr yn anfeirniadol a dangos dealltwriaeth ac empathi. Rhaid i'r gwasanaethau fod yn gynhwysol, gan gydnabod anghenion penodol, a rhwystrau i gael mynediad at gefnogaeth, yr holl ddioddefwyr a'u plant, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i wasanaethau yn y rhanbarth hefyd gefnogi unrhyw safbwynt diwygiedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ar ddarparu llinellau cymorth, er mwyn sicrhau bod galwyr gwrywaidd a benywaidd yn derbyn yr un lefel o wasanaeth.

| Nodweddion Gwarchodedig | Gofynion Gwasanaeth |
|---|---|
| Oedran | • Cydnabod a deall effeithiau trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol ar bobl hŷn sy'n ceisio cefnogaeth a theilwra gwasanaethau yn briodol.<br>• Cyflenwi ystod o ymyriadau therapiwtig sy'n oedran-briodol i blant a phobl ifanc. |
| Anabledd | • Sicrhau mynediad teg i wasanaethau, yn enwedig gwybodaeth a chyngor a chymorth sy'n seiliedig ar lety.<br>• Datblygu llwybrau atgyfeirio i gefnogaeth arbenigol arall fel gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. |
| Ailbennu Rhywedd | Bod â pholisïau a gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr trawsryweddol, yn enwedig mewn lleoliadau seiliedig ar lety a rennir ac mewn gwaith grŵp - o ran cadw'r dioddefwr yn ddiogel a rheoli unrhyw effaith. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Dylai darpariaeth gwasanaethau gydnabod a deall sut mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar lesiant y dioddefwyr eu hunain ac ar eu gallu i ffurfio cysylltiadau cadarnhaol a bod yn rhieni effeithiol i'w plant. |
| Hil | Darparu gwasanaethau sensitif a phriodol ar gyfer yr holl ddioddefwyr, ond yn benodol ar gyfer y rheiny o gefndir BME a all brofi rhwystrau ychwanegol a allai effeithio ar eu gallu i ofyn am gymorth a chefnogaeth, ac sydd o bosibl ag anghenion ychwanegol. |
| Crefydd / Cred | Bod yn ymwybodol o ofynion gwahanol crefydd/cred y dioddefwr a bodloni'r anghenion hyn lle bynnag y bo modd, er enghraifft, defnyddio ystafelloedd gweddi/ ystafelloedd myfyrio yn y lleoliadau cymorth sy'n seiliedig ar lety. |
| Rhyw | • Cyflenwi gwasanaethau a hysbysir gan ddealltwriaeth gyffredin o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i adlewyrchu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.<br>• Sicrhau bod plant o unrhyw ryw sy'n dod gyda dioddefwr yn cael cefnogaeth briodol a mentora positif. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cydnabod a deall effeithiau cyfeiriadedd rhywiol ar y gamdriniaeth a brofir gan ddioddefwyr sy'n LGBT+. |
| Iaith Gymraeg | Hwyluso ymateb i ymholiadau cychwynnol yn yr iaith Gymraeg a sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn ymwneud â gwasanaethau yn ddwyieithog. |

*"Mae hawliau cyfartal, chwarae teg, cyfiawnder, i gyd fel yr aer; mae gan bawb ohonom, neu nid yw gan yr un ohonom. Dyna'r gwir"*, Maya Angelou



## PENNOD DAU

# MYND AR DRYWYDD

## Ymateb Cyfiawnder Troseddol

Mae holl ymatebwyr cyntaf yr heddlu yn gwisgo camerâu corff fel bod modd recordio digwyddiadau o'r digwyddiad y mae'r heddlu'n cael eu galw allan iddo, i gefnogi achos dioddefwr a lle bo angen, i gael ei ddefnyddio ar gyfer erlyniadau di-ddioddefwr. Erlyniad di-ddioddefwr, y gellir ei alw hefyd yn erlyniad seiliedig ar dystiolaeth, yw'r sefyllfa lle mae'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn datblygu achos heb gydweithrediad dioddefwr honedig i euogfarnu tramgwyddwyr. Mewn achosion o drais domestig, os yw'r dioddefwr yn barod i roi tystiolaeth, mae'n fwy tebygol na pheidio y gwneir penderfyniad i erlyn. Os nad yw'r dioddefwr yn barod i gymryd rhan, bydd angen i erlynyddion ystyried ffactorau lles y cyhoedd yn ofalus, gan gynnwys buddiannau a diogelwch yr achwynydd, aelodau eraill o'r teulu a phlant neu ddibynyddion eraill.



Nid oes trosedd benodol o 'drais domestig' neu 'gam-drin domestig'; fodd bynnag, gellir defnyddio'r term ar gyfer nifer o droseddau a gyflawnir mewn amgylchedd domestig. Mae natur ddomestig yr ymddygiad troseddol yn ffactor gwaethygu oherwydd y cam-fanteisio ar ymddiriedaeth sy'n digwydd.

Adroddwyd ar tua 11,302 o achosion o gam-drin domestig yn y rhanbarth yn 2016/17, gyda chyfanswm o 5,067 o droseddau yn cael eu cofnodi fel a ganlyn:


| | Caerdydd | Y Fro |
|---|---|---|
| Ymosodiad | 1,915 | 566 |
| Aflonyddu | 929 | 353 |
| Stelcian | 47 | 15 |
| Rheoli gorfodol | 25 | 9 |
| Bygythiad i ladd | 17 | 4 |
| CYFANSWM | 3,837 | 1,230 |

Daeth trosedd ymddygiad gorfodi neu reoli mewn perthynas agos neu deuluol yn drosedd fel rhan o Ddeddf Troseddu Difrifol 2015. Mae rheoli gorfodol yn weithred neu'n batrwm o ymosodiadau, bygythiadau, cywilyddio a brawychiad neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu godi ofn. Mae'r ymddygiad rheoli hwn yn cael ei gynllunio i wneud person yn ddibynnol, gan ei ymyleiddio oddi wrth gefnogaeth, ei ecsbloetio, a'i amddifadu o annibyniaeth a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd.

Mae rheoli gorfodol yn creu cadwyni anweledig ac ymdeimlad o ofn sy'n treiddio i bob elfen o fywyd y dioddefwr. Ymdebygodd arbenigwyr megis Evan Stark reoli gorfodol i gael eich cymryd yn wystl. Fel y dywed: "mae'r dioddefwr yn cael ei ddal mewn byd afreal a grëir gan y camdriniwr, wedi ei ddal mewn byd o ddryswch, gwrth-ddweud ac ofn." Mae'r drosedd hon yn dechrau cael ei chydnabod ymysg gweithwyr proffesiynol wrth i hyfforddiant arbenigol gael ei gyflwyno. Yn 2017, daeth cyfanswm o 309 o droseddau o ymddygiad gorfodol a rheoli gerbron y llysoedd yng Nghymru a Lloegr; roedd 97% o'r diffynyddion yn ddynion (CPS.)

O'r 5067 o achosion o gam-drin domestig a gofnodwyd yng Nghaerdydd a'r Fro, ni symudwyd ymlaen â 27% oherwydd diffyg tystiolaeth ac ni symudwyd ymlaen â 33% pellach oherwydd diffyg ymgysylltiad y dioddefwyr.

O ran Gorchmynion Amddiffyn Priodasau dan Orfod (FMPO), mae nifer y ceisiadau a wneir yn genedlaethol yn fach iawn er bod y ffigurau'n awgrymu tuedd gynyddol o ran eu defnydd. Hyd yn hyn, dim ond dau FMPO sydd wedi'u rhoi yn y rhanbarth.



Yn achos trais rhywiol, cofnodwyd 1,011 o droseddau yn 2016/17 gyda 182 arall yn gysylltiedig â cham-drin hanesyddol. Roedd 77% o'r dioddefwyr yn fenywod ac roedd 23% o ddioddefwyr o dan 16 oed. Hefyd roedd tua 69 o dramgwyddwyr trais rhywiol yn hysbys fel troseddwyr cam-drin domestig. O'r holl droseddwyr, ni chafwyd 33% yn euog o ganlyniad i ddiffyg tystiolaeth, ynghyd â 12% arall oherwydd diffyg ymgysylltiad dioddefwyr.

Mae'r gwasanaeth ym Mro Morgannwg bellach yn ymateb i'r rhai sy'n dioddef trais rhywiol trwy dîm arbenigol o swyddogion heddlu sy'n ymchwilio i drais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol. Bydd y tîm newydd hwn yn rhoi arbenigedd a hyder i swyddogion a dioddefwyr wrth ddelio ag achosion o'r fath, a bydd yn gallu sicrhau bod tramgwyddwyr yn cael eu dwyn gerbron y llys.

Roedd 99 o ddigwyddiadau o drais yn seiliedig ar anrhydedd a chofnodwyd 37 o droseddau yn 2016/17. O'r holl droseddau a gofnodwyd, ni symudwyd ymlaen â 10% oherwydd diffyg tystiolaeth ac ni symudwyd ymlaen ag 11% pellach oherwydd diffyg ymgysylltiad dioddefwyr. Adroddwyd ar 30 achos o fasnachu mewn pobl yn y rhanbarth yn 16/17; roedd 14 o'r dioddefwyr yn blant (86% yn ferched).

Fel arfer, caiff Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) ei wneud ar ferched ifanc rhwng babandod a 15 oed, a digwydda fwyaf cyffredin cyn dechrau'r glasoed. Mae'n anghyfreithlon yn y DU ac mae'n gamdriniaeth plant. Mae nifer y ceisiadau a wnaed ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn FGM (FGMPOs) yn parhau i fod yn fach iawn ar draws y DU. At ei gilydd, bu 205 o geisiadau, a gwnaed 179 o orchmynion yng Nghymru a Lloegr hyd at ddiwedd mis Medi 2017, ers eu cyflwyno ym mis Gorffennaf 2015.

**BYDDWN YN:**

- **Cynyddu nifer y canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr**
- **Gwella'r gwaith o fonitro canlyniadau achosion sy'n ymddangos gerbron Llysoedd Ynadon a Llys y Goron**

*"Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio â'n partneriaid, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal i ymdrin â chamdriniaeth yn y gwraidd yn ogystal â chefnogi camau gweithredu'r heddlu ac erlyniadau priodol ... byddwn yn parhau i yrru'r agenda hon trwy ymdrin â'r agweddau niweidiol sy'n sail i'r ymddygiadau hyn. ... a buddsoddi mewn ymyriadau tramgwyddwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth."* Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru

## Rheolaeth Troseddwr Integredig

INTEGRATED OFFENDER MANAGEMENT

Er mwyn gwneud y gorau o gydweithio i adnabod, asesu a rheoli troseddwyr sy'n peri risg uchel, bygythiad a niwed, cychwynnwyd Project Risg Uchel o Niwed (Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru (WISDOM)).

Bydd y mathau o droseddwyr o fewn y diffiniad hwn yn cynnwys troseddwyr rhywiol a threisgar, tramgwyddwyr cam-drin domestig cyfresol a nominaliaid troseddau difrifol a chyfundrefnol, ymysg grwpiau blaenoriaeth peryglus eraill. Yn allweddol i gyflawniad amcanion WISDOM mae integreiddio cyfrifoldebau statudol yr heddlu, swyddogion prawf a staff carchar, yn ogystal â phartneriaid cyfiawnder cymdeithasol eraill megis iechyd, drwy ddefnyddio eu harbenigedd priodol. Nid yw gwaith rhyngasiantaethol yn beth newydd, yn wir mae'r project hwn yn tynnu ar yr arbenigedd sydd gan yr heddlu a'r Gwasanaeth Prawf trwy ddefnyddio egwyddorion Rheolaeth Troseddwr Integredig presennol mewn perthynas â:

- rhannu gwybodaeth sylfaenol;
- goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ddwys ar y cyd;
- tactegau rheoli risg a gorfodi deinamig, y cyfan yn rhoi gwerth ychwanegol i reoli'r garfan beryglus hon.

Gall y project hwn ddiffinio, ar ei delerau ei hun, gwmpas ei weithgareddau ac felly'r garfan o droseddwyr sy'n destun i'w weithgareddau. Felly mae'n fwy ymatebol i angen gweithredol ac mae'n darparu corff o arbenigedd mwy pendant a hyblyg i ymdrin â rhai o'r risgiau mwyaf y mae'n rhaid i'r asiantaethau eu rheoli - gyda'r holl fuddion cyflwyniad ac enw da a all ddod yn ei sgil.

Mabwysiadodd project WISDOM ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ddefnyddio'r arbenigedd amlasiantaeth sydd ar gael, gyda'r nod o wireddu'r buddion canlynol:

- Trefniadau rhannu gwybodaeth gwell mewn perthynas â grwpiau blaenoriaeth peryglus;
- Gwell diogelwch i'r cyhoedd a diogelwch cymunedol yn ogystal â lleihau aildroseddu y troseddwyr mwyaf peryglus yng Nghymru;
- Dull datblygedig, wedi'i dargedu a'i arwain gan dystiolaeth, o reoli amlasiantaethol o garfanau sydd â risg uchel o niwed;
- Gwireddu mwy o effeithlonrwydd trwy wasanaethau integredig gwell a llai o ddyblygu;
- Datblygu cerbyd i nodi gwersi a dysgu amlasiantaethol y gellir eu rhannu er mwyn annog newidiadau systematig pwysig.

Mae Heddlu De Cymru'n defnyddio gwybodaeth leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol i ymgymryd â gweithrediadau penodol a chyrchoedd yn ôl yr angen i arestio a chadw pobl dan amheuaeth, a chasglu tystiolaeth.




Er enghraifft, gallai fod gweithrediadau penodol yn ymwneud â masnachu mewn pobl neu CSE a hefyd cyrchoedd o eiddo masnachol a/neu breswyl. Yn aml, cynhelir y gweithrediadau a'r cyrchoedd hyn ar y cyd ar draws nifer o ardaloedd heddlu, y cyfeirir atynt weithiau fel gweithrediadau 'Llinellau Sir', gyda chyrchoedd ar draws gwahanol ardaloedd yn digwydd ar yr un pryd.




Cafodd dull newydd o ymdrin â throseddwyr ei dreialu'n llwyddiannus yn yr Alban a Northumbria. Mae Tasgio a Chydlyniad Amlasiantaethol (MATAC) yn ddull tebyg i MARAC gyda phartneriaid yn rhannu'r cyfrifoldeb o ymdrin â thramgwyddwyr cam-drin domestig trwy amharu arnynt a chynnig cymorth uniongyrchol. Mae ei nodau'n cynnwys:

- Ymdrin ag achos y broblem (tramgwyddwyr)
- Atal troseddu yn ymwneud â cham-drin domestig
- Gwella diogelwch dioddefwyr
- Gwella canlyniadau cyfiawnder troseddol
- Gwella ymgysylltiad partneriaeth
- Gwella ymddygiad troseddwyr
-

Mae dadansoddiad 'Diweddaroldeb, Amlder a Difrifoldeb' yn nodi'r tramgwyddwyr mwyaf niweidiol ac aml sydd i gael eu targedu. Yna, cynhelir cyfarfodydd partneriaeth i benderfynu pa ymyriadau amlasiantaeth y gellir eu gweithredu. Bydd angen i bartneriaid gynnwys gwasanaethau Tai, Prawf, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau. Rhaid hefyd hwyluso cysylltiadau â MARAC a MAPPA i sicrhau diogelwch dioddefwyr parhaus ac i godi ymwybyddiaeth o effaith unrhyw ymyrraeth. Rhagwelir y bydd y model hwn yn cael ei weithredu yng Nghaerdydd yn y dyfodol agos.

**BYDDWN YN:**
**Treialu a gwerthuso Ymyrraeth MATAC i droseddwyr cam-drin domestig**

## Blwch offer MATAC




Bydd Project Drive sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd yng Nghwm Taf yn cael ei ymestyn i Gaerdydd o Fedi 2018, gan ddefnyddio Cyllid Trawsnewid y Swyddfa Gartref. Mae Drive yn ymyrraeth yn y gymuned i dramgwyddwyr cam-drin domestig yr asesir y mae eu dioddefwyr mewn perygl mawr o niwed sylweddol neu farwolaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ymateb sy'n seiliedig ar risg ac anghenion sy'n gweithio'n rhagweithiol gyda'r grŵp cleient diarwybod hwn. Cyflenwir y gwasanaeth yng nghyd-destun ymateb amlasiantaethol, gan ddarparu cynllun ymyrraeth wedi'i deilwra sy'n bodloni anghenion, yn ymdrin â throseddu ac yn cymell ymgysylltiad gweithgar mewn gweithgareddau a fydd yn cynhyrchu newid ymddygiad parhaus, tra'n cadw'r risg i ddioddefwyr yn flaenllaw.

Yng Nghaerdydd, nodir tramgwyddwyr drwy'r broses MATAC, gan gynnwys gwybodaeth o MARAC, MAPPA a WISDOM, a byddant yn derbyn cefnogaeth gan weithwyr Merthyr Ddiogelach sydd wedi bod yn rhan o beilot Drive Cwm Taf.

Ffocws pwysig o'r gwaith gyda thramgwyddwyr yw cynyddu diogelwch a llesiant goroeswyr a'u plant. Bydd gwasanaeth RISE Caerdydd yn gweithio gyda Drive i sicrhau y gellir cefnogi dioddefwyr a bydd yn cyfrannu at reoli risg yn effeithiol.

**BYDDWN YN:**
**Gwerthuso effaith Drive gan gynnwys yr effaith ar ddioddefwyr a phlant**

## Gweithio Gyda Thramgwyddwyr

Ar gyfer y cyfnod 2016/17, roedd tua 207 o oedolion ar Orchmynion Cymunedol gyda throsedd mynegai sy'n gysylltiedig â thrais domestig; o'r rhain roedd 6% yn fenywod. Dim ond 79 o droseddwyr a gwblhaodd eu Gorchmynion Cymunedol yn llwyddiannus. Roedd 94 o oedolion eraill ar Drwydded gyda throsedd mynegai sy'n gysylltiedig â thrais domestig; roedd 3% yn Fenywod a dim ond 48 a gwblhaodd eu Trwyddedau yn llwyddiannus.

Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn newid tuag at fodel cyflenwi newydd ar gyfer Rhaglenni Achrededig i dramgwyddwyr. Cynlluniwyd y rhaglen 'Kaizen' ar gyfer dynion sy'n oedolion a asesir yn risg uchel o aildroseddu gyda lefel uchel o angen criminogenig, waeth beth fo natur neu'r math o droseddu. Mae 'Becoming New Me+' (BNM+) yn cyfateb i Kaizen ond yn addas ar gyfer cyfranogwyr ag Anabledd Dysgu. Cynlluniwyd 'Horizon' ar gyfer dynion sy'n oedolion a gafodd euogfarn am droseddau rhywiol ac sydd wedi'u hasesu fel risg canolig ac uwch o safbwynt eu hail-euogfarnu. Mae 'New Me Strengths' (NMS) ar gyfer unigolion ag Anabledd Dysgu a asesir fel risg canolig ac uwch. Mae gan BNM + a NMS fodiwl atodol o'r enw 'Living as New Life Me' sy'n canolbwyntio ar gynnal y cryfderau a'r sgiliau a ddysgwyd o raglenni.

| Enw'r project: | Anelir at: | Disgrifiad: | Rhaglenni a gynhaliwyd Ion-Rhag 2017: |
|---|---|---|---|
| Break 4 Change Cymru | Trais pobl ifanc tuag at rieni | Rhaglen sy'n cefnogi rhieni/ gofalwyr a phobl ifanc wrth feithrin perthynas iach. Nod y rhaglen yw helpu teuluoedd i dorri patrymau lle mae person ifanc yn y cartref yn:<br>• Rheoli'r amgylchedd cartref<br>• Bod yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at riant<br>• Gwneud bygythiadau | 2 yn y Fro<br>1 yng Nghaerdydd<br>= 9 teulu |
| Choose to Change (achredwyd gan Respect) | Tramgwyddwyr gwrywaidd | Rhaglen dreigl 24 wythnos ar gyfer dynion sydd wedi eu cymell i wneud newidiadau ac yn barod i ymgysylltu. Rhaid iddynt fod dros 18 oed ac ni allant fod ar unrhyw raglen arall, nac ar fechnïaeth neu'n disgwyl am ddyddiad llys. | 1 yng Nghaerdydd<br>= 34 o ddynion |

Mae pob rhaglen yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau gyda ffocws ar y dyfodol, gan ganolbwyntio ar anghenion unigol pob cyfranogwr a rhoi pwyslais ar y model ailsefydlu Risg, Angen ac Ymatebolrwydd. Caiff pob rhaglen ei hategu gan ymrwymiad i gynhwysedd a gellir ei chyflenwi fel gwaith grŵp neu ar sail 1-1. Yn bwysig iawn, gellir cyflenwi rhaglenni hefyd lle mae troseddwr yn gwadu ei droseddu.

Ar hyn o bryd mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn cyflenwi rhaglenni gwaith grŵp Adeiladu Gwell Perthynas (BBR) ar gyfer dynion sy'n dreisgar/cam-drin yn ddomestig yn y gymuned. Cyflwynir 'Horizon' hefyd (fel y crybwyllwyd uchod) a gwneir gwaith unigol, wedi'i ategu gan 'Fapiau ar gyfer Newid', gyda throseddwyr rhyw.

Ar hyn o bryd yr unig ddarpariaeth tramgwyddwyr cymunedol heb fod yn Gyfiawnder Troseddol sydd ar gael yn y rhanbarth yw'r gyfres o raglenni a gyflwynir gan broject EPIC Atal y Fro (dangosir uchod). Yn ogystal, maent yn cynnig 'Taith Y Tu hwnt i Gam-drin' ar gyfer menywod sydd wedi defnyddio gorfodaeth mewn perthynas o gam-drin domestig. Fodd bynnag, disgwylir i'r cyllid hwn ddod i ben yn 18/19 ac felly chwilir am ddarpariaeth amgen, gan gynnwys opsiynau ataliol i'r rhai sy'n pryderu am eu syniadau neu ymddygiad rhywiol eu hunain, ac i bobl ifanc sy'n pryderu am eu hymddygiad.

*"Os ydych chi'n ymdrin â thrais yn erbyn menywod a merched, rydych chi'n ymdrin â'r holl faterion eraill."*

Nazir Afzal OBE, Gwasanaeth Erlyn y Goron gynt a bellach yn Gynghorydd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru

Ffocws pwysig o’r gwaith gyda thramgwyddwyr yw cynyddu diogelwch a llesiant goroeswyr a’u plant.

Yn ddiweddar, lansiodd Respect, y sefydliad sy'n darparu'r achrediad ar gyfer rhaglenni tramgwyddwyr, ei safonau diwygiedig (Tachwedd 2017). Mae Safon Respect yn amlinellu fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda ffocws ar ddiogelwch, sy'n nodi arferion da ac yn cynnig arweiniad i sefydliadau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'n cwmpasu'r garfan gyfan o dramgwyddwyr; dynion a menywod mewn perthynas dau-ryw neu un rhyw; y rhai sy'n cael eu cymell i newid a'r rhai nad ydynt; a'r rhai sy'n cyflwyno gwahanol lefelau o risg ac angen. Mae'n cwmpasu'r holl waith y mae sefydliad yn ei gyflawni gyda thramgwyddwyr, gan gynnwys:

- Ymyrraeth gynnar
- Rhaglenni newid ymddygiad (grwpiau neu 1-1)
- Rheoli achos dwysedd uchel gyda thramgwyddwyr risg uchel
- Gweithgareddau amharu

Gan brofi eu bod yn cwrdd â'r Safon, mae sefydliadau'n dangos eu cymhwysedd wrth weithio gyda thramgwyddwyr, gyda diogelwch goroeswyr a’u plant yn rhan annatod.

**BYDDWN YN:**

- **Gwella monitro ac adrodd am raglenni/ ymyriadau tramgwyddwyr**
- **Ystyried opsiynau ymyrraeth gynnar i'r rhai sy'n pryderu am eu hymddygiad**
- **Archwilio opsiynau ar gyfer darparu ystod o ymyriadau tramgwyddwyr cymunedol**


Carchar Caerdydd

Mae Grŵp Gweithredol Llys Trais Domestig Arbenigol amlasiantaeth (gweler t.57) yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod yr agwedd ranbarthol wrth ymdrin ag achosion. Mae'r Grŵp yn ystyried ymarferoldeb treialon o bersbectif y dioddefwr ac yn sicrhau bod y broses yn rhedeg mor llyfn â phosibl i bawb dan sylw.

Mae enghreifftiau'n cynnwys achosion sy'n cael eu rhestru ar ddydd Llun i leihau'r amhariad, y defnydd o gymorth IDVA/IPA i gynrychioli dioddefwyr a chyfleusterau fideo-gynadledda yn y Fro i gefnogi dioddefwyr sy'n teimlo bod mynychu'r llys yn rhy drawmatig. Mae angen ymestyn cymorth IDVA/ ISVA/IPA i'r holl ddioddefwyr ym mhob llys.

Cyflwynwyd y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd (Cod Dioddefwyr) yn 2006 ac mae'n nodi'r lefelau lleiaf o wasanaeth y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan asiantaethau sy'n llofnodwyr iddo. I'r rhai nad ydynt wedi ymgysylltu ag IDVA/ISVA/IPA efallai y bydd cefnogaeth ar gyfer cynrychiolaeth llys gan Gymorth i Ddioddefwyr.

## Dulliau Cyfiawnder Adferol

Cyfiawnder adferol yw'r broses o ddwyn ynghyd y rhai sydd wedi eu niweidio gan drosedd neu wrthdaro â'r rhai sy'n gyfrifol am y niwed, i ddod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen. Yn dilyn darpariaethau Deddf Troseddau a Llysoedd 2013, mae'n bosibl y gellir gohirio dedfrydu er mwyn i gyfiawnder adferol cyn-dedfrydu ddigwydd.

O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd (Hydref 2013), mae gan ddioddefwyr hawl i gymryd rhan mewn technegau cyfiawnder adferol. Nid yw polisi'r heddlu'n cefnogi cyfiawnder adferol ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn achosion partner agos (cyfredol neu flaenorol) a rhai achosion o gam-drin teuluol; ni ystyrir bod y defnydd o gyfiawnder adferol yn briodol. Felly, dim ond ar ôl ystyried yn ofalus a chael cyngor gan arbenigwyr y dylid cynnal cyfiawnder adferol.

Yn yr achosion hynny lle y gofynnir amdano ac y teimlir ei fod yn briodol, rhaid i gyfiawnder adferol neu gyfryngu ganolbwyntio ar ddiogelwch y dioddefwr. Dylid cymryd gofal i sicrhau bod y dioddefwr yn gyfranogwr parod ac nad oes unrhyw ddylanwadau gorfodol; mae hyn oherwydd natur y berthynas rhwng yr achwynydd a'r troseddwr. Dylai hwylusydd a hyfforddwyd yn briodol i ddelio ag achosion sensitif o'r math hwn reoli trefniadau i sicrhau nad oes pwysau ar y dioddefwr.

**BYDDWN YN:**
**Adolygu'n barhaus y canllawiau a'r dull o ddefnyddio arferion adferol ar gyfer dioddefwyr VAWDASV**

## Defnydd Diogel o Dechnoleg




Mae bywyd ar-lein bellach yn cael ei gymryd yn ganiataol. Mae ffonau clyfar, e-bost, rhwydweithio cymdeithasol, canfod cariadon ar-lein, ystafelloedd sgwrsio, blogiau, gemau ar-lein, Facebook, Twitter, Snapchat ac Instagram ayb. yn caniatáu mwy o ryngweithio nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, gall y rhyngweithiadau ar-lein hyn yn hawdd ddod yn niweidiol, a gellir defnyddio technoleg a chymwysiadau newydd fel modd o fonitro a rheoli eraill. Gall cam-drin ar-lein gynnwys meithrin plant a phobl ifanc, seiberfwlio a 'sexting'.

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyda phlant a phobl ifanc am y materion hyn, nid yw oedolion yn ddiogel rhag dioddef o aflonyddwch rhywiol ar-lein, stelcian, cywilyddio, bygythiadau treisgar a chael eu targedu trwy wefannau cariadon ac ystafelloedd sgwrsio. Yn anffodus, mae'r materion hyn o natur fyd-eang ac mae'n rhaid ymdrin â hwy ar lefelau llywodraethau cenedlaethol. Yn lleol, fodd bynnag, gall partneriaid wneud mwy i rybuddio pobl o'r niwed posibl a'u gwneud yn fwy gofalus ynglŷn â sut maent yn defnyddio ac yn ymateb i'r dechnoleg hon.

**BYDDWN YN:**
**Cyflenwi ymgyrchoedd lleol i amlygu defnydd diogel o dechnoleg**

## Annog Dioddefwyr i Adrodd

Gall amharodrwydd dioddefwyr unrhyw fath o VAWDASV i ddod ymlaen ac adrodd wrth unrhyw un, gan gynnwys yr heddlu, ddeillio o nifer o ffactorau:

⇒ <u>Canfyddiadau Dioddefwyr</u>
Mae dioddefwyr yn aml yn teimlo cywilydd, euogrwydd, neu'n methu symud oherwydd trawma seicolegol neu gorfforol, ac maent ofn peidio cael eu credu; o bosibl, nid ydynt hyd yn oed yn dweud wrth deulu neu ffrindiau. Mae rhai yn credu mewn gwerthoedd teuluol/ crefyddol sy'n annog cynnal a chadw'r uned deuluol ar unrhyw gost, ac mae llawer yn parhau i roi eu gobaith yn addewidion y tramgwyddwr y bydd yn newid.

⇒ <u>Canfyddiad o Ddiffyg Pŵer gan yr Heddlu</u>
Mae pobl yn gweld yr heddlu wedi'u gor-ymestyn ac yn aml maent yn lleihau eu profiad fel rhywbeth nad yw'n werth adrodd amdano neu nad yw werth defnyddio amser prin yr heddlu i'w drafod. Gellir gweld bod y gallu i chwilio am gosb droseddol neu ddatrysiad sifil yn annhebygol hefyd. Mae'r 'diffyg hyder' hwn yn y system cyfiawnder troseddol yn ffactor pwysig o ran adrodd.

⇒ <u>Bygythiad o Erledigaeth Bellach gan y Tramgwyddwr a'r Awdurdodau</u>
Mae ofn gwrthdaro, naill ai gan y troseddwr neu aelodau o'i deulu neu ffrindiau, yn rheswm mawr dros dawelwch pobl. Nid yw eraill yn adrodd oherwydd na allant wynebu'r syniad o fynd â'u hachos drwy'r llysoedd, gyda'r amser a'r straen y gallai hynny ei olygu. Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt ailadrodd eu storïau wrth ystod o wasanaethau statudol er mwyn cael mynediad at wasanaethau iechyd neu dai, er enghraifft.

Er bod capasiti gwasanaethau i ymateb yn fater gwirioneddol, ni ddylai hyn fod yn ffactor sy'n rhwystro hyder y cyhoedd i adrodd am droseddau. Mae angen i bob partner, boed yn statudol neu yn y trydydd sector, weithio i geisio cefnogi cyfraniad ei gilydd i ymdrin â VAWDASV yn ei holl ffurfiau.

Noda'r strategaeth hon nifer o gyfleoedd i gefnogi dioddefwyr i deimlo'n fwy hyderus wrth ddod ymlaen, a thrwy hynny gynorthwyo'r System Cyfiawnder Troseddol i wella ei gwybodaeth am dramgwyddwyr a gwella'r ystod o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Hyfforddi ymatebwyr cyntaf ym mhob gwasanaeth i gydnabod bregusrwydd a deall pob math o VAWDASV ac effeithiau rheolaeth orfodol.
- Mwy o ddulliau cydweithredol trwy brosesau MASH a MARAC a chydleoli.
- Cynorthwyo dioddefwyr â gweithiwr cymorth a enwir trwy gydol eu taith adferiad megis IDVA/ ISVA/IPA i eirioli gyda gwasanaethau ar eu rhan.
- Mwy o gyfleoedd i ddatgelu trwy Gynllun Llysgenhadon Cymunedol/ Gofynnwch i Mi.

Yn y pen draw, nod yr holl bartneriaid yw atal erledigaeth ailadroddus ac felly mae hyn angen dull cydweithredol o roi hyder i ddioddefwyr i adrodd, a allai hefyd amddiffyn eraill rhag cael eu cam-drin yn y dyfodol.

**BYDDWN YN:**
**Annog a rhoi cymorth i fwy o ddioddefwyr i ymgysylltu a gorfodaeth gyfreithiol er mwyn archwilio cywiriadau troseddol a sifil**



# PENNOD TRI

# ATAL

**Ymdrin yn rhagweithiol ag agweddau ac ymddygiadau negyddol sydd â'r potensial i arwain at VAWDASV, gan gydnabod bod hyn yn fusnes i bawb.**

## Lleoliadau Addysgol

Un ffordd o ymdrin ag agweddau trais tuag at fenywod a merched yw dechrau gyda phlant a phobl ifanc. Bydd dechrau ar oedran ifanc i archwilio stereoteipiau rhyw a sut beth yw perthynas iach yn rhoi cyfle i bobl ifanc sylwi ar arwyddion symptomau afiach yn eu perthnasoedd eu hunain a pherthnasoedd eraill, a byddant yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o botensial camfanteisio.

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru ganllaw arfer da yn 2015 o'r enw 'Cadw dysgwyr yn ddiogel' i gefnogi Deddf VAWDASV. Mae'r canllaw yn rhoi cyngor i ysgolion cynradd ac uwchradd ar sut i ddatblygu, ymgorffori a chyflenwi dull gweithredu ysgol-gyfan yn llwyddiannus i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a herio VAWDASV. Yn 2016, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ganllaw i lywodraethwyr ysgol ar y materion sy'n ymwneud â VAWDASV a'r camau y gallant eu cymryd i wneud eu hysgolion yn fwy diogel. Yn yr un flwyddyn buont yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant, NSPCC, Prifysgol Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cymru a phobl ifanc i gynhyrchu 'AGENDA: Canllaw pobl ifanc i wneud perthnasoedd positif yn bwysig'. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys ystod o weithgareddau i ysgolion eu defnyddio gyda phobl ifanc.

Mae nifer o raglenni yn codi ymwybyddiaeth o bob math o VAWDASV a ddarperir ar hyn o bryd i ddisgyblion trwy sesiynau ABCh ym mhob ysgol. Hyrwyddir yr adnoddau canlynol yn eang ar draws y rhanbarth:

⇒ Mae 'Gwasanaeth Seraf ' Barnardo's Cymru wedi cynhyrchu'r adnoddau ysgol 'Cudd' a 'Beth sy'n Digwydd Frankie?' - 2 gynllun gwers a gweithgareddau helaeth sy'n edrych ar gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, a dargedir at bobl ifanc 14-18 oed.

⇒ Rhaglen 'Sbectrwm' Hafan - Rhaglen Perthnasoedd Iach Cymru Gyfan a ariennir gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan athrawon cymwys a phrofiadol ym mhob math o ysgolion. Mae Sbectrwm hefyd yn cynnig sesiynau briffio ar ddulliau ysgol-gyfan y gellir eu cyflwyno i staff a llywodraethwyr yr ysgol.

| | | Caerdydd | Y Fro |
|---|---|---|---|
| Cynradd | Cyfanswm ysgolion | 97 | 49 |
| | Ysgolion y cafwyd mynediad iddynt | 9 (9%) | 9 (18%) |
| | Disgyblion a addysgwyd | 576 | 613 |
| Uwchradd | Cyfanswm ysgolion | 19 | 9 |
| | Ysgolion y cafwyd mynediad iddynt | 7 (37%) | 6 (67%) |
| | Disgyblion a addysgwyd | 2003 | 1168 |

Dengys y tabl uchod effaith y rhaglen Sbectrwm ar draws y rhanbarth yn ystod 2016/17. Yn amlwg, mae mwy i'w wneud i wella'r nifer sy'n manteisio arni er mwyn sicrhau mynediad teg at yr adnodd allweddol hwn i bob plentyn, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu ag ysgolion flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn amlwg, gall y fath hyfforddiant gynhyrchu datgeliadau gan ddisgyblion a staff yn dilyn y sesiynau hyn. Yn anffodus ni wyddys pa mor eang yw'r rhain oherwydd nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n ganolog.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn gynnal Adolygiad Thematig i werthuso ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2017 yn nodi strategaethau i gefnogi ysgolion i wella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer disgyblion, a gwnaeth yr argymhellion canlynol:

- Gweithredu canllawiau Llywodraeth Cymru i ddarparu dull ysgol-gyfan i atal VAWDASV.
- Sicrhau bod y negeseuon allweddol sy'n ymwneud â pherthnasau iach wedi'u hymsefydlu yn y cwricwlwm a'u hatgyfnerthu yn rheolaidd.
- Adeiladu ar yr arferion gorau a nodwyd yn yr adroddiad.
- Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn cwblhau'r hyfforddiant a nodir yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.

Hefyd bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau statudol o dan adran 15 o'r Ddeddf a rheoliadau i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i adrodd yn flynyddol ar y camau a gymerir ganddynt, gan gynnwys yn yr ysgolion. Fodd bynnag, ni osodwyd unrhyw ofynion eto ar ysgolion preifat a phlant a addysgir yn y cartref.


**BYDDWN YN:**
**Parhau i hyrwyddo a monitro gweithgareddau sy'n seiliedig ar addysg ar draws y rhanbarth i gynnwys plant 'anodd eu cyrraedd'.**

Anogir pob ysgol yng Nghymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddefnyddio pecyn hyfforddiant newydd fel y gall staff helpu disgyblion i oresgyn effeithiau niweidiol trawma plentyndod cynnar. Cynigir hyfforddiant i staff er mwyn eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r effaith oes y gall profiadau plentyndod andwyol (ACEs) ei chael ar ddisgyblion (gweler t.45).

Ariannwyd project peilot gan Gronfa Arloesi Heddlu'r Swyddfa Gartref a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC) De Cymru, gan arwain at ddarparu pecyn hyfforddi i bob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru o ganol 2018. Derbyniodd yr ysgolion peilot gyflwyniad cychwynnol i ymwybyddiaeth o ACEs a gyflwynwyd gan Barnardo's Cymru a'r NSPCC, yna dwy sesiwn arall gan seicolegwyr addysgol yn canolbwyntio ar sut i gefnogi plant y mae trawma yn effeithio arnynt.

Bu Barnardo's Cymru yn gweithio ar ddull ysgol-gyfan o adeiladu gwytnwch a elwir yn rhaglen PATHS©. Addysgwyd pobl ifanc sut i adnabod eu hemosiynau a'u trin yn well, gofalu am blant sy'n edrych yn drist neu'n unig yn y maes chwarae, a theimlo'n fwy positif amdanynt eu hunain.


Yn ogystal, mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11-18 oed a disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd.










## ASTUDIAETH ACHOS

Myfyriwr blwyddyn dau yw Sian; yn ystod ei blwyddyn gyntaf, bu'n lletya yn neuaddau'r Brifysgol. Yn ystod ei hail flwyddyn, roedd yn rhentu tŷ ac yn rhannu gyda thri o'i ffrindiau benywaidd. Roedd y tŷ hwn yn cynnwys cyfanswm o 8 o fyfyrwyr - roedd Sian yn adnabod y myfyrwyr eraill ond nid oeddent ar yr un cwrs â hi; roedd tri dyn a dwy fenyw, dau o'r dynion eraill hefyd yn mynychu Prifysgol wahanol gerllaw.

Dros gyfnod o amser, gwelwyd fod un o'r dynion o'r enw Simon wedi gwirioni ar Sian, gan ofyn iddi fynd allan ag ef, a bod yn hy arni ac yn awgrymog mewn partïon yn y tŷ. Serch hynny, roedd Sian bob amser yn gwrthod ei gynigion a byddai Simon yn ymosod yn llafar arni, gan ei galw'n slwten. Wrth i amser fynd ymlaen, dywedodd Simon ei fod yn mastyrbio pan oedd hi yn y gawod, gan ddweud ei fod yn breuddwydio am ei threisio ac y dylai hi bob amser gloi'r drws, yna byddai'n dweud mai jôc oedd y cyfan. Byddai'n rhwbio yn ei herbyn tra roedd hi'n coginio yn y gegin ac yn rhwbio ei hun yn awgrymiadol yn erbyn ei dillad, a byddai'n aml yn mynd heibio hi gan gyffwrdd â'i bron.

Dechreuodd Sian ymgilio ac effeithiwyd ar ei hastudiaethau, roedd hi'n amharod i ddatgelu unrhyw beth oherwydd pan oedd ei ffrindiau yn y tŷ ac yn gweld unrhyw beth, byddant yn dweud mai rwdlan oedd Simon, yn dangos ei hun, ac i beidio â chymryd sylw ohono. Aeth pethau'n llethol i Sian a dechreuodd grio yn un o'i gwersi, dywedodd wrth ei thiwtor personol nad oedd yn gwybod beth i'w wneud i ddechrau, ond dywedodd wrthi am adrodd wrth yr Heddlu. Fe'i cynghorwyd hefyd i gysylltu â gwasanaeth arbenigol ar ôl siarad â chynghorydd yn y Brifysgol. Yn y pen draw, fe gafodd y plwc i wneud hynny a chefnogodd y gwasanaeth hi gan gynnig cwnsela, eglurwyd beth oedd ei hopsiynau mewn perthynas â'r gyfraith, a pha gymorth oedd ar gael.

Gyda chymorth eiriolaeth, dywedodd Sian wrth ganolfan gynghori'r Brifysgol a chafodd fynediad i'r gwasanaeth cwnsela ac yn y pen draw adroddodd am y mater wrth yr heddlu. Cafodd Simon ei arestio a rhoddwyd amodau mechnïaeth i'w dynnu o'r llety, gan ei wahardd rhag cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol nac anuniongyrchol â Sian. Ymdriniodd y Brifysgol yn fewnol hefyd â'r tramgwyddwr, gan gael ei atal o wersi, tra'n disgwyl ymchwiliad.

Mae gan Heddlu De Cymru Swyddogion Cyswllt Ysgolion i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth i blant ysgol ac i sicrhau perthynas gadarnhaol rhwng disgyblion, staff a'r Heddlu fel rhan o'i swyddogaeth plismona cymunedol. Mae'r Swyddogion hyn yn cyflwyno sesiynau i wahanol flynyddoedd ysgol ar ystod o bynciau yn agenda VAWDASV:

⇒ **Hafan Ddiogel – Blwyddyn 2**. Mae'r wers hon yn cyflwyno'n sensitif y cysyniad o gam-drin domestig. Drwy ddefnyddio chwarae rôl, amser stori a gweithgareddau rhyngweithiol eraill, mae'n helpu plant i archwilio a deall emosiynau anodd. Mae'r wers hefyd yn amlygu pwysigrwydd siarad ag oedolyn dibynadwy os ydynt yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus.

⇒ **Ffrind Ynteu Gelyn – Blwyddyn 4.** Mae'r wers yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion nad yw'n bosibl dweud beth yw rhywun dim ond trwy edrych arnynt. Mae'n helpu i nodi sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus, ac yn archwilio strategaethau ymdopi. Ceir DVD byr o'r enw 'Stori Anwen' sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd siarad ag oedolyn dibynadwy os ydynt yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus.

⇒ **Yr Hawl i Fod yn Ddiogel – Blwyddyn 6.** Canolbwyntia'r wers hon ar hawl bob plentyn a pherson ifanc i deimlo'n ddiogel. Trwy weithgareddau dosbarth a gwaith grŵp, gofynnir i'r disgyblion ystyried gwahanol sefyllfaoedd diogel ac anniogel, sut y gellir lleihau risgiau, ac at bwy y gallant droi os bydd angen help neu gefnogaeth arnynt.




⇒ **Lluniau Peryglus – Blwyddyn 7**. Mae'r ffilm ryngwladol hon wedi ennill gwobrau, ac fe'i defnyddir fel canolbwynt i'r wers hon, lle mae Erin, merch ysgol, yn gwneud penderfyniad i anfon delwedd anweddus ohoni ei hun i'w ffrindiau. Mae'r ffilm yn cyflwyno'r canlyniadau i Erin pan fydd hi'n gwasgu'r botwm 'anfon' ac yn dangos y gwahanol ddigwyddiadau pan fydd hi'n dewis 'dileu'. Mae'r disgyblion yn trafod canlyniadau cymdeithasol ac emosiynol gweithgaredd 'sexting' a darganfod beth mae'r gyfraith yn ei ddweud. Yna caiff disgyblion eu cyfeirio at yr help sydd ar gael.

⇒ **Twyll Peryglus - Blwyddyn 9**. Yn seiliedig ar ddigwyddiad go iawn, mae'r DVD yn disgrifio stori Lucy, a gafodd ei meithrin yn amhriodol gan ddyn ar ôl iddo gysylltu â hi ar y Rhyngrwyd, a dweud mai asiantaeth fodelu oedd. Yn fuan, daeth Lucy yn ddioddefwr CSE. Gan ddefnyddio gweithgareddau trafod a rhyngweithiol, mae'r wers yn canolbwyntio ar nodi arwyddion rhybud-dio cynnar ac yn annog disgyblion i wneud dewisiadau cadarnhaol a chadw'n ddiogel.

⇒ **Anaf Cudd – Blwyddyn 9.** Mae'r wers hon, sy'n defnyddio DVD o'r enw 'Anaf Cudd', yn canolbwyntio ar gwpl ifanc o'r enw Carys a Rhys. Helpa'r wers i bobl ifanc ddeall y gwahanol fathau o gam-drin domestig a thrwy ddefnyddio gweithgareddau rhyngweithiol, grymusir y disgyblion i nodi arwyddion rhybuddio o berthynas gam-drin. Defnyddir senarios i helpu'r disgyblion i nodi sut i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth.

⇒ Mae Na yn golygu Na – Blynyddoedd 10-11. Mae'r wers hon yn cyflwyno'r cysyniad o ganiatâd neu gydsyniad, ac yn datblygu strategaethau i rymuso pobl ifanc i ddeall cydsyniad rhywiol. Mae'r disgyblion yn gwylio clip DVD i sbarduno trafodaeth grŵp ynglŷn â chydsyniad rhywiol, y gyfraith a'i chanlyniadau, ac yn archwilio sefyllfaoedd i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r wers hefyd yn tynnu sylw at asiantaethau cefnogi lleol a chenedlaethol.





Gall myfyrwyr sy'n astudio yn y coleg neu'r brifysgol i ffwrdd o'r cartref am y tro cyntaf ganfod eu hunain yn agored i ymosodiad rhywiol, trais a chamdriniaeth. Mae dyletswydd gofal ar bob corff addysg bellach ac uwch i gefnogi anghenion bugeiliol pob myfyriwr ac mae hyn yn cynnwys eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Mae enghreifftiau o'r arferion da presennol a ddarperir yn y rhanbarth yn cynnwys:

*"Mae gan y 5 mlynedd gyntaf gymaint o ddylanwad ar sut mae'r 80 nesaf am ddatblygu."* Bill Gates

⇒ Mae Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru (USW) a Met Caerdydd yn rhan o'r **Cynllun Tacsi Diogel** gyda Dragon Taxis. Mae'r gwasanaeth argyfwng yn unig hwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn dychwelyd yn ddiogel i'w cartrefi, neuaddau neu y gellir mynd â hwy i'r ysbyty neu i orsafoedd heddlu lleol.




⇒ Mae'r **Fenter Gwyliedydd** yn rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth i atal gorfodaeth rywiol a cham-drin domestig mewn lleoliadau prifysgol, trwy rymuso myfyrwyr i weithredu fel dinasyddion progymdeithasol. Fe'i cyflenwir trwy raglen o wyth sesiwn wedi'u hwyluso gydag adnoddau cysylltiedig.

⇒ Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru ac elusen addysg alcohol Drinkaware wedi dod ynghyd ag undebau myfyrwyr i lansio cynllun i ddiogelu myfyrwyr a chodi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol yn yr economi nos. Bydd staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, a elwir yn **Griw Drinkaware**, yn gweithio mewn nifer o leoliadau myfyrwyr ar draws De Cymru i gefnogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed o ganlyniad i yfed gormod a'u hatal rhag dioddef trosedd.

⇒ Yn ddiweddar, lansiodd Prifysgol Caerdydd eu **Tîm Ymateb Datgelu** i gefnogi myfyrwyr sydd wedi dioddef trais neu gamdriniaeth.

⇒ Mae gan Met Caerdydd dîm arbenigol o **gynghorwyr lles rhyngwladol** cymwys sydd â chyfrifoldeb penodol dros ddiogelwch a lles eu myfyrwyr traws wladol; sef 20% o'r holl fyfyrwyr yn y rhanbarth. Fe'u hyfforddir i asesu gwendidau, yn enwedig mewn perthynas ag unigedd diwylliannol ac ymddieithrio.

⇒ Mae gweithwyr proffesiynol o ddarparwyr arbenigol a phartneriaid statudol yn ategu'r addysgu ar gyrsiau prifysgol ar lefel israddedig ac ôl-radd, gan rannu eu profiad a'u gwybodaeth am faterion allweddol yn ymwneud â VAWDASV.

⇒ Mae'r Undebau Myfyrwyr i gyd yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd fel Rhuban Gwyn ac yn hyrwyddo hyn gyda'r 66,000 o fyfyrwyr yn y rhanbarth.


Er bod gan brifysgolion ystod dda o ymatebion, mae angen gwneud cysylltiadau agosach gyda'r holl gyfleusterau addysg bellach ac uwch yn y rhanbarth i sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu, eu mabwysiadu'n gyson, a bod llwybrau cyfredol i gefnogaeth arbenigol yn hysbys ac yn cael eu deall.

**BYDDWN YN:**
**Rhoi cefnogaeth i bob sefydliad addysg bellach ac uwch i fod â dull cyson a gweladwy o ymdrin â VAWDASV ac wrth reoli datgeliadau.**

## Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol

Datblygwyd y Fframwaith a'r deunyddiau hyn gan Lywodraeth Cymru i sicrhau ymateb ffurfiol cyson a chryfach i ddioddefwyr gan bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Cydnabyddir y gallai llawer o ddioddefwyr fod mewn cysylltiad â gwasanaethau tai, gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg ac mae pob un o'r rhain mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu porth i wasanaethau cymorth arbenigol. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw staff yn y gwasanaethau hyn yn barod ar hyn o bryd i ddarparu ymateb boddhaol i ddioddefwyr, oherwydd diffyg hyder o ran gwybod sut i drafod y pwnc, a lle i gyfeirio am gymorth.

Cyflenwir y Fframwaith trwy lefelau penodol i gydnabod y gwahanol rolau staff a'u gallu i ryngweithio â dioddefwyr, eu cyfeirio a'u cefnogi. Yn ychwanegol at y lefelau hyn (y dudalen nesaf), gellir cyflwyno nifer o fodiwlau atodol trwy faes llafur pwnc arbenigol, y gellir eu dylunio'n lleol ond sy'n gorfod cael eu hachredu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdodau Perthnasol (awdurdodau lleol, Iechyd a Gwasanaeth Tân) wedi datblygu cynlluniau hyfforddi 5 mlynedd i nodi sut y caiff y Fframwaith hwn ei gyflenwi (gweler t.36-37).



Er mwyn sicrhau bod cyfiawnder yn effeithiol, mae'n hanfodol bod barnwyr ac ynadon hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd i ddeall effaith VAWDASV ar ddioddefwyr a'u teuluoedd.

Yn y rhanbarth, bydd holl staff y sector cyhoeddus yn derbyn e-ddysgu **Grŵp 1**, sy'n rhoi cyflwyniad i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fe'i cynhelir yn fewnol yn yr awdurdodau lleol a bydd staff iechyd yn ei gael drwy safle Academi Cymru Gyfan a gynhelir gan y GIG. Ar gyfer y staff hynny sy'n gweithio oddi ar y safle yn bennaf mewn rolau llaw, addaswyd yr e-ddysgu i gyflwyniad y gellir ei roi mewn lleoliadau grŵp wedi'u hwyluso, gan greu trafodaeth a sicrhau dealltwriaeth gan bawb.

Bydd yr holl staff yn cael holiadur cyn ac ar ôl yr e-ddysgu, i asesu gwybodaeth flaenorol o'r materion dan sylw, a pha mor ymwybodol y mae staff yn teimlo ar ôl iddynt gwblhau'r e-ddysgu.

Mae **Grŵp 2** yn ymwneud â gofyniad Deddf VAWDASV i 'Ofyn a Gweithredu'. Bydd hyn ar gyfer staff sy'n dod i gysylltiad dyddiol â chleifion/ cleientiaid / tenantiaid/ dinasyddion fel rhan o'u rôl, ac y gallant eu holi am VAWDASV lle maent yn teimlo y gallai hyn fod yn ffactor. Bydd yr hyfforddiant yn galluogi staff i ofyn y cwestiynau cywir a deall y llwybrau lleol i gyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth arbenigol.

Yn y rhanbarth, rhagwelir y cyflwynir yr hyfforddiant hwn i staff mewn sesiynau dosbarth sy'n para am 1 diwrnod.

Mae **Grŵp 3** ar gyfer staff mewn rolau lle mae'r grŵp cleientiaid yn debygol o fod wedi dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a/neu drais rhywiol neu mewn lleoliad sy'n rheswm ynddo'i hun i 'Ofyn a Gweithredu' (bydwreigiaeth, iechyd meddyliol, cam-drin plant). Mae'r profiad hwn yn cymhlethu ac yn effeithio ar natur ymgysylltiad y cleient â'r rôl honno.

Mae grwpiau 2 a 3 yn dal i gael eu treialu gan Lywodraeth Cymru gyda'r disgwyl y bydd pob rhanbarth yn defnyddio'r dull 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' o ran cyflwyno. Bydd sesiynau Grwpiau 2 a 3 yn cael eu cyflenwi gan IDVAs/PAs arbenigol. Yn rhanbarthol, datblygir y modiwlau ychwanegol canlynol, eu hachredu a'u cyflwyno i fynychwyr Grwpiau 2 a 3:

- Masnachu Pobl
- Stelcian
- Gweithwyr rhyw
- Anffurfio organau cenhedlu benywod

Bydd **Grŵp 4** yn cyflenwi sgiliau ychwanegol i weithwyr arbenigol y trydydd sector, a bydd Grŵp 5 yn ymdrin â'r rheolwyr gwasanaethau arbenigol yn yr un modd. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru y contract i Gymorth i Fenywod Cymru i gyflwyno'r hyfforddiant hwn.

> *"Weithiau, rydych ond eisiau i rywun ofyn i chi. Nid ydych yn gwybod sut i ddweud eich bod chi'n dioddef camdriniaeth ond rydych chi'n gobeithio cael cyfle i ddweud wrth rywun a fydd yn deall."* Goroeswr Cam-drin Domestig, De Cymru

Yn olaf, mae Grŵp 6 ar gyfer arweinwyr strategol sydd â chyfrifoldeb i feithrin diwylliant a seilwaith lle cydnabyddir VAWDASV fel mater a allai effeithio ar y gweithlu, y grŵp cleient, ffrindiau a theulu. Cyflenwir hyn trwy'r Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth o ffilmiau byr, pob un ar fater pwysig sy'n gysylltiedig â VAWDASV. Isod ceir crynodeb o'r fethodoleg gyflenwi ar gyfer y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol:

| Lefel | Anelir at | Dull | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|
| Grŵp 6 | Arweinwyr strategol | Fideos | 72 |
| Grŵp 5 | Rheolwyr gwasanaeth arbenigol sy'n gweithio yn y sector VAWDASV | Yn y dosbarth | 12 |
| Grŵp 4 | Gweithwyr arbenigol yn sector VAWDASV | Yn y dosbarth | 42 |
| Grŵp 3 | Unigolion mewn rolau pencampwyr sy'n cefnogi cydweithwyr ac aelodau o'r teulu y rhai yr effeithiwyd arnynt. Rolau sy'n gofyn mwy na Gofyn a Gweithredu | Yn y dosbarth | 1,726 |
| Grŵp 2 | Gweithwyr proffesiynol sy'n debygol o fod mewn rolau perthnasol, e.e. trin neu weithio gyda rhywun o ganlyniad i drais a cham-drin (Gofyn a Gweithredu) | Yn y dosbarth | 24,782 |
| Grŵp 1 | Holl staff sector cyhoeddus | E-ddysgu | 34,493 |

Er mwyn bwrw ymlaen â'r cyflwyniad, mae gan bob awdurdod perthnasol drosolwg mewnol o hyfforddiant Grŵp 1 ond ar gyfer Grwpiau eraill, caiff hyn ei hwyluso a'i gydlynu gan grŵp llywio ar y cyd. Mae angen integreiddio'r Fframwaith hwn gyda hyfforddiant diogelu arall.

Fel corff heb ei ddatganoli, nid yw'n ofynnol i Heddlu De Cymru fabwysiadu'r FfHC; serch hynny mae'n ofynnol i swyddogion ymgymryd ag ystod o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth berthnasol o ran trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol. Mae hyn yn cynnwys:

⇒ **SOFR – (Ymatebydd Cyntaf Troseddau Rhywiol)** – cwrs 3 diwrnod wedi'i anelu at ymatebwyr cyntaf i ymosodiadau rhywiol a thrais rhywiol. Mae hwn ar gyfer swyddogion ymateb ac mae'n rhagofyniad i swyddogion sy'n mynychu'r cwrs SOIT.

⇒ **SOIT – (Hyfforddi i Ymchwilio i Droseddau Rhywiol)** – cwrs 5 diwrnod wedi'i anelu at ymchw ilwyr ymosodiadau rhywiol a threisio.

⇒ **PIP 2 Tystion a'r Sawl a Amheuir** – mae'r ddau gwrs hyn yn 5 diwrnod. Yn treiddio drwy'r ddau, ceir senarios o ymosodiadau rhywiol a thrais domestig. Cyflenwir hyn nawr i swyddogion CID, PPU a HUB fel rhan o lwybr PIP 2.

⇒ **Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern** – cyflwynir nifer o gyrsiau gan gynnwys Ymatebydd Cyntaf a chwrs SIO.

⇒ **Rhagweithiol** – Mae un senario o fewn y cwrs pum diwrnod hwn yn cynnwys senario Masnachu Pobl.

⇒ **SAAIDP – (Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Camdriniaeth Oedolion Difrifol)** – Cwrs arbenigol 3 wythnos a anelir at swyddogion sy'n gweithio yn yr arena Oedolion Bregus yn PPU. Mae hyn yn cynnwys astudiaeth achos o ymosodiad rhywiol ar fenyw fregus.

⇒ **SCAIDP – (Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Camdriniaeth Plant Arbenigol)** – Cwrs arbenigol 3 wythnos a anelir at swyddogion amddiffyn plant yn PPU. Mae hefyd yn cynnwys senario astudiaeth achos sy'n cynnwys esgeuluso plentyn benywaidd.

Mae'r mwyafrif o'r cyrsiau uchod yn gyrsiau arbenigol a dderbynnir gan yr Adran Gwybodaeth Troseddu/Uned Gwarchod y Cyhoedd/Timau Troseddau Mawr. Mae swyddogion ymateb hefyd yn derbyn hyfforddiant ar stelcian a chydnabod bregusrwydd a sut i ymateb yn y lle cyntaf a gwneud yr atgyfeiriadau cywir. Ceir hyfforddiant gloywi blynyddol gyda bob un ohonynt.

Dros y dudalen ceir cynllun hyfforddi 5 mlynedd ar gyfer yr holl Awdurdodau Perthnasol ar draws y rhanbarth. Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cyflwyno eu Fframwaith trwy ddull ar wahân mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Nid yw'n glir a fydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn mabwysiadu'r Fframwaith.

**BYDDWN YN:**

- **Cydgysylltu â'r Coleg Barnwrol i sicrhau bod Ynadon yn cael eu hyfforddi mewn canllawiau ymwybyddiaeth a dedfrydu VAWDASV**
- **Gweithredu'r cynllun hyfforddi rhanbarthol i sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol**

# CYNLLUN FFRAMWAITH HYFFORDDIANT CENEDLAETHOL CYFUN 5 MLYNEDD

| LEVEL | Total Staff to be Trained | BLWYDDYN: Cynulleidfa Darged | 2017-18 Cyngor Caerdydd | 2017-18 Cyngor BM | 2017-18 BIP CF | 2017-18 Velindre | 2018-19 Cyngor Caerdydd | 2018-19 Cyngor BM | 2018-19 BIP CF | 2018-19 Velindre |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp 1 | Cyngor Caerdydd = 13093; Cyngor y Fro = 5040; BIP CF = 15021; Velindre = 1339 | Hyfforddiant gorfodol i bob cyflogai. Staff gweithio â llaw i dderbyn hyfforddiant rhyngweithiol trwy gyfrwng cyflwyniad grŵp yn seiliedig ar e-ddysgu. | 10% | 17% | 62% | 50% | 40% plws, trwy sefydlu | 40% plws, trwy sefydlu | 30% plus via Induction | 40% plus via Induction |
| | | CYFANSYMAU | 1294 | 856 | 9313 | 670 | 5176 | 2016 | 4506 | 536 |
| Grŵp 2 | Cyngor Caerdydd = 9200; Cyngor y Fro = 1500; BIP CF = 13259; Velindre = 823 | Perthnasol i staff rheng flaen sy'n debygol o fod yn cwrdd â'r rheiny sydd wedi profi cam-drin. Arwyddion/symptomau/risg. 'Gofyn' – codi'r mater trwy ymholi wedi ei dargedu. 'Gweithredu' – rhannu gwybodaeth, arwyddo ac atgyfeirio. Llwybrau gofal a gwaith aml-asiantaeth. | Dim. Aros am ddysgu a deunyddiau gan gynlluniau peilot Llywodraeth Cymru | Dim. Aros am ddysgu a deunyddiau gan gynlluniau peilot Llywodraeth Cymru | Dim. Aros am ddysgu a deunyddiau gan gynlluniau peilot Llywodraeth Cymru | Dim. Aros am ddysgu a deunyddiau gan gynlluniau peilot Llywodraeth Cymru | 10% Cytundeb Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff yn Ch3 a'r Grŵp i ddechrau gweithredu'n raddol yn Ch4 | 10% Cytundeb Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff yn Ch3 a'r Grŵp i ddechrau gweithredu'n raddol yn Ch4 | 10% Cytundeb Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff yn Ch3 a'r Grŵp i ddechrau gweithredu'n raddol yn Ch4 | 10% Cytundeb Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff yn Ch3 a'r Grŵp i ddechrau gweithredu'n raddol yn Ch4 |
| | | CYFANSYMAU | 0 | 0 | 0 | 0 | 920 | 150 | 1326 | 82 |
| Grŵp 3 | Cyngor Caerdydd = 1500; Cyngor y Fro = 200; BIP CF = 26; Velindre = 0 | Y rheiny a fydd yn cynnig gwasanaeth ( o fewn rôl gyffredinol) i'r rheiny sy'n profi'r cam-drin. Asesiadau risg/Diogelwch syth / llwybrau gofal a gwaith aml-asiantaethY rheiny sy'n gweithredu fel **pencampwyr** o fewn eu sefydliadau (yn unol â Deddf TEMCDCRh). | Dim. Aros am ddysgu a deunyddiau gan gynlluniau peilot Llywodraeth Cymru | Dim. Aros am ddysgu a deunyddiau gan gynlluniau peilot Llywodraeth Cymru | Dim. Aros am ddysgu a deunyddiau gan gynlluniau peilot Llywodraeth Cymru | Dim. Aros am ddysgu a deunyddiau gan gynlluniau peilot Llywodraeth Cymru | 5% Cytundeb Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff yn Ch3 a'r Grŵp i ddechrau gweithredu'n raddol yn Ch4 | 5% Cytundeb Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff yn Ch3 a'r Grŵp i ddechrau gweithredu'n raddol yn Ch4 | 26 rôl staff arbenigol. Cytundeb Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff yn Ch3 a'r Grŵp i ddechrau gweithredu'n raddol yn Ch4 | 3 rôl staff arbenigol. Cytundeb Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff yn Ch3 a'r Grŵp i ddechrau gweithredu'n raddol yn Ch4 |
| | | CYFANSYMAU | 0 | 0 | 0 | 0 | 75 | 10 | 26 | 3 |
| Grŵp 4 | Cyngor Caerdydd = 35; Vale Council = 6; BIP CF = 1; Velindre = 0 | Gwasanaethau TEMCDCRh arbenigol | Dim. Aros am ganlyniad ail-gomisiynu | 6 a hyfforddwyd eisoes | 6 a hyfforddwyd eisoes | d/b | 27 | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b |
| | | CYFANSYMAU | 0 | 0 | 0 | 0 | 27 | 0 | 0 | 0 |
| Grŵp 5 | Cyngor Caerdydd = 8; Cyngor y Fro = 3; BIP CF = 1; Velindre = 0 | Rheolwyr gwasanaeth TEMCDCRh arbenigol | Dim. Aros am ganlyniad ail-gomisiynu | Hyfforddwyd eisoes | Hyfforddwyd eisoes | d/b | 8 | 3 | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b |
| | | CYFANSYMAU | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 3 | 0 | 0 |
| Grŵp 6 | Cyngor Caerdydd = 17; Cyngor y Fro = 20; BIP CF = 25; Velindre = 17 | Uwch reolwyr ac arweinwyr | 41% | Dim | Dim | d/b | 59% | 100% | 100% | 100% |
| | | CYFANSYMAU | 7 | 0 | 0 | 0 | 10 | 20 | 25 | 17 |

# CYNLLUN FFRAMWAITH HYFFORDDIANT CENEDLAETHOL CYFUN 5 MLYNEDD Cont...

| 2019-20 | | | | 2020-21 | | | | 2021-22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Caerdyd | Cyngor BM | BIP CF | Velindre | Cyngor Caerdyd | Cyngor BM | BIP CF | Velindre | Cyngor Caerdyd | Cyngor BM | BIP CF | Velindre |
| 40% plws, trwy sefydlu | 40% plws, trwy sefydlu | 8% Plws, trwy sefydlu | 10% Plws, trwy sefydlu | 10%Plws, trwy sefydlu | 10% Plws, trwy sefydlu | Sefydlu ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Sefydlu ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Sefydlu ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Sefydlu ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Sefydlu ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Sefydlu ac unrhyw hyfforddiant gloywi |
| 5176 | 2016 | 1202 | 133 | 1309 | 504 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 30% | 30% | 30% | 30% | 30% | 30% | 30% | 30% | 30% | 30% | 30% | 30% |
| 2760 | 450 | 3978 | 247 | 2760 | 450 | 3978 | 247 | 2760 | 450 | 3978 | 247 |
| 20% | 20% | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | 25% | 25% | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | 50% | 50% | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi |
| 300 | 40 | 0 | 0 | 375 | 50 | 0 | 0 | 750 | 100 | 0 | 0 |
| Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | Staff newydd ac unrhyw hyfforddiant gloywi | d/b |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

## Ymyrraeth Gynnar

Ar ôl bod yn ddigon dewr i gysylltu â'r gwasanaethau, mae dioddefwyr VAWDASV angen ymateb staff arbenigol a all roi cyngor anfeirniadol iddynt, a fydd:

- yn dilysu eu profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- egluro'r ddealltwriaeth generig o'r gamdriniaeth berthnasol a brofir;
- esbonio'r ystod o opsiynau gwasanaeth sydd ar gael a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer mynediad, meini prawf ymgysylltu a disgwyliadau;
- cynnig cefnogaeth cynllunio diogelwch ymarferol.

Mae angen i bwyntiau cyswllt o'r fath allu cynorthwyo gydag unrhyw fath o VAWDASV. Gall y llinell genedlaethol Byw Heb Ofn, a llinellau cymorth darparwyr gwasanaethau lleol a Siopau Un Stop gynnig cyngor i ddioddefwyr, ffrindiau, teulu a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd.




Un arwydd arall o geisio cymorth cynnar yw galwad 999 i'r Heddlu. Yn dilyn eu galw allan, mae Heddlu De Cymru yn atgyfeirio achosion at wasanaethau arbenigol gan gynnwys y SARC a darparwyr y trydydd sector. Gellir atgyfeirio achosion trais domestig risg uchel at MARAC a bydd yr asiantaethau yn delio â hwy ar unwaith; gall cyswllt â dioddefwyr risg canolig a safonol fod yn llai ymatebol.

Yn y rhanbarth, ailddosbarthwyd cyllid yn 2017/18 i sicrhau bod rhywfaint o adnoddau wedi'u targedu ar ddioddefwyr risg safonol i atal risg gynyddol a sicrhau diogelwch parhaus.

Fodd bynnag, fel rhan o ddull y Gronfa Trawsffurfio, bydd yr holl wasanaethau yn y rhanbarth yn archwilio sut i wneud y symudiad o fod yn seiliedig ar risg yn unig i fodel gwasanaeth a arweinir gan anghenion neu o leiaf gyfuniad o'r ddau. Cydnabyddir risg fel angen diogelwch, ond mae'n rhaid i'r dull o ddarparu gwasanaethau ystyried yr amrywiaeth ehangach o anghenion ac adnoddau sydd gan ddioddefwyr.

Elfen o'r Gronfa Trawsnewid sy'n cael ei threialu yng Nghaerdydd, gyda'r dysgu'n cael ei rannu ar draws y rhanbarth, yw'r cynllun Llysgennad 'Gofyn i Mi'. Bydd gan wirfoddolwyr sy'n byw ac yn gweithio mewn cymunedau lleol y sgiliau, yr wybodaeth a'r offer sylfaenol i gynnal sgwrs gefnogol a rhoi ymateb priodol cychwynnol i'w cleientiaid sy'n dioddef camdriniaeth. Dywed y cynllun 'Gofyn i Mi' wrth oroeswyr cam-drin domestig fod yr unigolyn:

- Yn eu gwahodd i ddatgelu eu bod yn dioddef cam-drin domestig;
- Yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am opsiynau i'w cymryd ar unwaith er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf tuag at ddiogelwch, rhyddid ac annibyniaeth.

Nid yw'r cynllun yn disgwyl y bydd pob Llysgennad yn dod yn arbenigwyr mewn camdriniaeth, gweithwyr achos neu'n cael eu dargyfeirio'n sylweddol o'u gwaith dyddiol. Y pwrpas yw sicrhau y byddant, fel isafswm, yn gweithredu fel pwynt datgeliad diogel i alluogi mynediad at gefnogaeth a




diogelwch priodol. Bydd lefel yr ymateb yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u rôl. Cânt eu grymuso i weithredu fel porth, nid rhwystr, i'r hyn y mae angen i'r dioddefwr unigol ei wneud ar y pwynt hwnnw. Bydd y cynllun hwn yn targedu gweithwyr proffesiynol a gweithwyr cymunedol lleol sydd y tu allan i gwmpas canllawiau statudol 'Gofyn a Gweithredu'. Mae enghreifftiau o bwyntiau posibl 'Gofyn i Mi' (heb fod yn gyfyngedig) yn cynnwys:

- Trinwyr Gwallt
- Cynorthwywyr siop
- Hyrwyddwyr cymunedol lleol, e.e. cynrychiolwyr Sefydliad y Merched
- Cynrychiolwyr Avon
- Personél y ganolfan waith
- Canolfannau cymunedol
- Banciau bwyd
- Canolfannau ieuenctid
- Personél y Llys
- Adeiladau trwyddedig

**Mae pob pwynt o ryngweithio â dioddefwr yn gyfle i ymyrryd**


Bydd y cyfle i weithredu yn gynt yn sicrhau llei-hau niwed pellach, ac y gellir cefnogi dioddefwyr i adfer o'u profiadau.

**BYDDWN YN:**

- **Blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n atal pob math o VAWDASV**
- **Gweithredu'r cynllun Peilot Llysgennad Gofyn i Mi yng Nghaerdydd a rhannu'r dysgu**

## Trais Rhywiol

Mae trais rhywiol yn broblem iechyd cyhoeddus a hawliau dynol difrifol gyda chanlyniadau tymor byr a hir o ran iechyd corfforol, meddyliol a rhywiol unigolyn. P'un a yw'n digwydd yng nghyd-destun partneriaeth agos, o fewn y strwythur teuluol neu gymunedol fwy, neu yn ystod cyfnodau o wrthdaro, mae'n brofiad niweidiol a phoenus. Gall y canlyniadau ar lesiant seicolegol dioddefwr fod yn bellgyrhaeddol gan gynnwys euogrwydd, dicter, pryder, iselder ysbryd, anhwylder straen ôl-drawmatig, anhwylder straen, cwynion somatig, aflonyddwch cysgu, tynnu'n ôl o berthnasoedd, ac mewn nifer o achosion, ceisio hunanladdiad.




**Nid digwyddiadau ynysig yw'r rhain. Mae'r agweddau a'r gweithrediadau ar y haenau gwaelod yn atgyfnerthu ac yn esgusodi'r rhai uwch. Mae'n systematig.**

Mae unrhyw ddiwylliant sy'n lleihau, diflannu neu'n esgusodi trais rhywiol, ac yn symud cyfrifoldeb oddi wrth y tramgwyddwyr ar y dioddefwyr yn golygu bod unigolion, sefydliadau a chymunedau yn llai tebygol o ymateb. Cyfeirir at y diwylliant hwn yn aml fel 'diwylliant treisio'.

Caiff aflonyddu rhywiol ei normaleiddio'n aml fel niwsans cymdeithasol - yn y gweithle, ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac yn y stryd. Mae trais rhywiol a'r agweddau sy'n cyd-fynd ag ef yn cael eu dysgu. Os yw agweddau i gael eu newid, rhaid herio'r diwylliant cymdeithasol a'r dylanwadau sy'n ei ffurfio. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae bechgyn a merched yn cael eu magu, y ffordd y mae perthnasoedd dynion a menywod yn cael eu portreadu yn y cyfryngau a diwylliant poblogaidd, a'r safiad mae arweinwyr a dylanwadwyr allweddol yn ei gymryd yn amlwg ar y mater hwn.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru (PCC) yn ymwybodol bod aflonyddu rhywiol yn aml yn ddifeddwl, yn gwbl amhriodol ac yn bersonol iawn, a gall hefyd fod o natur droseddol ac yn amlach na pheidio, nid yw'n cael ei adrodd wrth neb. Gan weithio gyda phartneriaid i lunio eu dull o ymdrin â'r mater hwn, a chyda chefnogaeth y Llywodraeth a heddluoedd eraill Cymru, bydd PCC De Cymru yn comisiynu arolwg sy'n anelu at gael dealltwriaeth lawnach o'r raddfa o aflonyddu rhywiol na chaiff ei adrodd.

Yn ganolog i'r mater hwn ceir y cysyniad o ganiatâd. Diffinnir hyn fel "cytundeb clir a diamwys, a fynegir yn allanol trwy eiriau neu weithredoedd sy'n ddealladwy i ymgysylltu â gweithgaredd penodol." Gellir tynnu caniatâd yn ôl gan y naill barti neu'r llall ar unrhyw adeg. Rhaid rhoi caniatâd yn wirfoddol ac efallai na fydd yn ddilys os yw rhywun yn destun i weithredoedd neu ymddygiadau sy'n peri pwysau emosiynol, seicolegol, corfforol, enw da, ariannol, bygythiad, codi braw, neu ofn (gorfodaeth neu rym). Ni ellir tybio bod caniatâd i gymryd rhan mewn un gweithgaredd rhywiol, neu gytundeb blaenorol i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol penodol, yn gytundeb i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol gwahanol neu ymgysylltu eto mewn gweithgaredd rhywiol. Ni all person sydd ag analluogrwydd roi caniatâd dilys.



Mae'r fideo YouTube 'Cup of Tea' (gweler y ddolen ar t.12) yn adnodd defnyddiol iawn sy'n esbonio caniatâd mewn termau syml. Mae caniatâd tybiedig yn aml yn ganolog i dreial, yn enwedig y rheiny sy'n cynnwys ffigurau cyhoeddus neu enwog, ac sy'n sbarduno barn gyhoeddus ar y mater hwn. Dim ond codi ymwybyddiaeth a gwella ymatebion i'r gwasanaeth y gall y cyhoeddusrwydd presennol ar y mater hwn ei wneud.

**BYDDWN YN:**

- **Darparu adnodd IDVSA gwrywaidd a rennir gan yr holl bartneriaid yn y rhanbarth**
- **Gweithio gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru i gael gwell dealltwriaeth o aflonyddu rhywiol**
- **Codi ymwybyddiaeth o ganiatâd ar bob cyfle**

## Stelcian


Gall stelcian fod yn anodd ei ddiffinio a'i brofi. Er bod cyfran fach o stelcwyr yn ddieithriaid, mae'r mwyafrif yn hysbys i'w dioddefwr - mae'r mwyafrif yn gynbartneriaid (yn enwedig y rheiny a oedd yn cam-drin). Mae stelcian yn arwydd risg uchel o niwed difrifol, gan wneud adnabod yn bwysig iawn ac o bosib arbed bywyd. Mae enghreifftiau stelcian yn cynnwys:

- dilyn person
- cysylltu â, neu geisio cysylltu â, pherson trwy unrhyw fodd
- cyhoeddi unrhyw ddatganiad neu ddeunydd arall sy'n ymwneud â pherson neu sy'n honni ei fod yn ymwneud â pherson, neu'n honni ei fod yn dod oddi wrth berson
- monitro'r defnydd gan berson o'r rhyngrwyd, e-bost neu gyfathrebu electronig arall
- loetran mewn unrhyw le (boed yn gyhoeddus neu'n breifat) gan gynnwys gweithle'r dioddefwr
- ymyrryd ag unrhyw eiddo sydd ym meddiant person
- gwylio neu ysbïo ar berson

Anaml y bydd yr stelcian yn cael ei adrodd wrth yr heddlu - mae dioddefwyr yn ansicr pa gynhaliaeth y gellir ei chynnig. Mae angen i bob partner yn y rhanbarth wneud mwy i godi ymwybyddiaeth bod stelcian yn drosedd. Mae angen i'r partneriaid a'r cyhoedd fod yn glir ar sut i adnabod yr arwyddion, teimlo'n hyderus i adrodd, a chofnodi tystiolaeth i gefnogi'r broses cyfiawnder troseddol.

**BYDDWN YN:**
**Gwella ymwybyddiaeth o stelcian a hyrwyddo'r camau ymarferol i adrodd.**




## Trais ar sail Anrhydedd / Priodas dan Orfod




Mae'r termau 'trosedd anrhydedd', 'trais ar sail anrhydedd' neu 'izzat' yn cynnwys amrywiaeth o droseddau trais (yn bennaf ond nid yn unig yn erbyn menywod), gan gynnwys ymosod, carcharu a llofruddiaeth lle mae'r person yn cael ei gosbi gan eu teulu neu eu cymuned. Cânt eu cosbi am danseilio, neu gwneir honiad eu bod yn tanseilio, yr hyn y mae'r teulu neu'r gymuned yn credu yw'r cod ymddygiad cywir. Wrth droseddu yn erbyn y cod hwn, mae'r person yn dangos nad ydynt wedi cael eu rheoli'n briodol i gydymffurfio, ac mae hyn er "gwarth" ac yn dangos "diffyg" yn y teulu. Gellir ei wahaniaethu oddi wrth fathau eraill o gamdriniaeth, gan ei fod yn aml yn cael ei wneud gyda rhywfaint o gymeradwyaeth a/neu gyd-ddealltwriaeth aelodau teulu a/neu'r gymuned. Bydd gan ddioddefwyr sawl tramgwyddwr, ac nid yn unig yn y DU; gall Trais ar sail Anrhydedd (HBV) fod yn sbardun i briodas dan orfod.

Priodas dan orfod yw pan na fydd un neu ddau o'r bobl yn cydsynio i'r briodas ac y defnyddir pwysau neu gamdriniaeth. Gall pwysau gynnwys bygythiadau, trais corfforol neu rywiol, a phwysau ariannol.

Priodas dan orfod yw pan na fydd un neu ddau o'r bobl yn cydsynio i'r briodas ac y defnyddir pwysau neu gamdriniaeth. Gall pwysau gynnwys bygythiadau, trais corfforol neu rywiol, a phwysau ariannol. Mae hyn yn wahanol i briodas a drefnir, lle mae'r ddau barti wedi cydsynio â'r undeb ond eu bod yn teimlo'n rhydd i wrthod os ydynt eisiau. Mae priodas â phlentyn yn briodas ffurfiol neu undeb anffurfiol lle mae un neu ddau o'r bobl o dan 18 oed. Mae pob priodas â phlentyn yn briodas dan orfod, oherwydd ni all plentyn roi cydsyniad gwybodus, ac felly mae'n groes i hawliau plant. Mae priodas â phlentyn hefyd yn effeithio ar fechgyn, ond i raddau llai na merched.




Hefyd mae angen cydnabyddiaeth ehangach y gall priodas dan orfod ddigwydd rhwng pobl ag anableddau. Er enghraifft, yn 2017, roedd 125 o bob achos (12%) yn cynnwys dioddefwyr a oedd ag anabledd dysgu. O'r rhain roedd 66 (52.8%) yn ddynion a 59 (47.2%) yn ferched (Uned Priodasau dan Orfod 2018). Yn yr un modd, mae priodas dan orfod yn effeithio ar lawer o wahanol gymunedau, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr.

**BYDDWN YN:**
**Gwella dealltwriaeth o'r modd y mae priodas dan orfod yn effeithio ar unigolion â nodweddion gwarchodedig**


## Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Mae FGM yn weithdrefn lle mae organau cenhedlu menywod yn cael eu torri, eu hanafu neu eu newid yn fwriadol, ond lle nad oes rheswm meddygol dros wneud hyn. Fe'i gelwir hefyd yn "enwaediad benywaidd" neu'n "dorri", a thermau eraill yw sunna, gudniin, halalays, tahur, megrez a khitan, ymhlith eraill.

Cynhaliodd Llywodraeth y DU ac UNICEF yr 'Uwchgynhadledd Merched' gyntaf ym mis Gorffennaf 2014 gyda'r nod o ysgogi ymdrechion cenedlaethol a rhyngwladol i roi'r gorau i Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) fel arfer cyffredin mewn rhai gwledydd ar draws y byd.

Yn 2015, gwnaethpwyd nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod y DU 2003 trwy Ddeddf Troseddu Difrifol 2015. Mae adran 4 o Ddeddf 2003 yn nodi bod yr awdurdodaeth alldiriogaethol yn ymestyn i wahardd gweithredoedd y tu allan i'r DU gan wladolyn y DU, neu berson sy'n preswylio yn y DU. O'i ystyried gyda'r newid hwnnw, mae adran 70 (1) o'r Ddeddf Troseddu Difrifol hefyd yn diwygio Adran 3 o Ddeddf 2003 (trosedd o gynorthwyo person nad yw o'r DU i anffurfio organau cenhedlu merch dramor) fel ei bod yn ymestyn i weithredoedd FGM a wnaed i wladolyn y DU, neu berson sy'n preswylio yn y DU.

Gosoda'r Ddeddf hon ddyletswydd adrodd orfodol ar weithwyr iechyd proffesiynol i adrodd am achosion 'hysbys' o FGM mewn pobl dan 18 oed wrth yr heddlu; bu'r ddyletswydd hon mewn grym ers mis Hydref 2015. Crëwyd Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer FGM a'i gwblhau gan grŵp gorchwyl




a gorffen ym mis Hydref 2015 a'i gadarnhau ym mis Gorffennaf 2016. Bu hyfforddiant gorfodol penodol ar gyfer Bydwragedd yn ei le ers 2014; hefyd cyflwynwyd hyfforddiant pwrpasol i feysydd wedi'u targedu ar draws Iechyd yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC), Iechyd Rhywiol ac adrannau Gynecoleg. Mae hyfforddiant FGM ar-lein a gymeradwyir gan y Swyddfa Gartref yn hygyrch i'r holl staff Iechyd.

Ers mis Hydref 2016, mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ddarparu diweddariadau chwarterol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi FGM, mae hyn hefyd yn cynnwys atgyfeiriadau a wneir i Wasanaethau Plant lle mae mamau plant benywaidd yn cael eu hadnabod fel rhai sydd wedi profi FGM. Mae'r atgyfeiriadau hyn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o risg gynyddol y gall unrhyw ferched benywaidd hefyd brofi FGM yn y dyfodol. Yn y flwyddyn Gorffennaf 2016 - Mehefin 2017, nodwyd 199 o achosion o FGM, gan arwain at 86 o atgyfeiriadau amddiffyn plant.

Mae'n hanfodol bod arweinwyr diogelu mewn ysgolion yn ymwybodol o FGM ac wedi sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o'r risgiau posib. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r clinig FGM newydd a'r dulliau atgyfeirio (gweler tudalen 65).

**BYDDWN YN:**
**Cynyddu dealltwriaeth ysgolion o anffurfio organau cenhedlu benywod a sut i ymateb**

## IDVA Iechyd

Gan gefnogi gwaith yr ISVA Iechyd, mae'r Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol Iechyd (IDVA) o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP C&F) yn cefnogi cleifion ac aelodau staff sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae'r IDVA Iechyd yn derbyn atgyfeiriadau ar draws BIP C&F ac mae'n gallu cwrdd â chleifion ar adeg datgelu mewn ysbyty. Ar gyfer atgyfeiriadau a dderbynnir y tu allan i oriau, bydd yr IDVA Iechyd yn cysylltu â'r cleient a gall eu cyfarfod yn y gymuned gan ddefnyddio meddygfeydd ac adeiladau asiantaethau partner, ond cyfeirir staff iechyd i gysylltu ag asiantaethau partneriaid y tu allan i oriau am gyngor ar unwaith os oes angen. Ar gyfer y cleientiaid hynny sy'n derbyn cymorth, cwblheir asesiad, ynghyd â chynllun diogelwch a chymorth, a all gynnwys atgyfeiriadau at wasanaethau eraill, fel arfer partneriaid amlasiantaeth ac asiantaethau arbenigol y trydydd sector.


Yn ogystal, defnyddir rôl yr IDVA Iechyd yn yr ysbyty gan asiantaethau partner diogelu sy'n gweithio o fewn Canolfan Amlasiantaeth Amddiffyn Caerdydd (MASH) a'r ddau MARAC lleol i gyrraedd a chynnig cefnogaeth i gleientiaid cudd nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill, ond sy'n cael mynediad at wasanaethau ysbyty.

Ymhellach, mae'r IDVA Iechyd yn darparu hyfforddiant rheolaidd i weithwyr iechyd proffesiynol ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a gwasanaethau cymorth arbenigol trwy fynychu cyfarfodydd adrannol a gwneud cyflwyniadau mewn gwahanol gynadleddau.

Yn unol â Chynllun Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod a Merched 2014-17 Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, ac yn benodol ei amcan i wella adnabod ac ymyrraeth gynnar, mae gan wasanaethau iechyd ran bwysig i'w chwarae wrth nodi dioddefwyr cudd cam-drin domestig a gallant ddarparu porth i gleifion gael cymorth. Efallai na fydd llawer o ddioddefwyr yn adrodd wrth yr heddlu neu'n cael mynediad at wasanaethau cam-drin domestig ond byddant yn cael mynediad at wasanaethau iechyd. Gall rôl yr IDVA Iechyd helpu i gynyddu hyder ymarferwyr iechyd i ofyn ynghylch cam-drin domestig ac ymateb i ddatgeliadau, gan fod ganddynt lwybr uniongyrchol a hawdd i atgyfeirio cleifion ar gyfer cymorth IDVA o fewn BIP C&F. Gall ymarferwyr iechyd hefyd gysylltu â'r IDVA Iechyd am gymorth a chyngor.

Mae'r gwasanaeth hwn yn BIP C&F yn unigryw yng Nghymru. Mae'r swydd IDVA Iechyd bellach yn swydd barhaol amser llawn yn dilyn ei rhan-gyllido gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru am y ddwy flynedd gyntaf. Bu'r swydd yn llwyddiannus yn dynodi dioddefwyr ar bwynt mynychu'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, a darparu ymyrraeth gynnar a chymorth i ddioddefwyr. Cafodd staff sy'n gweithio yn yr adran hyfforddiant ychwanegol a chwblheir y broses Gofyn a Gweithredu yma, yn ogystal â mewn adrannau eraill ar draws y Bwrdd Iechyd.





## Economi Nos

Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus yn ystod y dydd ac mae'n enwog am gynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr yn llwyddiannus, gyda thrigolion lleol a rhanbarthol yn teithio am waith a phleser. Yn seiliedig ar y llwyddiant hwn ac fel un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gellir disgwyl i boblogrwydd economi nos Caerdydd gynyddu. Diffiniad eang o'r economi hwn yw ei fod yn digwydd rhwng 6pm a 6am ac mae'n cynnwys ystod eang o weithgareddau hamdden (tafarndai, clybiau, cerddoriaeth fyw, sinemâu, theatrau, manwerthu, caffis a bwytai) yn ogystal â'r gwasanaethau sy'n bodoli i'w cefnogi (plismona, trafnidiaeth, gorfodi, glanhau strydoedd, gan gynnwys gwaredu sbwriel, a gwasanaethau iechyd).


Ymgyrch Drinkaware “Mae’n Iawn Gofyn”

Cydnabyddir nad yw’r economi nos bob amser yn teimlo’n groesawgar iawn i rai pobl, a gall weithiau fod yn anniogel. Er bod 96.3% o'r bobl a holwyd yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yng nghanol y ddinas yng ngolau dydd, mae hyn yn gostwng i 56% ar ôl iddi dywyllu. Mae rhywedd hefyd yn ffactor mewn canfyddiadau o ddiogelwch. Teimlai llai na hanner y menywod (49.0%) yn ddiogel wrth gerdded yng nghanol y ddinas ar ôl iddi dywyllu, o’i gymharu â dwy ran o dair o ddynion (64.9%).

Cyflwynodd partneriaid nifer o gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod menywod yn ddiogel rhag trais domestig a rhywiol yn yr economi nos. Mae'r rhain yn cynnwys ehangu'r cynllun Tacsi Diogel ar gyfer myfyrwyr a hyfforddiant i staff drws i weld a chynorthwyo'r rhai sy'n agored i niwed. Hefyd cydnabuwyd y cysylltiadau rhwng trais domestig a rhywiol a defnydd gormodol o alcohol. Amlinellwyd nifer o gamau eisoes yn strategaeth Cyflawni Economi Nos Diogel a Chroesawgar 2017-2022, sy'n cefnogi agenda VAWDASV:


⇒ Þ Gwella goleuadau mewn ardaloedd o'r ddinas lle nodir angen.
⇒ Þ Ystyried ac adolygu'r angen am lefydd diogel yn y nos lle gall unigolion fynd i aros am ffrindiau, gwefru eu ffonau a derbyn cymorth a chyngor cyntaf.
⇒ Þ Cynnal ac adeiladu ar y berthynas â'r Fforwm Tacsi i ddatblygu rôl gyrwyr tacsis fel llysgenhadon ar gyfer diogelu.
⇒ Þ Gweithio gydag adeiladau trwyddedig yng nghanol y ddinas i ehangu hyfforddiant ymwybyddiaeth o fregusrwydd i staff drws.
⇒ Þ Sicrhawyd cyllid i wella darpariaeth y cydbroject Aros yn Ddiogel gyda'r nod o ddiogelu pobl ifanc agored i niwed ar adegau allweddol yn ystod yr wythnos ac ar ddyddiadau penodol e.e. Noson Tân Gwyllt, Calan Gaeaf a chyngherddau pop a roc, a digwyddiadau tebyg.

**BYDDWN YN:**
**Cynorthwyo gyda gweithredu’r camau gweithredu yn y strategaeth Cyflawni Economi Nos Diogel a Chroesawgar**

## Gweithwyr Rhyw

Yn 2006 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref 'Strategaeth Puteindra Cydlynol' sy'n nodi bod ymdrin â phuteindra angen partneriaethau cryf, gan gynnwys ystod eang o asiantaethau gorfodi a chymorth. Croesawyd y Strategaeth; fodd bynnag, roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar weithwyr rhyw amlwg ar y stryd, gan ystyried eu bod yn ddioddefwyr cam-fanteisio. Roedd hwn yn symudiad pwysig, ond nid oedd yn cynnig canllawiau i gefnogi'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw oddi ar y stryd, sy'n cyfrif am y nifer mwyaf o weithwyr rhyw, ac sy’n cynnwys parlyrau tylino, clybiau dawnsio glin, asiantaethau cydymaith, a'r rhai sy'n gwerthu rhyw drwy'r Rhyngrwyd.

Mae llawer o ddynion a menywod sy'n cymryd rhan yn y diwydiant yn aml yn ddioddefwyr trawma plentyndod a/neu fel oedolion, a niwed sy'n deillio o gam-drin domestig a/neu rywiol, esgeulustod a CSE. Yn aml, mae llawer yn dioddef tlodi, yn defnyddio sylweddau ac yn agored i gam-fanteisio. Caiff gweithwyr rhyw y stryd yn aml eu dal yn nrws tro’r system cyfiawnder troseddol, lle nad yw arestio a chosbau yn ymdrin â'r ymddygiad ei hun.



Mae pawb sy'n ymwneud â gwaith rhyw, boed trwy ddewis neu gamfanteisio, yn profi risg gynyddol o drais corfforol, emosiynol a rhywiol. Rhaid i'r holl bartneriaid hyrwyddo derbyn yr egwyddor bod gweithwyr rhyw yn aml yn ddioddefwyr trosedd gyda bregusrwydd uwch. Bydd hyn yn hwyluso mwy o hyder gweithwyr rhyw i adrodd am gamdriniaeth, gan gynyddu'r cynllun 'National Ugly Mugs' presennol, sy'n casglu data am dramgwyddwyr.


Mae'r project Streetlife yng Nghaerdydd yn weithredol yn cefnogi 70 o weithwyr rhyw ar y stryd ar unrhyw adeg i ymgymryd yn ddiogel â gwaith rhyw, gan gynnig cyngor, sgrinio iechyd, condomau a'r cyfle i drafod opsiynau ar gyfer gadael. I'r rhai sydd wedi dewis gadael puteindra, mae cynllun tai â chymorth Tŷ Tarian yn cael ei dreialu i gefnogi hyd at 5 o fenywod i reoli eu problemau cymhleth ac ystyried llwybrau bywyd eraill.

Mae gwaith rhyw oddi ar y stryd yn cynnwys 5 parlwr tylino yng Nghaerdydd, gyda thua 50 o fenywod yn gweithio yn y maes hwn ar unrhyw adeg benodol. Cynigir y rhan fwyaf o waith rhyw trwy'r Rhyngrwyd, ac mae ymestyn allan at y rhai sy'n darparu gwaith rhyw ar y rhyngrwyd ac ymgysylltu â hwy'n hynod heriol.

**BYDDWN YN:**

- **Codi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth am y materion sy'n wynebu gweithwyr rhyw**
- **Adolygu effeithiolrwydd cynllun Tŷ Tarian i hysbysu darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol**

## Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern




Adroddwyd am 30 o droseddau masnachu pobl yn 16/17




Mae masnachu pobl yn fath o gaethwasiaeth fodern, lle mae pobl yn cael eu rheoli a'u hecsbloetio ar gyfer elw. Mae tramgwyddwyr yn defnyddio grym, twyll neu orfodaeth i drin a sefydlu rheolaeth dros unigolion. Ceir gwahanol fathau o gaethwasiaeth fodern ar draws y byd, gan gynnwys llafur wedi'i orfodi, masnachu mewn rhyw, llafur plant, camfanteisio rhywiol masnachol ar blant, a milwyr sy'n blant. Yn aml, dim ond mynediad cyfyngedig sydd gan bobl wedi'i masnachu at angenrheidiau sylfaenol megis diogelwch, bwyd, cysgu, hylendid a gofal meddygol.

Mae'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) yn fframwaith ar gyfer adnabod dioddefwyr a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth briodol. Cyflwynwyd yr NRM yn 2009 i fodloni rhwymedigaethau'r DU o dan Gyngor Confensiwn Ewropeaidd ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl. O 2015, estynnwyd yr NRM i bawb sy'n dioddef o gaethwasiaeth fodern yng Nghymru a Lloegr yn dilyn Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015; (gwnaed 17 o atgyfeiriadau o'r fath yn 2016/17). Gall staff statudol dderbyn hyfforddiant ar sut i adnabod yr arwyddion y gallai rhywun fod yn dioddef o gaethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl, deall sut mae'r NRM yn gweithio, a sut i lywio'r llwybr atgyfeirio. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant hwn wedi'i brif ffrydio eto i alluogi ehangu'r cyrhaeddiad posibl i adnabod dioddefwyr yn gynharach.

**BYDDWN YN:**

**Ehangu cyrhaeddiad y modiwl ymwybyddiaeth Masnachu Pobl drwy'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol**

## Profiadau Andwyol Plentyndod (ACEs)


Mae Profiadau Andwyol Plentyndod (ACE) yn brofiadau straen sy'n digwydd yn ystod blynyddoedd ffurfiannol sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol (e.e. cam-drin rhywiol neu gorfforol) neu'n effeithio ar yr amgylchedd y maent yn byw ynddo (e.e. tyfu i fyny mewn tŷ gydag aildroseddu, trais domestig neu gamddefnyddio sylweddau). Mae Profiadau Andwyol Plentyndod yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd, cyrhaeddiad a llesiant corfforol a meddyliol ar hyd oes y person. Mae unigolion yr effeithir arnynt yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, mwy tebygol o fod yn rhan o droseddu, profi problemau iechyd cronig, ac yn y pen draw yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o gymdeithas.

Yn amlwg, mae'r plant hynny sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar hyn o bryd eisoes wedi cael anawsterau. Yn benodol, dengys ffigurau bod nifer y plant yng Nghaerdydd lle mae cam-drin domestig yn ffactor yn eu cofrestriad wedi aros yn sefydlog ar 73% o'r holl gofrestriadau. Mae'r ffigurau ar gyfer 16/17 yn dangos bod trais rhywiol yn ffactor mewn 5% arall o'r holl gofrestriadau.

Yn amlwg, mae gan lawer o'r materion a welir mewn dioddefwyr a thramgwyddwyr presennol eu gwreiddiau yn ystod plentyndod. Rhaid rheoli effeithiau ACE hanesyddol ar y boblogaeth oedolion bresennol a lleihau effeithiau posibl ACE ar blant a phobl ifanc nawr.

Mae gwasanaethau arbenigol yn dechrau cynnwys dulliau gwybodus am drawma y mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio ar y dioddefwr a bod yn briodol i oedran. Defnyddir therapïau ymddygiadol seicolegol a gwybyddol i helpu amrywiaeth eang o gleientiaid mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys digartrefedd, ysgolion a dioddefwyr VAWDASV.





Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae ymatebion eraill y gellid eu cymhwyso i atal ACE a lleihau effaith ACE presennol yn cynnwys: ystyried hanes rhieni ACE, asesu'r risg i'r plentyn o fod yn agored i niwed, ac integreiddio ymholiad ACE arferol i asesiadau sy'n bodoli eisoes.

Derbyniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddyfarniad o £6.87m gan Gronfa Trawsnewid y Swyddfa Gartref i drawsnewid plismona bregusrwydd yng Nghymru i ddull ACE-wybodus amlasiantaethol sy'n galluogi ymyrraeth gynnar ac atal gwraidd y broblem. Gan weithio gyda'r 4 o heddluoedd yng Nghymru, yr NSPCC a Barnardo's, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ceisio datblygu rhaglen o atebion lleol arloesol dros y 3 blynedd nesaf. Bydd yr atebion lleol hyn yn cynnwys gweithredu dulliau ACE-wybodus ar gyfer plismona gweithredol a phartneriaid allweddol, a datblygu gwasanaethau drws ffrynt cymorth cynnar integredig sengl. Ceir goruchwyliaeth o'r rhaglen gan drefniadau llywodraethu ffurfiol a rhwydwaith o gydlynwyr.

**BYDDWN YN:**
**Cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i symud o sefyllfa o ddeall yr ymchwil ACE i ddeall yr hyn sy'n ymddangos fel ymateb cadarnhaol ac effeithiol**


Mae Cymru yn edrych i ddatblygu rhaglen o ddatrysiadau lleol blaengar dros y 3 blynedd nesaf. Bydd y datrysiadau lleol hyn yn cynnwys rhoi dulliau ar waith a ddylanwadwyd gan PPN ar gyfer plismona gweithredol a phartneriaid allweddol, a datblygu cymorth cynnar integredig unigol ar gyfer gwasanaethau drws blaen. Bydd rhaglen o drefniadau llywodraethiant ffurfiol a rhwydwaith o gydlynwyr yn goruchwylio'r rhaglen.




Mae'r cymorth cynnar drws blaen wedi ei gydnabod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ymateb allweddol i PPNau Yng Nghaerdydd gelwir hyn yn Cefnogaeth i Deuluoedd ac mae'n cael ei gynnig mewn partneriaeth rhwng Tros Gynnal Plant a Gwasanaethau Plant. Bydd tîm craidd o Ymarferwyr teuluol yn gallu cynnig pwynt mynediad agosach i'r gwasanaeth cymorth cynnar i deuluoedd yng Nghaerdydd fel y gallan dderbyn y gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn i atal eu sefyllfaoedd rhag gwaethygu. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau'r nifer o deuluoedd sydd ag angen ymyriadau statudol neu gael eu cyfeirio at MASH.

Yng Nghaerdydd, disgwylir i'r gwasanaeth IPA arbenigol ddatblygu cysylltiadau effeithiol gyda Support4Families, derbyn atgyfeiriadau ac atgyfeirio teuluoedd a allai elwa ar wasanaethau cymorth cynnar eraill y gellid eu cynnig, trwy ddefnyddio dull Tîm o Amgylch y Teulu.

Ym Mro Morgannwg, mae'r Tîm FACT yn rhan hanfodol o'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf o ran rheoli atgyfeiriadau, ac mae'n darparu tîm o weithwyr cymorth a fydd yn cwblhau 'Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd' (JAFF) ar gyfer pob teulu sy'n cael ei atgyfeirio.




Mae hyn yn sicrhau eu bod yn darparu cymorth teuluol trwy wasanaeth amlasiantaeth holistig wedi'i deilwra i anghenion a nodwyd i'r unigolion a'r teulu cyfan. Datblygwyd y Tîm FACT yn unol â'r model 'Tîm o Amgylch y Teulu' (TAF) a bydd yn cael ei gefnogi gan amrywiaeth o raglenni cefnogol.

**BYDDWN YN:**
**Datblygu trefniadau gweithio agos rhwng y Gwasanaethau Drws Ffrynt Cymorth Cynnar a gwasanaethau VAWDASV arbenigol**

## ASTUDIAETHAU ACHOS

"Profais gam-drin domestig o'm mhlentyndod; fy nghof cyntaf yw gweld fy nhad yn taro fy mam. Pan adawodd fy nhad, camodd fy mrodyr hŷn i'r bwlch camdriniaeth, ac roeddent yn dreisgar iawn gyda'i gilydd a chyda fy mam. Roedd fy mam yn ymdrechu i ymdopi ond yn anffodus roedd ganddi broblem gydag alcohol. Rwy'n credu bod hyn wedi effeithio ar fy newisiadau perthynas fy hun, ac rwyf wedi cael dau bartner oedd yn fy ngham-drin yn ddrwg, a arweiniodd at i mi ddefnyddio alcohol ar adegau i leddfu fy mhroblemau, sydd wedi cael effaith ddrwg ar fy iechyd meddwl. Rwyf wedi symud o ardal i ardal ac wedi bod dan law llawer o wahanol feddygon ond fy meddyg teulu presennol oedd y meddyg cyntaf i nodi bod fy holl broblemau yn gysylltiedig â'm profiadau o gam-drin domestig, ac a gymerodd amser i ofyn i mi amdano. Eglurodd y gallai wneud atgyfeiriad at rywun a fyddai'n fy ngweld yn y practis ac a allai sicrhau'r gefnogaeth gywir i mi. Teimlais ryddhad bod rhywun y gallwn siarad â hi, a daeth ar yr adeg iawn pan oedd fy mywyd yn arbennig o anodd, ac roeddwn i'n gwybod bod angen i mi ganolbwyntio ar gael rhywfaint o help. Cytunais i gael fy atgyfeirio i'r rhaglen Rhyddid a phecyn cymorth adfer ar y diwrnod hwnnw, a dechreuodd y rhaglen Rhyddid yr wythnos ganlynol. Pan gyfarfuom, fe wnaethom gytuno y byddwn yn elwa o rai sesiynau rheoli straen a gobeithio cwrdd â phobl newydd yn fy ardal, a chyfeiriodd fy meddyg teulu fi hefyd at MIND, sef y gwasanaeth iechyd meddwl. Rydw i hefyd yn chwilio am waith gwirfoddol yn nes ymlaen, i gadw fy hun yn brysur. Fe wnes i fwynhau gwirfoddoli cyn i'm cynbartner fy stopio rhag gwneud hynny. Rwy'n gwybod ei bod yn siwrnai, ond y gwahaniaeth y tro hwn yw fy mod i'n gwybod fy mod ar y llwybr iawn, diolch i'm meddyg teulu yn fy atgyfeirio at wasanaeth IRIS."

"Mae Sarah yn 41 mlwydd oed ac wedi bod yn briod ers 20 mlynedd; roedd ei gŵr yn ei cham-drin yn rhywiol, yn gorfforol ac yn emosiynol. Nid oedd hi erioed wedi adrodd am y gamdriniaeth hon wrth yr heddlu nac wedi rhannu ei phrofiadau gyda theulu, ffrindiau na gweithwyr proffesiynol. Ar ôl ffeilio'n ddiweddar am ysgariad, aeth at y meddyg gan nad oedd yn cysgu a'i bod yn teimlo'n isel ei hysbryd. Gofynnodd ei meddyg iddi a oedd y gwahaniad oddi wrth ei gŵr wedi bod yn gyfeillgar, ac os oedd ef erioed wedi ei cham-drin mewn unrhyw fodd. Dywedodd Sarah ei bod hi'n teimlo'n gyfforddus yn siarad yn agored gyda'r meddyg, a oedd yn amlwg yn wybodus iawn. Nid oedd hi'n teimlo bod rhaid iddi fanylu llawer, a dywedodd y meddyg teulu y byddai'n ei rhoi mewn cysylltiad â rhywun sy'n arbenigo mewn trais domestig a cham-drin. Roedd Sarah yn teimlo rhyddhad o gael siarad â rhywun a allai roi cyngor a chefnogaeth iddi, a chytunodd i atgyfeiriadau i'r Rhaglen Rhyddid a grwpiau goroeswyr. Cytunodd hefyd i atgyfeiriadau i gyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar a hyder. Ers datgelu i'r meddyg ei bod wedi cael problemau camdriniaeth, dywedodd ei bod yn ei chael yn haws siarad ag eraill, gan gynnwys teulu a ffrindiau, ac mae'n awyddus i ddelio â phethau, tynnu llinell oddi tanynt, a symud ymlaen."

**Ystadegau IRIS Caerdydd a'r Fro 2014-16**



**Derbyniodd 26 o feddygfeydd hyfforddiant**

**Cafodd 359 o weithwyr iechyd proffesiynol eu hyfforddi**



**Atgyfeiriwyd 186 o gleifion at wasanaeth IRIS**



**Roedd gan 41% o'r atgyfeiriadau gysylltiad â'r Heddlu, 43% ddim cysylltiad â'r Heddlu, ac nid oedd 16% yn hysbys**

## IRIS

Nod y gwasanaeth Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS) yw gwella'r adnabyddiaeth ac ymatebion i gleifion sydd wedi'u heffeithio gan drais domestig neu gamdriniaeth ar draws practisau meddygon teulu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn darparu hyfforddiant i feddygon teulu a staff cymorth i nodi ac atgyfeirio cleifion sy'n cael eu heffeithio gan drais a cham-drin domestig ac i sefydlu llwybrau gofal ac atgyfeirio i wasanaethau trais domestig arbenigol.

Gwerthuswyd IRIS yn annibynnol mewn treial a reolwyd ar hap ym Mryste, a lansiodd ei beilot gyntaf yng Nghymru ym mis Tachwedd 2014 yn rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg, ac yna yn rhanbarth Cwm Taf.

Amcanion y gwasanaeth yw:

⇒ Cynyddu gwybodaeth staff Meddygon Teulu am gam-drin domestig a'r cymorth sydd ar gael i gleifion.
⇒ Gwella hyder staff practis cyffredinol i ofyn cwestiynau am gamdriniaeth bosibl mewn modd diogel.
⇒ Gwneud atgyfeiriadau (mewn modd amserol sy'n briodol i anghenion y claf a'r risg a nodwyd) gan arwain at well gofal cleifion.
⇒ Gwella cofnodi cam-drin domestig yn nodiadau meddygol y cleifion.
⇒ Cynyddu nifer y cleifion a gaiff eu hatgyfeirio gan feddygon teulu am gymorth gyda cham-drin domestig.
⇒ Gwella casglu data a dadansoddi nifer y datgeliadau ac atgyfeiriadau.
⇒ Gwella diogelwch cleifion trwy leihau erledigaeth ailadroddus.

Dengys ymchwil bod menywod yn fwy tebygol o ddatgelu trais a cham-drin domestig wrth eu meddyg teulu nag unrhyw un arall. Bu'r peilot yn hynod lwyddiannus; hyd yn hyn mae wedi cynhyrchu mwy na dwbl y nifer o atgyfeiriadau a ddisgwyliwyd, gyda Blwyddyn 1 yn arwain at 156 a Blwyddyn 2 yn arwain at 284 o atgyfeiriadau. Cyn y peilot, dim ond 5 atgyfeiriad a gynhyrchwyd yn flynyddol gan feddygon teulu i wasanaethau arbenigol. Mae'r dadansoddiad o'r peilot yn nodi bod effeithiolrwydd IRIS yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn gyda meddygon teulu sydd wedi derbyn hyfforddiant IRIS 22 gwaith yn fwy tebygol o holi am gam-drin domestig na Meddyg Teulu nad yw wedi derbyn yr hyfforddiant IRIS.

Canfu Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru gyllid i ymestyn y peilot am flwyddyn arall yn ystod 2017/18, ond yn 2018/19, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi sicrhau cyllid i hyfforddi'r gweddill o'r meddygfeydd yn y rhanbarth.

IRIS logo

O 2019 felly bydd y gwasanaeth yn cael ei brif ffrydio i'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol, gyda dim ond lleiafswm o arian yn angenrheidiol i sicrhau hyfforddiant a chymorth yn barhaus.

**BYDDWN YN:**
**Parhau'n ymrwymedig i brif ffrydio'r model IRIS ym mhob meddygfa yn y rhanbarth.**

## Adolygiadau Ffurfiol

Cynhaliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddadansoddiad o ddynladdiadau gan gyfuno data rhwng Ebrill 2013 - Mawrth 2016. Dengys y dadansoddiad y ffeithiau canlynol:

- Roedd cyfanswm o 454 o ddynladdiadau domestig yng Nghymru a Lloegr; mae hyn yn cynrychioli 31% o'r holl ddynladdiadau lle'r oedd y dioddefwr yn 16+ oed.
- Roedd mwyafrif y dioddefwyr yn fenywod (70%, neu 319), gyda 30% yn ddynion (135); mae hyn yn gwrthgyferbynnu â dioddefwyr dynladdiadau annomestig, lle roedd mwyafrif y dioddefwyr yn ddynion (88%, neu 704) a 12% yn ferched.
- Cafodd dros 3/4 o ddioddefwyr benywaidd eu lladd gan bartner gwrywaidd neu gynbartner (76%, 242 o ferched).
- Dim ond 3% o ddioddefwyr benywaidd (11 o ferched) a gafodd eu lladd gan fenyw, 8 ohonynt yn cael eu lladd gan eu mam; cafwyd 34 achos o fenywod yn cael eu lladd gan eu tad.
- Lladdwyd y mwyafrif o ddioddefwyr gwrywaidd (66%) gan ddynion eraill; cafodd cyfran uwch o ddioddefwyr gwrywaidd eu lladd gan aelod o'r teulu na menywod (47% o'i gymharu â 23%).
- Cafodd tua hanner (53%) o ddioddefwyr gwrywaidd eu lladd gan bartner/ cynbartner (32 o ddynion/ 40 o fenywod).

Cyhoeddir Canllawiau Statudol Amlasiantaeth y Swyddfa Gartref (diwygiwyd Rhagfyr 2016) o dan adran 9 (3) o Ddeddf Troseddau a Dioddefwyr Trais Domestig 2004 ac, ers mis Ebrill 2011, bu gofyniad statudol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol gynnal Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref (DHRs) yn dilyn dynladdiad sy'n bodloni'r meini prawf canlynol: lle mae marwolaeth person 16 oed

neu hŷn yn dilyn, neu'n ymddangos fel petai'n dilyn, trais, camdriniaeth neu esgeulustod, gan:

- berson yr oedd ef/ hi yn perthyn iddo neu yr oedd ganddo ef/ ganddi hi berthynas bersonol agos ag ef/hi, neu
- aelod o'r un aelwyd ag ef / â hi'i hun.

Pwrpas y DHR fel yr amlinellir yn y Canllawiau yw:

⇒ Sefydlu pa wersi sydd i'w dysgu ynghylch y modd y mae gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau lleol yn gweithio'n unigol a gyda'i gilydd i ddiogelu dioddefwyr;

⇒ Nodi'n eglur beth yw'r gwersi hynny o fewn a rhwng asiantaethau, sut ac o fewn pa amserlenni y byddant yn cael eu gweithredu, a'r hyn a ddisgwylir fel newid o ganlyniad;

⇒ I gymhwyso'r gwersi hyn i ymatebion gwasanaeth gan gynnwys newidiadau i hysbysu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol fel y bo'n briodol;

⇒ I atal trais domestig a dynladdiad a gwella ymatebion gwasanaeth trwy ddatblygu dull amlasiantaeth gydlynol i sicrhau bod cam-drin yn cael ei adnabod ac yr ymatebir yn effeithiol iddo cyn gynted â phosibl;

⇒ Cyfrannu at well dealltwriaeth o natur trais domestig a cham-drin; a

⇒ Thynnu sylw at arfer da.

*"Dylai adolygiadau daflu goleuni ar y gorffennol er mwyn gwneud y dyfodol yn fwy diogel."*
Canllawiau'r Swyddfa Gartref, 2016

Hyd yn hyn, mae'r rhanbarth wedi cychwyn 8 Adolygiad Dynladdiad yn y Cartref. Dangosir dadansoddiad o'r Adolygiadau hyn yn y tabl (ar y dde). Gall Adolygiadau o'r fath fod yn hir, yn gostus ac yn heriol yn emosiynol i aelodau'r Panel a'r teulu fel ei gilydd. Hefyd, gellir cynnal yr adolygiadau hyn ochr yn ochr ag achosion llys (troseddol a Chrwner), Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach, ymchwiliadau ffurfiol mewnol ac allanol (gan gynnwys Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a Gweithdrefnau Achosion Difrifol BIP) ac achosion disgyblu staff. Llywodraethir pob un o'r prosesau hyn gan wahanol ganllawiau, p'un a yw'n bolisi'r DU-gyfan neu'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, ac yn aml mae'n gallu dyblygu mynychwyr a gall meini prawf adolygu orgyffwrdd. Serch hynny, mae canfyddiadau'r holl adolygiadau hyn yn amhrisiadwy os yw bywydau i gael eu gwneud yn fwy diogel, oherwydd bod dysgu o gamgymeriadau yn y gorffennol wedi ei wella.

Rhaid cydnabod bod rhai marwolaethau eraill VAWDASV nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer DHR. Mae'r rhain yn cynnwys marwolaeth trwy yrru peryglus a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd (lle mae troseddwr yn dilyn y dioddefwr), marwolaethau a achoswyd gan unigolion nad oedd y dioddefwr yn perthyn iddynt neu mewn perthynas â hwy, ond lle roedd elfen o gam-drin (e.e. cymdogion), a hunanladdiadau lle'r oedd dioddefwyr yn teimlo nad oedd unrhyw ffordd arall allan o'u sefyllfaoedd cam-drin.

Oherwydd yr amser a gymerir i ymgymryd â phob DHR, bydd partneriaid yn aml yn gweithredu dysgu ac yn diwygio polisïau a gweithdrefnau cyn gynted â phosib. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r broses DHR yng Nghymru a newidiadau posibl i'r polisi cenedlaethol.

**BYDDWN YN:**

- **Sicrhau bod y dysgu o bob adolygiad gwasanaeth ffurfiol, gan gynnwys DHRs, yn cael ei adlewyrchu wrth ddarparu gwasanaethau ac yn cael ei rannu'n eang**
- **Gweithredu unrhyw newidiadau polisi Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'i adolygiad o brosesau DHR**

| | Dynladdiad | | | Dioddefwr | | Tramgwyddwr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dyddiad Dynladdiad | Dull o ladd | Perthynas (dioddefwr i'r tramgwyddwr) | Rhyw (Dyn/ Benyw) | Oed | Rhyw (Dyn/ Benyw) | Oed | Dedfryd |
| Caerdydd | Dec-15 | Tagu | Cynbartneriaid | B | 28 | D | 45 | 17 flynedd |
| | Aug-15 | Trywanu | Tad-cu/ŵyr | D | 67 | D | 16 | 3 blynedd |
| | Jan-16 | Llosgi bwriadol | Tad/merch | D | 59 | B | 27 | Dieuog - gwallgofrwydd |
| | Jul-16 | Anaf pen | Gwraig/gŵr | B | 85 | D | 86 | hunanladdiad |
| | Aug-16 | Ymosodiad | Partneriaid | B | 24 | D | 23 | 18 mlynedd |
| | Sep-16 | Trywanu | Cynbartneriaid | D/B | 21/34 | D | 20 | 23 blynedd, 4 mis |
| | Sep-17 | Trywanu | Partneriaid | B | 26 | D | 46 | i'w gadarnhau |
| Y Fro | Aug-16 | Rhoi ar dân | Cynbartneriaid | B | 54 | D | 62 | 17 flynedd , 4 mis |

## Ymgyrch Rhuban Gwyn

Yr Ymgyrch Rhuban Gwyn yw'r ymdrech fwyaf ym myd dynion sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod. Gan ddechrau yng Nghanada ym mis Tachwedd 1991, mae'r Ymgyrch Rhuban Gwyn (WRC) yn weithredol mewn mwy na 60 o wledydd ar draws y byd, gan gynnwys Canada, Awstralia, Pacistan, yr Eidal y DU. Sefydlwyd cangen Rhuban Gwyn y DU yn 2004, gyda changhennau ar wahân i'r Alban (2006) ac Iwerddon (2010) yn cael eu sefydlu yn fuan wedyn.

Dywed yr Ymgyrch Rhuban Gwyn "Nid mater menywod yw hyn, ac ni fu erioed felly'. Rydym yn cyfarch dynion yn uniongyrchol fel eu bod y deall graddfa'r broblem, ac yn dod yn rhan o'r ateb, ochr yn ochr â menywod." Mae'r ymgyrch yn gofyn i ddynion wisgo Rhuban Gwyn fel addewid personol i beidio â chyflawni, cymeradwyo nac aros yn dawel am drais yn erbyn menywod, i fod yn wynebau ac arweinwyr fel Llysgenhadon mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth leol ac addysg.





Yn 2014, anogodd y Gweinidog Tai ac Adfywio, y diweddar Carl Sergeant, bob awdurdod lleol yng Nghymru i ymuno â'r Ymgyrch Rhuban Gwyn. Ymgeisiodd Cyn-ghorau Caerdydd a Bro Morgannwg yn briodol, a dyfarnwyd statws Dinas/Tref Rhuban Gwyn iddynt erbyn mis Rhagfyr 2014. Dilynodd sefydliadau eraill fel Heddlu De Cymru yn fuan ar ôl hynny.

Dewisodd yr Ymgyrch y Diwrnod Rhyngwladol i ddileu Trais yn erbyn Menywod fel y Diwrnod Rhuban Gwyn (25ain Tachwedd bob blwyddyn). Hyd yn hyn, mae gweithgareddau wedi cynnwys gorymdaith flynyddol i Eglwys Gadeiriol Llandaf a gwasanaeth aml-ffydd, stondinau mewn mannau cyhoeddus gan gynnwys ysbytai ac archfarchnadoedd, digwyddiad blynyddol 'Cerdded Milltir yn ei Hesgidiau' trwy ganol dinas Caerdydd, gwely blodau yn darlunio'r Rhuban Gwyn a sticeri ar gerbydau fflyd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân.

Mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i gais rhanbarthol newydd i adnewyddu'r statws sydd eisoes ganddynt – arweinir hyn gan yr awdurdodau lleol ond bydd angen mewnbwn gan bob partner i weithredu'r cynllun gweithredu angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau. Yn ddelfrydol, byddai cangen Rhuban Gwyn Cymru o'r elusen yn sicrhau y byddai unrhyw gyllid a geir o werthu nwyddau yn aros yng Nghymru, ac y byddai'r holl gyhoeddusrwydd a nwyddau yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth genedlaethol o amgylch VAWDASV a'r iaith Gymraeg.










**Estynnodd #RhubangwynCaerdyddBro allan at 2.1m o bobl yn 2017**

*"Mewn gwirionedd, y bobl a allai wneud y mwyaf i wella sefyllfa cymaint o ferched a phlant yw dynion. Mae yn ein dwylo ni i atal trais tuag at fenywod."* Patrick Stewart

**BYDDWN YN:**

- **Gweithredu Cynllun Gweithredu'r Rhuban Gwyn ar draws y rhanbarth**
- **Parhau i eirioli dros Gymru Rhuban Gwyn**





# PENNOD 4

# AMDDIFFYN

## Gwella'r ymateb amlasiantaethol a chefnogaeth i'r holl ddioddefwyr a'u plant, waeth beth fo'r lefel risg a'r anghenion.

### Cyfraith Clare / Datgeliadau Cyfraith Clare

Mae Cyfraith Clare (Cynllun Datgelu Trais Domestig) yn caniatáu i'r Heddlu ddatgelu gwybodaeth am gymeriad drwg i ddynion a menywod sy'n credu eu bod hwy neu eu plant mewn perygl gan berson arall. Fe'i sefydlwyd ar ôl i Clare Wood gael ei thrywanu i farwolaeth gan ei chyn-gariad, a oedd wedi bod yn ei stelcio. Yn dilyn ei marwolaeth, ymladdodd rhieni Clare i gael "Cyfraith Clare" gan eu bod yn credu petai hi'n gwybod am ei orffennol treisgar, na fyddai hi byth wedi ymrwymo i berthynas ag ef. Daeth i rym ledled y DU yn 2012, ac mae 2 linyn:




Yn ystod 2016/17, gwnaeth y rhanbarth 90 o ddatgeliadau Cyfraith Clare allan o 134 o geisiadau.

Mae'r gofrestr troseddwyr rhyw yn cynnwys manylion unrhyw un a gafodd ei euogfarnu, derbyn rhybudd neu ei ryddhau o'r carchar am drosedd rywiol ers mis Medi 1997. Rhaid i bob troseddwr rhyw sydd wedi ei euogfarnu gofrestru gyda'r Heddlu, yn bersonol, cyn pen tri diwrnod o'r euog-farn, neu ei ryddhau o'r carchar. Rhaid iddynt barhau â'r cofrestriad hwn yn flynyddol - mae'r rheiny a gafodd dymor carchar o 30 mis i ddedfryd oes yn destun i gyfnod amhenodol o gofrestru, ond gallant apelio ar ôl 15 mlynedd; mae dedfryd o 6-30 mis yn golygu 10 mlynedd ar y gofrestr; ac mae dedfryd o lai na 6 mis yn golygu hyd at 7 mlynedd ar y gofrestr. Gellir cofrestru'r rhai sy'n derbyn Rhybudd Heddlu am hyd at 2 flynedd.

O 2011, mae'r Cynllun Datgelu Troseddwyr Rhywiol Plant, a elwir yn Gyfraith Sarah, yn caniatáu i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid ofyn i'r Heddlu os oes gan rywun gofnod am droseddau rhywiol yn erbyn plant. Datblygwyd y Cynllun gan Sara Payne, mam Sarah, a gafodd ei chipio a'i llofruddio yn 8 oed. Er nad yw datgeliad wedi'i warantu, gall sbarduno ymchwiliad i weld a oes gan berson hanes hysbys, hyd yn oed os nad oes sail gadarn dros amheuaeth.

**BYDDWN YN:**
**Hybu ymhellach Gynlluniau Datgelu ar bob cyfle posibl**

### Hysbysiadau a Gorchmynion

Hysbysiad Diogelu Trais Domestig (DVPN) yw hysbysiad brys o beidio â molestu a throi allan y gall yr Heddlu ei gyhoeddi i dramgwyddwr pan yn mynychu digwyddiad cam-drin domestig (rhoddwyd 39 yn 16/17). Yn effeithiol o amser ei gyhoeddi, mae'n rhoi cefnogaeth angenrheidiol ar unwaith i'r dioddefwr. O fewn 48 awr o weini DVPN, gall yr Heddlu wedyn wneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn Gwarchod Trais Domestig (DVPO).

Mae'r DVPO yn bŵer gorchymyn sifil newydd sy'n galluogi'r Heddlu a'r Llysoedd Ynadon i roi mesurau amddiffyn yn eu lle ar unwaith yn dilyn digwyddiad o drais domestig, lle nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo tramgwyddwr a rhoi amddiffyniad i ddioddefwr trwy amodau mechnïaeth. Yn 16/17, rhoddwyd 34 yn y rhanbarth. Gall DVPO atal y tramgwyddwr rhag dychwelyd i gartref a rhag cysylltu â'r dioddefwr am hyd at 28 diwrnod, gan alluogi amser i ddioddefwr ystyried ei dewisiadau gyda chymorth asiantaeth gefnogol. Mae'r DVPN a'r DVPO yn cynnwys amod sy'n gwahardd y tramgwyddwr rhag molestio'r dioddefwr.

Cyflwynodd Deddf Troseddau a Phlismona Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2014 Orchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPOs) a Gorchmynion Risg Rhywiol (SRO). Mae SHPO yn fesur a roddir gan y Llys Ynadon neu Lys y Goron i berson sy'n peri risg rhywiol i'r cyhoedd neu berson unigol. Gellir ei gyhoeddi mewn perthynas â pherson sydd wedi cael ei euogfarnu neu wedi cael rhybudd am drosedd o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 yn y DU neu dramor. Gall gwaharddiadau fod yn eang a chynnwys atal teithio dramor, cyfyngiadau ar ymgymryd â rhai mathau o gyflogaeth, a chyfyngu ar ddefnydd o'r Rhyngrwyd gan y tramgwyddwr.

Mae SHPO yn para am o leiaf bum mlynedd ac nid oes uchafswm hyd, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar deithio dramor a nodir yn y Gorchymyn, y mae'n rhaid ei adnewyddu ar ôl pum mlynedd.

Gellir defnyddio SRO i osod gwaharddiadau ar unigolyn sydd wedi cyflawni gweithred o natur rywiol, ac o ganlyniad, mae achos rhesymol i gredu bod angen gwneud Gorchymyn i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed. Nid oes gofyniad i'r unigolyn fod wedi ei gael yn euog o unrhyw drosedd mewn gwirionedd. Dim ond yr Heddlu sy'n gallu gwneud cais i'r Llys am SRO.

Mae SRO yn gwahardd yr unigolyn perthnasol rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y Gorchymyn. Mae'r gwaharddiad naill ai'n para am gyfnod penodol o ddim llai na dwy flynedd (fel y nodir yn y Gorchymyn) neu hyd nes y gwneir Gorchymyn pellach.

Gall SHPO ac SRO gynnwys cyfyngiadau ar deithio dramor lle mae hyn yn angenrheidiol at ddibenion amddiffyn plant neu oedolion bregus dramor.

Mae Gorchymyn Gwarchod Priodas dan Orfod (FMPO) yn cynorthwyo'r rhai sydd mewn priodas dan orfod, neu sydd ar fin mynd i mewn i briodas o'r fath. Mae'r FMPO yn unigryw i bob achos ac mae'n cynnwys amodau a chyfarwyddiadau sy'n gyfreithiol rwymol i newid ymddygiad unigolyn neu bersonau sy'n ceisio gorfodi rhywun i mewn i briodas ac mae'n anelu at amddiffyn y dioddefwr. Gall y Llys wneud Gorchymyn mewn argyfwng fel bod amddiffyniad yn ei le yn syth.

**BYDDWN YN:**
**Gwella'r defnydd o Hysbysiadau a Gorchmynion ar draws y rhanbarth.**

## Diogelu



Mae Canllawiau Statudol Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn datgan:

*"Er bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion diogelu, mae'n bwysig nad ystyrir hwy fel materion amddiffyn plant yn unig. Gall gwneud hynny eithrio oedolion o wasanaethau y maent eu hangen, a cholli anghenion ehangach teuluoedd yr effeithir arnynt gan y materion hyn. Pwrpasau'r Fframwaith â ffocws penodol hwn yw cydnabod VAWDASV fel materion gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd a chyfiawnder cymdeithasol arwyddocaol, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, fel materion sylfaenol."*

Cefnogir hyn gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n newid y ffordd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae gan ddinasyddion fwy o lais yn y gofal a'r gefnogaeth a gânt, ac mae pwerau cryfach hefyd i gadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Felly, mae gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant ac oedolion bregus a hyrwyddo eu lles yn ofyniad deddfwriaethol a pholisi allweddol i bob asiantaeth. Mae dynodi risg, gofyn, gweithredu ac atgyfeirio'r holl bryderon diogelu yn ddyletswydd i bob gweithiwr proffesiynol a gyflogir gan asiantaethau partner y rhanbarth, yn rhai statudol a'r trydydd sector.

Yn llywodraethu'r dull o ddiogelu mae dau fwrdd rhanbarthol - y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion (RSAB) a'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant (RSCB). Rôl y Byrddau yw sicrhau bod asiantaethau partner yn cydweithio'n dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Cydlynir polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant ar gyfer staff a'r holl bartneriaid gan yr uned fusnes sy'n gweinyddu'r ddau Fwrdd.

Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
BDORhCaF
C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Adults Board

Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Children Board

## LLEISIAU GOROESWYR

Yr hyn nad yw pobl yn sylweddoli yw pan fyddwch chi wedi gwahanu o'r diwedd, mae ffurf newydd o gam-drin yn dechrau - stelcian - gadael negeseuon annifyr ar beiriant ateb eich ffôn a sefyll y tu allan i'ch tŷ am 2am. Yr adeg honno y dechreuodd y cymdogion alw'r Heddlu.

Stelcian... Roedd ganddo feic. Bob man roeddwn yn troi, yno fyddai, ar draws y ffordd yn yr ysgol, yn esgus newid ei olwyn. Byddai'n gyrru o gwmpas fy stryd yn hwyr yn copïo rhifau cofrestru ceir, yn enwedig os oedd gen i ymwelwyr. Dilynodd gweithiwr adref a rhoi hoelion a llafnau cyllyll yn fy nheiars. Crebachodd fy nghylch o ffrindiau.

Taflodd y ffôn ataf yn y car - "trosglwyddа'r arian", meddai. Codais y ffôn - roedd y llinell yn fyw. Edrychodd arnaf 'gwna e'n awr', meddai, gan gyflymu gyrru i fyny'r ffordd-b droellog. Roedd y plant yng nghefn y car – roeddem yn gyrru'n wyllt. Trosglwyddais yr arian - £10,000 o'i gerdyn ef i un fi. Arafodd y car, a dechreuodd yrru'n hamddenol. Roedd y plant yn ddiogel; roeddwn i'n ddiogel, oherwydd yr oeddwn wedi gwneud yn union fel y gofynnodd.

Nid oedd yn fy nharo... Byddai'n dweud hyn wrthyf yn aml wrth iddo fy nal i lawr gyda'r gyllell ar y bwrdd. Roeddwn yn gwneud beth bynnag a ofynnai, roeddwn eisiau goroesi.

Rydym yn ceisio eirioli dros ac amddiffyn ein plant rhag cam-drin parhaus trwy fynd i lys teulu. Ni yw'r unig rai a all eirioli, ond rydym yn gyfyngedig o ran tystion. Rydym yn gadael y llys teuluol yn teimlo wedi cael cau ein ceg, ac yn cael ein hystyried fel dau blentyn yn ymgecru yn y maes chwarae, a'n plant heb unrhyw eiriolwr. Mae ein plant yn dioddef trawma, ac nid ydynt yn cael eu diogelu.

Rhedais. Nid oedd yn ddiogel aros. Roeddwn i'n feichiog gyda dau blentyn bach. Roeddwn i'n dechnegol ddigartref. Nid oes gennyf gyfreithiwr. Dim cefnogaeth. Mae fy ngwaith yn cael ei beryglu. Rhaid imi ymladd fy ffordd trwy systemau budd-daliadau a thai. Rhaid i mi fynychu llys teuluol yn y stad yma. Nid oes ganddynt ddiddordeb yn yr hyn a ddigwyddodd cyn i mi adael. Mae ganddo gyfreithiwr. Mae'n cael cilwenu arnaf yn yr ystafell aros. Caniateir iddo gysylltu. Mae wrth ei fodd â'r llys teuluol. Mae'n gwybod ei fod yn ei gynorthwyo i'm cam-drin i a'r plant. Awn yno 21 o weithiau dros 8 mlynedd, cyn i mi a fy mhlant gael ein hamddiffyn.

## Hyb Diogelu Amlasiantaeth Caerdydd

Roedd rhannu gwybodaeth aneffeithiol a chydweithio yn ganfyddiad cyson Adolygiadau Achosion Difrifol yng Nghaerdydd; adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn mewn ardaloedd eraill yn y DU. Arweiniodd hyn at i fodel Hyb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) ddod yn ddull a fabwysiedir yn gynyddol wrth ymdrin â'r mater ledled y DU. Nododd gwerthusiad gan y Swyddfa Gartref ym mis Gorffennaf 2014 fod model MASH yn gwneud cyfraniad effeithiol tuag at reoli Camfanteisio Rhywiol Plant mewn Gangiau ac o Gam-drin Domestig. Felly, cytunodd partneriaid Caerdydd i sefydlu MASH, a daeth yn weithredol ym mis Medi 2016. Nodau'r model MASH yng Nghaerdydd yw:

Þ Gwella capasiti ac effeithlonrwydd y systemau rheoli atgyfeirio presennol a systemau asesu risg ar y cyd â phartneriaid allweddol.
Þ Gwella rheoli galw ar gyfer asesiadau statudol trwy sicrhau bod plant ac oedolion bregus yn cael ymyriadau amserol i atal eu hanghenion rhag cynyddu.
Þ Gwella effeithiolrwydd asesu risg mewn perthynas â phlant ac oedolion y credir eu bod mewn perygl o niwed sylweddol.

Cynigia'r cyfleuster hwn, sydd wedi'i leoli yng ngorsaf Heddlu Bae Caerdydd, amgylchedd sy'n cefnogi rhannu gwybodaeth, cydweithredu a dealltwriaeth effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau'r trydydd sector sy'n ymwneud â diogelu oedolion a phlant.




Gorsaf Heddlu Bae Caerdydd

Caiff hyn ei reoli trwy weithdrefnau gweithredu cytunedig, protocol rhannu gwybodaeth Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a chaiff ei oruchwylio gan Fwrdd Amlasiantaeth. Mae partneriaid allweddol wedi dyrannu lle a defnydd o'u systemau TG eu hunain i gofnodi a rhannu gwybodaeth mewn modd amserol. Mae system a rennir yn caniatáu mwy o gydweithio ar achosion, gan dynnu gwybodaeth allweddol at ei gilydd i gefnogi atebion diogelu a chynllunio diogelwch.

Yng Nghaerdydd, mae'r holl bryderon diogelu yn mynd trwy Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth Caerdydd. Gellir codi pryderon yn y ffyrdd canlynol: trwy ffurflen Hysbysiad Amddiffyn y Cyhoedd (PPN) a gwblheir gan yr Heddlu, Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth (MARF) a gwblheir gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, neu drwy ffurflen 'Oedolion mewn Perygl' sydd eto'n cael ei chwblhau gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Hefyd mae MASH yn derbyn atgyfeiriadau i'r Gynhadledd Asesu Atgyfeirio Amlasiantaeth (MARAC). Mae MASH yn hwyluso proses drafod ddyddiol 'amser byw' sy'n cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol i roi strategaethau yn eu lle i ddiogelu dioddefwyr. Ar gyfartaledd, trafodir 7 atgyfeiriad fel hyn bob dydd. Mae'r dull hwn yn galluogi trafod gwybodaeth amlasiantaethol a gwneud penderfyniadau amserol.




I gefnogi'r ymateb statudol i ddiogelu, mae'r gwasanaeth VAWDASV arbenigol newydd yng Nghaerdydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod IDVA/IPA yn cael ei leoli yn y MASH bob dydd. Gall y gweithiwr hwn roi mewnbwn gwerthfawr i drafodaethau dyddiol a gweithredu fel cyswllt rhwng yr holl wasanaethau, gan roi cyngor ac arweiniad ar achosion.

## Rheoli PPNs VAWDASV

Noda Heddlu De Cymru ddioddefwyr fel risg Safonol, Canolig neu Uchel yn dilyn asesiad yr Heddlu mewn digwyddiad domestig, ac yna maent yn atgyfeirio'r dioddefwyr drwy'r broses PPN, neu atgyfeiriad arall.

Yn y Fro, caiff PPNs VAWDASV eu rheoli gan weithiwr penodol a gyflogir gan yr awdurdod lleol, wedi'i leoli yn y tîm Diogelwch Cymunedol. Mae hyn yn caniatáu croesgyfeirio gydag achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol i wella'r broses o gasglu gwybodaeth er mwyn llywio prosesau diogelu ehangach. Yng Nghaerdydd mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'r trydydd sector i reoli'r broses PPN ers peth amser. Dangosir y cyfanswm wythnosol cyfartalog o atgyfeiriadau PPN cam-drin domestig a dderbyniwyd yn y rhanbarth yn 16/17 ar draws y lefelau risg isod:

| Uchel | Canolig | Safonol |
|---|---|---|
| Cyfartaledd wythnos | Cyfartaledd wythnos | Cyfartaledd wythnos |
| 20 | 45 | 15 |

Yn yr awdurdodau lleol, defnyddir IDVA/IPA i gysylltu â dioddefwyr a chynnig cyngor, cefnogaeth ac eiriolaeth o fewn amserlenni penodedig - cysylltir â dioddefwyr risg uchel o fewn 1 diwrnod, 3 diwrnod yn achos risg canolig, a 7 diwrnod yn achos risg safonol.

Yn amlwg, y flaenoriaeth yw cefnogi'r rhai a aseswyd fel risg uchel i ymdrin â phryderon diogelwch ar unwaith, ond nododd y rhanbarth yr angen i ymdrin â dioddefwyr risg safonol a chanolig yn fwy effeithiol er mwyn atal y risg o gynyddu, a rhoi ymyrraeth gynnar effeithiol. Mae hyn yn golygu bod rhaid ailddyrannu rhywfaint o arian trwy ailymgomisiynu a manylebau gwasanaeth arbenigol diwygiedig.

**BYDDWN YN:**

- **Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gwelliant parhaus i'r MASH**
- **Monitro'r ymateb gwasanaeth arbenigol i PPNs yn ofalus**

## MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg)

Cyfarfodydd amlasiantaeth yw MARACs lle mae cynrychiolwyr asiantaethau statudol a gwirfoddol yn rhannu gwybodaeth am ddioddefwyr risg uchel er mwyn cynhyrchu cynllun gweithredu cydlynol i gynyddu diogelwch dioddefwyr. Rôl y MARAC yw darparu fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth effeithiol a gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o wasanaethau oedolion a phlant er mwyn gwella diogelwch dioddefwyr risg uchel a'u plant.

Treialwyd y cysyniad o MARAC i ddechrau yng Nghaerdydd yn 2002 ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig ac erbyn hyn mae dros 250 o MARACs ledled y DU.

Bellach, mae’r rhanbarth yn gweithredu 2 MARAC ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig (cyfarfodydd bob pythefnos - 1 yn y Fro ac un ar gyfer Caerdydd), 1 ar gyfer gweithwyr rhyw (cyfarfodydd misol) ac 1 ar gyfer masnachu pobl (cyfarfodydd misol). Mae pob ardal wedi ymuno â'i WASPI ei hun.

Derbynnir atgyfeiriadau gan ystod eang o asiantaethau statudol a thrydydd sector gan ddefnyddio'r DASH-Ric Bywydau Diogel, ffurflen safonol a ddyluniwyd i nodi dioddefwyr risg uchel, a ddefnyddir yn gyffredin gan yr holl bartneriaid.

SafeLives Ending domestic abuse


Mae gan yr elusen Bywydau Diogel (CAADA gynt) gyfrifoldeb dros oruchwylio gweithrediad pob MARAC ar draws y DU a chynnal adolygiadau blynyddol o MARACs a datblygu canllawiau, gweithdrefnau, templedi a hyfforddiant. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o achosion MARAC Camdrin Domestig a dderbyniwyd ac a drafodwyd rhwng Ionawr a Rhagfyr 2017 ar draws y rhanbarth:

| MARAC Ion-Rhag 17 | Caerdydd | Y Fro |
|---|---|---|
| Achosion a atgyfeiriwyd | 1208 | n/k |
| Achosion a drafodwyd | 453 | 319 |
| Achosion ailadroddus | 96 (21%) | 134 (42%) |
| Nifer o blant | 657 | 384 |
| Dioddefwyr BME | 60 (13%) | 28 (9%) |
| Dioddefwyr gwrywaidd | 20 (4%) | 16 (5%) |
| Dioddefwyr LGBT | 3 (1%) | 4 (1%) |
| Dioddefwyr anabl | 6 (1%) | 52 (16%) |
| Dioddefwyr beichiog | 24 (5%) | n/k |
| Dioddefwyr 16/17 oed | 8 (2%) | 8 (3%) |
| Dioddefwyr 60+ oed | 16 (4%) | 15 (5%) |

Yn gyffredinol, mae lefelau achosion a drafodir gan y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â chanllawiau Bywydau Diogel, ond mae angen i Gaerdydd wella'i holi ynghylch anableddau, gan gynnwys materion cymhleth megis iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae angen i'r Fro gofnodi'n well y rheiny sy'n feichiog a rheoli achosion ailadroddus. Yn unigol, dynodwyd Caerdydd fel MARAC Niferoedd Uchel, er bod nifer yr achosion a drafodir bob pythefnos wedi lleihau yn dilyn gweithredu'r broses Trafodaethau Dyddiol yn y MASH.



Er bod pob MARAC yn monitro gweithredoedd cytunedig gan bartneriaid, ni ddeellir gwir ddeilliannau proses MARAC yn llawn yn rhanbarthol, yn enwedig p’un a yw dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi trwy'r cyfan. Gofynnwyd i Brifysgol Caerdydd ymgymryd â darn o waith i ddeall dyfodol MARAC yn well, o ystyried y newidiadau a ddaw yn sgil gweithredu'r MASH yn lleol. Bydd hefyd yn adolygu sut y gellir gwneud y broses gyfan yn fwy effeithiol i bartneriaid ymateb yn briodol, fel bod modd diogelu dioddefwyr yn well. Gofynnir am farn yr holl bartneriaid a'r goroeswyr fel rhan o'r gwerthusiad.





**BYDDWN YN:**

- **Gwella ansawdd atgyfeiriadau MARAC ar draws y rhanbarth**
- **Adolygu canfyddiadau'r ymchwil i ddyfodol MARAC ac ystyried unrhyw effaith ar y prosesau presennol**

## Llysoedd Arbenigol

Mae Llys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg yn Llys Trais Domestig Arbenigol achrededig. Caiff achosion eu clywed fel arfer ar ddydd Llun bob wythnos, gyda dioddefwyr yn cael eu cefnogi gan eu IDVA/IPA. Mae cyfleusterau fideo-gynadledda yn bodoli i gefnogi'r rheiny na allant fynychu'n bersonol. Nod y Gwasanaeth Prawf yw cefnogi dioddefwyr trwy fod yn ymwybodol o'u barn a'u dymuniadau. Pan fyddant yn gwbl ymwybodol o'r amodau llys a gymhwysir, mae hyn yn ei gwneud hi'n haws gweithio gyda chyflawnwyr ac unrhyw ystyriaethau diogelu ar gyfer dioddefwyr.

Gall y gwahaniaeth rhwng gweithdrefnau sifil a throseddol achosi dryswch i ddioddefwyr a throseddwyr fel ei gilydd; yn aml iawn byddant yn delio â'r ddwy system. Yn gyffredinol, mae cyfraith deuluol yn cynnwys materion y mae'n rhaid eu penderfynu pan fo perthynas agos yn chwalu, a gall hefyd gynnwys materion gofal plant. Mae'r llys teuluol yn helpu i ddatrys anghytundebau ac mae'n helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl o niwed. Mewn unrhyw gais am drefniadau cyswllt, preswylio a phlant lle mae trais neu gamdriniaeth ddomestig yn cael ei honni neu wedi ei gyfaddef gan barti i'r achos, dilynir canllawiau clir.




Diwygiwyd y 'Cyfarwyddyd Ymarfer' hwn ym mis Hydref 2017 er mwyn sicrhau, wrth ystyried cyswllt plant, bod rhaid i'r llys bellach asesu a oes risg barhaus o gam-drin domestig i'r plentyn neu'r rhiant mewn achosion lle mae trais domestig a/neu gamdriniaeth yn ffactor.

Mae CAFCASS Cymru (Gwasanaeth Eirioli a Chynorthwyo Llys Plant a Theuluoedd) yn rhoi llais i blant yng Nghymru sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Teulu, gan weithio gyda theuluoedd a sefydliadau eraill i ddod o hyd i atebion hirdymor ar gyfer y plentyn. Er y caiff ei benodi gan y llysoedd, nid yw CAFCASS yn wasanaeth cyfreithiol - mae'n darparu cyngor arbenigol gwaith cymdeithasol annibynnol i lysoedd teulu ledled Cymru. Gall Cymorth Cyfreithiol helpu i dalu costau cyngor cyfreithiol, cyfryngu a chynrychiolaeth llys/tribiwnlys. Gellir gwneud cais am Gymorth Cyfreithiol os oes tystiolaeth bod dioddefwyr a/neu eu plant wedi dioddef cam-drin domestig a/neu reolaeth ariannol a'u bod wedi bod mewn perygl o niwed gan gynbartner. Fel arfer, mae angen i ddioddefwyr ddangos na allant fforddio talu am y cymorth hwn.

**BYDDWN YN:**

- **Cefnogi dioddefwyr yn well trwy'r prosesau troseddol a chyfiawnder sifil**
- **Gweithio gydag ymgyrchwyr i gryfhau lleisiau dioddefwyr ar draws pob llys**

*"Edrychodd fy mhlentyn 7 mlwydd oed arna'i o'r tu ôl i'r soffa. Rhoddais ei gôt iddo. Gwaeddodd ei dad o'r drws. Roedd llygaid ein mab yn siarad cyfrolau, tra bod fy nwylo i, fy ngeiriau calonogol, yn ei roi i'w dad er gwaethaf fy mod eisiau ei ddiogelu. Meddai yn daer, "Pam wyt ti'n fy ngyrru, Mam, pan ddywedais wrthyt beth sy'n digwydd? Rwyf wedi dweud wrthyt nad wyf yn teimlo'n ddiogel." Mae wedi dweud wrthyf, felly gallwn ei amddiffyn - nid yw'n gwybod mai'r llys teulu yw'r un nad yw'n gwrando. Gyda gofid mawr, rwy'n cadw fy mhoen i mi fy hun, wrth i mi wneud yn hollol groes i'r hyn mae fy mhlentyn ei angen."* Goroeswr, De Cymru

## Cymorth Cysylltiedig â Thai

Wedi gwneud y penderfyniad i adael perthynas o gam-drin, dyma'r amser mwyaf peryglus i ddioddefwyr gan eu bod yn cael eu hagor i fyny i fathau eraill o gamdriniaeth, fel stelcian ac aflonyddu. Ar draws y rhanbarth, mae 84 unedau llety argyfwng/brys ar gyfer dioddefwyr ac, os oes angen, eu teuluoedd, sydd angen ffoi rhag eu cam-drin a theimlo'n ddiogel. Mae'r rhain yn amrywio o unedau gwasgaredig hunangynhwysol 1-ystafell wely i ystafelloedd maint teuluoedd mewn tai a rennir sy'n cynnwys hyd at 7 o deuluoedd.

| Unedau | Menywod yn unig | Dynion yn unig | Naill neu'r llall |
|---|---|---|---|
| DA, SV, HBV | 61 | 5 | 6 |
| Masnachu pobl | 8 | 4 | 0 |
| CYFANSYMIAU | 69 | 9 | 6 |

Yn unol â chanllawiau arfer gorau Grŵp Moderneiddio Llywodraeth Cymru, mae'r llochesi hyn yn cynnig unedau hunangynhwysol lle bynnag y bo'n bosibl i ganiatáu ar gyfer maint gwahanol o deuluoedd, gan gynnwys plant hŷn a phlant gwrywaidd, i gael eu lletya gyda'u rhiant. Mae'r dull uned wasgaredig a fabwysiadwyd ym Mro Morgannwg yn cael ei archwilio'n rhanbarthol ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd.

Roedd y Grŵp Moderneiddio hefyd yn argymell y defnydd o'r model Derbyn ac Asesu a dreialwyd yng Nghaerdydd, sydd wedi bod yn fuddiol wrth ddarparu llety brys, tymor byr diogel i ganiatáu gwneud asesiad llawn o'r angen. Yna, gellir hwyluso symud i loches arbenigol neu, lle mae'n ddiogel ac ymarferol i wneud hynny, dychwelyd i eiddo â gwell diogelwch yn y gymuned.

Mynychodd dros 700 o aelwydydd lochesi yn 2016/17. Dangosir dadansoddiad o faint teuluoedd yn y tabl nesaf. Yn anffodus, ni all pawb gael mynediad i lety argyfwng/lloches yn y rhanbarth pan fydd ei angen arnynt. Mae UK Routes to Support (sef Refuges Online gynt) yn rhwydwaith o lochesi ar draws y DU sy'n caniatáu i ddioddefwyr gael mynediad i lety argyfwng/brys diogel y tu allan i'r ardal.

| Oedolyn gyda: | Nifer o aelwydydd | CYFANSWM POBL |
|---|---|---|
| 0 plant | 439 | 439 |
| 1 plentyn | 66 | 132 |
| 2 blentyn | 125 | 375 |
| 3 phlentyn | 44 | 176 |
| 4 plentyn | 14 | 70 |
| 5+ o blant | 0 | 0 |
| CYFANSYMIAU | 688 | 1192 |

Mae gwasanaethau yn y rhanbarth yn deall y rhwystrau i gymorth llety a achosir gan y ddeddfwriaeth mewnfudo. Mae Bawso yn bennaf yn lliniaru'r rhwystrau hyn ac yn darparu llety diogel a chymorth i ddioddefwyr a phlant nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus (NRPF) a statws mewnfudo ansicr arall, gan ddod ag adnoddau eraill i ariannu'r ddarpariaeth hon:

| NRPF | 14/15 | 15/16 | 16/17 |
|---|---|---|---|
| Nifer yn cyflwyno | 44 | 31 | 27 |
| Nifer a gefnogwyd | 14 | 18 | 16 |

Gall symud ymlaen o bob lloches fod mewn cynllun tai â chymorth cam-i-lawr neu ddychwelyd i lety preswyl naill ai yn y sectorau rhentu cymdeithasol neu breifat. Mae'r ddau awdurdod lleol yn blaenoriaethu achosion yn eu polisïau dyrannu tai cymdeithasol a gallant gynorthwyo gyda bondiau ayb. Nid yw effaith deddfwriaeth arfaethedig Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar lety i ddioddefwyr eto wedi ei deall yn llawn, gan fod ei gweithrediad wedi cael ei oedi ymhellach tan 2019.

Mae cefnogaeth argyfwng arall yng Nghaerdydd yn cynnwys cefnogaeth IPA i gyd-fynd â galwadau'r heddlu i ddigwyddiadau. Profodd hyn yn fuddiol gan y gall yr IPA siarad drwy'r ystod o opsiynau sy'n agored i ddioddefwyr, a gallant gefnogi'r Heddlu i annog adrodd ffurfiol. Gall hyn wedyn ddilyn cyfnod o gymorth tenantiaeth dwys, lle mae'r dioddefwr eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain, yn hytrach na chael mynediad i loches.

Gellir cael mynediad at well diogelwch hefyd ar gyfer dioddefwyr sydd eisiau ac yn gallu aros yn eu cartref gyda mesurau diogelwch ychwanegol (gweler t.59). Mae defnyddio mesurau diogelwch o gwmpas y cartrefi yn negyddu'r angen am gynnwrf teuluol. Gellir ategu hyn hefyd â chyfnod o gymorth tenantiaeth mewn unrhyw ddeiliadaeth i sicrhau bod y dioddefwr yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref ac y gallant ymgysylltu unwaith eto yn ddiogel â'u cymuned.

**BYDDWN YN:**

- **Monitro'r defnydd o lety argyfwng/ brys yn barhaus i sicrhau darpariaeth i'r rhai sydd ei hangen fwyaf**
- **Asesu effaith newidiadau diwygio lles a'r Ddeddf Rhentu Cartrefi ar lety arbenigol i ddioddefwyr**

## ASTUDIAETH ACHOS

Datgelodd gweithiwr i'w rheolwr llinell ei bod yn dioddef ymddygiad bygythiol a rheoli gan ei chynbartner. Roeddent bellach wedi dod â'r berthynas i ben, ond roedd y gamdriniaeth yn parhau ac wedi cynyddu, gan arwain at aflonyddwch a bygythiadau pellach. Roedd y cynbartner hefyd yn cael ei gyflogi gan y cwmni, ac roedd y ddau ohonynt yn gweithio ar yr un safle, ond nid yn yr un adran. Roedd y cam-drin emosiynol a'r pryder a brofodd y dioddefwr yn ddyddiol wrth feddwl am weld ei chynbartner yn effeithio ar ei gwaith ac yn effeithio ar ei llesiant emosiynol. Cafodd ei hatgyfeirio gan ei rheolwr llinell at IDVA, a oedd yn gallu cynnig cymorth a chyngor arbenigol mor aml ag y byddai'r gweithiwr ei angen.

Unwaith iddi ymgysylltu â'r IDVA ac y teimlai y gallai drafod maint ei chamdriniaeth, daeth yn amlwg bod angen cefnogaeth ychwanegol. Disgrifiodd y gweithiwr ei hofn o ddychwelyd i'w char ar ddiwedd ei diwrnod gwaith, meddwl am weld ei chynbartner yn y gwaith, a'r bygythiad a deimlai oherwydd y sefyllfa yr oedd ynddi. Cwblhaodd yr IDVA asesiad risg a chynllun diogelwch/cymorth a oedd yn cynnwys atgyfeiriad i asiantaeth arbenigol a oedd yn darparu cloeon ychwanegol, larymau dirgryniad a gafaelfach drws i'r eiddo; cefnogodd hi i adrodd am bob digwyddiad wrth yr heddlu; gwnaeth atgyfeiriad i gyfreithiwr am gyngor a chefnogaeth ynglŷn â chyswllt plant a chyngor ariannol i gynnal ei chartref.

Yn ogystal â chymorth ymarferol, ymgymerodd yr IDVA â gwaith therapiwtig gan gynnwys helpu'r gweithiwr i ddeall pŵer a rheolaeth, tactegau cam-drin ôl-wahanu, a chydnabod a herio ei theimladau o hunan-fai sy'n aml yn cyd-fynd â cham-drin domestig. Gyda chaniatâd y dioddefwr, siaradodd yr IDVA â'i rheolwr llinell i archwilio pa addasiadau y gallai'r cyflogwr eu hwyluso, gan gynnwys newid oriau gwaith neu symud i weithle arall. Rhoddwyd trwydded parcio newydd iddi, a newidiodd yr ardal lle'r oedd yn parcio'i char yn y gwaith. Cafodd ei hatgyfeirio at lesiant gweithiwr am gymorth ychwanegol ac fe'i cynghorwyd i siarad â'i meddyg teulu; ei rheolwr llinell hefyd fyddai'r pwynt cyswllt cychwynnol petai hi'n teimlo'n bryderus yn y gwaith.

Fel sy'n digwydd yn aml, cynyddodd yr aflonyddwch gan ei chynbartner yn dilyn dod â'r berthynas i ben, fodd bynnag, gyda chymorth yn ei le a'i hyder cynyddol i adrodd wrth yr heddlu, mae'r risg wedi lleihau ers hynny ac mae'r gweithiwr yn dweud ei bod hi'n teimlo'n llawer mwy diogel a hapusach. Erbyn hyn mae'n gwybod bod cefnogaeth ar gael, a sut i gysylltu os bydd angen cymorth pellach arni yn y dyfodol.

## Polisïau Gweithle

Yn y DU bob blwyddyn, mae 20% o ferched cyflogedig yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd VAWDASV a 2% yn colli eu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i'r cam-drin. Mae 53% o weithwyr sydd wedi'u cam-drin (dynion a menywod) yn colli o leiaf 3 diwrnod o'r gwaith bob mis (Cymorth i Fenywod Cymru, 2017).



I gyflogwyr, gall hyn amlygu ei hun fel pryderon perfformiad a chynhyrchiant. Gall effeithiau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gynnwys cynhyrchiant llai, cadw amser gwael, straen, absenoldeb, camgymeriadau a throsiant gweithwyr uwch. Mae hefyd yn bwysig cydnabod, er bod VAWDASV yn effeithio ar iechyd, diogelwch a llesiant gweithwyr, i rai, gall y gweithle fod y lle mwyaf diogel i fod, ac i lawer ohonynt hon yw'r unig elfen eu bywyd y teimlant y mae ganddynt ryw radd o reolaeth drosti.

Mae'r holl bartneriaid statudol yn y rhanbarth yn cydnabod yn llawn y ddyletswydd gofal sy'n ddyledus i'w gweithwyr, ac felly maent wedi adolygu eu polisïau gweithle presennol o ran cam-drin domestig er mwyn cwmpasu'r materion ehangach o dan Ddeddf VAWDASV. Y gobaith yw y bydd partneriaid anstatudol eraill, gan gynnwys cyflogwyr yn y sector preifat, yn cael eu hannog i ddatblygu eu polisïau gweithle VAWDASV eu hunain.

*"Cydraddoldeb yw enaid rhyddid; yn wir, nid oes rhyddid hebddo."* Frances Wright (Ysgrifennwr o'r Alban )

Gall cyflogwyr hefyd ymestyn eu dyletswydd gofal trwy drefniadau is-gontractio. Gwneir hyn fel rheol trwy amlinellu gofynion cyfreithiol yn benodol mewn unrhyw delerau ac amodau contract i chwilio am unrhyw faterion diogelu, ac adrodd amdanynt, pan yn gweithio'n uniongyrchol â chleientiaid neu wrth weithio yn eu cartrefi.

Nid yw'r gofyniad i bob aelod o staff dan gontract fod yn ymwybodol o faterion diogelu yn ddim byd newydd - defnyddiwyd protocolau amddiffyn plant ers peth amser, ond bydd ymwybyddiaeth ehangach o VAWDASV o fudd mawr, gan mai contractwyr o'r fath yn aml yw llygaid a chlustiau gwirioneddol y gwasanaethau statudol, yn gallu nodi arwyddion cynnar o gamdriniaeth. Bydd cynorthwyo contractwyr i ddatblygu polisïau yn y gweithle hefyd yn sicrhau bod dyletswydd gofal o'r fath yn cael ei ymestyn i'r holl staff sydd dan gontract.

**BYDDWN YN:**

- **Datblygu a mabwysiadu polisïau gweithle VAWDASV diwygiedig ac yn annog pob partner i wneud yr un peth**
- **Mabwysiadu'r gofyniad i gontractwyr ddatblygu polisïau gweithle trwy drefniadau comisiynu a chaffael**
- **Sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'r materion ac yn deall llwybrau atgyfeirio**

## Gwell Diogelwch



Lle bo'n bosibl ac yn ddiogel i wneud hynny, dylid cefnogi dioddefwyr i aros yn eu cartref presennol gyda mesurau diogelwch ychwanegol os oes angen. Yn ogystal â chynnig atebion ymarferol i atal mynediad diangen, gallant gynnig tawelwch meddwl i ddioddefwyr. Cyfeirir at ddarpariaeth o'r fath yn aml fel 'gwell diogelwch' (target hardening) a gall gynnwys mesurau diogelwch ar ffabrig yr adeilad, fel cloeon allanol ar gatiau, goleuadau diogelwch, ffensys a theledu cylch cyfyng, neu fesurau mewnol megis cloeon ffenestri, blychau llythyrau gwrth-dân, botymau galwyr ffug a larymau cymunedol.

Ar hyn o bryd, trwy eu swyddogaethau landlord ac/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill yn cynnig ystod o opsiynau. Mae rhai mesurau, megis larymau cymunedol a theledu cylch cyfyng, yn adnodd cyfyngedig, ac mae angen i landlordiaid sicrhau bod unedau gweithredu yn cael eu hailgylchu pan nad oes angen mwyach amdanynt.

Mae gan bob darpariaeth lloches deledu cylch cyfyng a chaiff dioddefwyr larymau ymosodiad personol. Cynhelir asesiadau ar eiddo gyda'r dioddefwyr cyn gosod unrhyw fesurau. Gall yr awdurdod lleol ddarparu mesurau diogelwch i'r rheiny sy'n rhentu'n breifat cyn belled â bod y landlord yn cydsynio. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Tân a'r Heddlu yn darparu offer diogelwch i ddioddefwyr. Mae'r ffigurau ar gyfer 16/17 fel a ganlyn:

| Ardal: | Caerdydd | | Y Fro | |
|---|---|---|---|---|
| Darparwr: | Atgyfeiriad | Gosodiad | Atgyfeiriad | Gosodiad |
| **Cyngor/LCC** | 169 | 154 | 55 | 55 |
| **Gwasanaeth Tân** | 79 | 48 | 23 | 15 |
| **Heddlu** | anhysbys | anhysbys | 15 ar gael | |
| **CYFANSWM** | Lleiafswm 272 wedi'u gosod | | | |

Felly, mae monitro argaeledd a defnydd o offer o'r fath yn allweddol. Mae angen i'r rhanbarth archwilio'r dulliau presennol o wella diogelwch ac ystyried a ellir gweithredu unrhyw arferion a rennir i gyfuno ymdrechion.

**BYDDWN YN:**

**Adolygu argaeledd opsiynau gwella diogelwch a datblygu dull rhanbarthol**

*"Am flynyddoedd, roeddwn yn teimlo'n ofnus yn fy nghartref fy hun, erbyn hyn dyma'r lle diogel y dylai fod"* Goroeswr, De Cymru



# PENNOD PUMP

# CEFNOGI

## Sicrhau bod gwasanaethau arloesol, hyblyg a seiliedig ar dystiolaeth ar gael i fodloni anghenion dioddefwyr sy'n profi unrhyw fath o VAWDASV.

### Ymchwil



Mae'r rhanbarth yn gefnogwr blaenllaw i'r defnydd o ymchwil ac mae'n ymgorffori'r holl gyfleoedd i gymryd rhan mewn archwilio materion yn fanwl, a datblygu atebion arloesol i ymdrin â hwy. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, datblygwyd partneriaethau gydag ystod o brifysgolion yng Nghymru a Lloegr i ddatblygu nifer o ddarnau o ymchwil sy'n archwilio gwahanol elfennau o'r agenda VAWDASV. Eisoes, cafodd rhai canfyddiadau eu trosi i ddarpariaeth gwasanaethau, a phrofwyd eu bod yn gweithio, fel MARAC, IDVA ac IRIS. Daeth ymchwil arall i ben ac mae darparu gwasanaethau diwygiedig yn dal yn ei fabanod, tra bod projectau eraill yn mynd rhagddynt, megis 'Newid sy'n Para'; trafodir y rhain ymhellach trwy gydol y bennod hon.

**BYDDWN YN:**

**Cymryd rhan weithgar mewn ystod o brojectau ymchwil ystyrlon i ehangu dealltwriaeth a gwella gwasanaethau**

### Cynghorwyr Annibynnol

Prif bwrpas Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA), neu Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Domestig (ISVA) yw ymdrin â diogelwch dioddefwyr sydd mewn perygl mawr o niwed gan bartneriaid agos, cynbartneriaid neu aelodau o'r teulu, er mwyn sicrhau eu diogelwch a diogelwch eu plant. Yng Nghaerdydd, ailenwyd IDVAs yn Gynghorwyr Annibynnol Personol (IPAs) i gydnabod eu cylch gwaith ehangach o dan Ddeddf VAWDASV.

Yn gwasanaethu fel pwynt cyswllt sylfaenol i'r dioddefwr, mae IDVA/ISVA/IPAs fel arfer yn gweithio gyda dioddefwyr o'r pwynt argyfwng, gan asesu lefel y risg a thrafod yr ystod o opsiynau addas sy'n arwain at greu cynllun diogelwch ymarferol. Maent yn rhagweithiol wrth weithredu'r cynlluniau sy'n ymdrin â diogelwch uniongyrchol, gan gynnwys camau ymarferol i ddiogelu dioddefwyr a'u plant, yn ogystal ag atebion tymor hwy. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys camau gweithredu o MARAC yn ogystal â sancsiynau ac atebion sydd ar gael trwy sefydliadau eraill. Rôl yr IDVA/ ISVA/ IPA ym mhob lleoliad amlasiantaeth yw cadw persbectif a diogelwch y cleient yng nghanol yr achos, a bod yn llais i'r dioddefwr.

Mae IDVAs/ISVAs/IPAs yn cael hyfforddiant achrededig arbenigol fel rhan o'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a meddant ar gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol. Dangosodd astudiaethau pan fydd cleientiaid risg uchel yn ymgysylltu ag IDVA/ISVA, y ceir gwelliannau clir a mesuradwy mewn diogelwch, gan gynnwys gostyngiad o ran cynyddu'r gamdriniaeth a difrifoldeb y gamdriniaeth, a gostyngiad neu hyd yn oed roi terfyn ar ddigwyddiadau pellach.

| IDVA/ ISVA/ IPA Arbenigol (nid CALI) | Nifer |
|---|---|
| Iechyd | 1 |
| Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol | 5 |
| Mewnfudo/ Masnachu Pobl | 1 |
| MASH | 1 |
| Yn y Llys | 3 |
| Dechrau'n Deg (plant 0-4 oed) | 2 |
| Teuluoedd yn 1af | 1 |
| Dioddefwyr Gwrywaidd Ifanc | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 2 |
| Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol | 1 |
| Cyffredinol | 23 |

Yn y rhanbarth, mae 41 o weithwyr, rhai ag arbenigeddau/rolau penodol a amlinellir yn y tabl uchod. Er wedi'i sefydlu'n wreiddiol i weithio gyda'r achosion risg uchaf, cydnabuwyd yn rhanbarthol bod cefnogi dioddefwyr risg is yn fuddiol, er mwyn atal niwed pellach. Defnyddir IDVAs/ISVAs/IPAs i ddarparu ystod o ymyriadau therapiwtig a hunangymorth i helpu dioddefwyr i gydnabod a dod i delerau â'r gamdriniaeth a brofir. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd troseddwyr yn cael ymyriadau i atal 'pigynnau' pellach o gamdriniaeth.

Hefyd mae gwasanaethau wedi dod yn fwy gwybodus o ran trawma, gan gydnabod effaith esgeulustod plentyndod cynnar a chamdriniaeth ar iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant dioddefwyr, sy'n cael ei dwysáu gan y gamdriniaeth a brofir yn ddiweddarach. Yng Nghaerdydd, bydd y gwasanaeth arbenigol newydd a gomisiynir ar gyfer dioddefwyr benywaidd yn defnyddio'r ymyrraeth Eiriolaeth Seicolegol Tuag at Iachâd (PATH). Datblygwyd y cwnsela 1-1 wedi'i dargedu hwn gan Brifysgol Bryste, a chymerodd Cymorth i Fenywod Caerdydd ran yn y treial glinigol Ewropeaidd fwyaf. Dangosodd ymchwil fod y rheiny sy'n derbyn ymyrraeth PATH yn dioddef lefelau clinigol is o drallod seicolegol, iselder a straen ôl-drawmatig a gostyngiad mewn pryder sy'n glinigol bwysig.

psychological advocacy towards healing

PATH

Nid yw pob darparwr arbenigol yn y rhanbarth sy'n cyflogi IDVAs/ISVAs/IPAs yn dal achrediad ansawdd 'Leading Lights' Bywydau Diogel, ond mae pob un o'r gwasanaethau naill ai'n dal neu yn y broses o wneud cais am Safonau Gwasanaeth Ansawdd Cenedlaethol Cymorth i Fenywod Cymru a/neu Safonau Gwasanaeth perthnasol eraill.

**Dewisiadau Gwaith Grŵp Therapiwtig:**

THE RECOVERY TOOLKIT

The Freedom Programme

SEXUAL VIOLENCE RECOVERY TOOLKIT

PHOENIX SERVICES cardiff women's aid

THE RECOVERY TOOLKIT CYP

## LLEISIAU GOROESWYR

"Heblaw am y gwasanaethau, y ddealltwriaeth a'r gefnogaeth a roddodd Cymorth i Fenywod Caerdydd i mi, ni fyddwn lle rydw i heddiw. Nid wyf yn siŵr y byddwn hyd yn oed yma o gwbl (rwy'n gwybod y gallai hynny ymddangos fel datganiad cryf), ond rwyf gymaint yn eu dyled.

Cefais fy atgyfeirio atynt trwy'r project IRIS gan fy meddyg teulu. Roeddwn i'n ffodus iawn i fod yn un o'r rhai cyntaf i gymryd rhan yn y rhaglen Pecyn Cymorth Adfer, a oedd yn rhyfeddol. Dysgais gymaint mwy am yr hyn oedd gen i/yr hyn yr oeddwn yn ei brofi; roedd y cwrs hwn yn ddechrau bywyd newydd i mi. Ni allaf esbonio pa mor ddiolchgar ydw o fod wedi cael cymryd rhan ynddo. Fe wnaeth fy helpu i weld pethau'n wahanol a gwneud i mi deimlo nad oeddwn i ar ben fy hun, a ddim yr unig un a oedd yn mynd trwy gymaint.

Cefais gyfle gwych i fynd ar y project PATH a fu unwaith eto yn gymaint o help i mi - fe wnaeth y ddau gwrs yma fy helpu gyda'm hunan-barch a'm hyder. Cyn hynny, roeddwn wedi cael cwnsela trwy fy Meddyg Teulu ond ni wnes erioed agor i fyny i'r hyn roeddwn yn ei brofi ac ni chefais gymorth. Rwy'n teimlo'n hynod ddiolchgar i Gymorth i Fenywod, maent wedi fy helpu i droi fy mywyd o gwmpas. Ni fuaswn yn hoffi meddwl lle byddwn i heddiw hebddynt a'u gwasanaethau cymorth ac arbenigol. Rwy'n teimlo'n lwcus iawn fy mod wedi cael y cyfle i gael mynediad at wasanaethau cymorth mor wych ac rwy'n ddiolchgar am hynny. Unwaith eto, rwy'n wirioneddol gredu na fyddai fy mywyd fel y mae nawr hebddynt."

"Dim ond gyda chymorth gan IDVA y cafodd fy sefyllfa ei chymryd o ddifrif ac y dechreuais ar y camau cyntaf tuag at symud yn ddiogel o sefyllfa o reolaeth orfodol nad oedd eraill yr adroddais wrthynt amdano yn ei ddeall."

"Mae mynychu sesiynau sy'n helpu unigolion i ddeall bod yr hyn a brofwyd ganddynt yn cael ei gydnabod ac nad ydynt ar eu pen eu hunain yn ffactor sy'n cyfrannu'n fawr at symud ymlaen ac ailadeiladu eich bywyd. Mae cwnsela arbenigol unigol yn eich galluogi i fyfyrio ar yr hyn y buoch drwyddo, a dechrau dod i delerau ag ef trwy'r broses iacháu gefnogol hon."

*"Dysgais y bydd pobl yn anghofio beth a ddywedasoch, bydd pobl yn anghofio beth a wnaethoch, ond ni fydd pobl fyth yn anghofio sut y gwnaethoch iddynt deimlo."* Maya Angelou

## Plant a Phobl Ifanc

Yn sail i ddull Cymru o amddiffyn plant mae'r pwysigrwydd a roddir ar hawliau plant. Sicrhaodd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn ei chyfraith ddomestig. Felly mae'n rhaid i bob polisi a deddfwriaeth yng Nghymru ddiwallu hawliau plant.

Yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gan hon 7 nod craidd, pob un yn gysylltiedig ag erthyglau yn UNCRC. Dywed y rhaglen y dylai plant a phobl ifanc:

- gael dechrau teg mewn bywyd
- cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
- mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio
- cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- cael eu clywed, eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu llesiant corfforol ac emosiynol
- osgoi anfantais oherwydd tlodi

Mae partneriaid yn y rhanbarth yn cefnogi'r nodau hyn yn llawn, ac yn cydweithio i sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc bob amser.

Yn ogystal â'r ystod eang o godi ymwybyddiaeth sy'n digwydd mewn ysgolion a cholegau, a'r ystod o drefniadau amddiffyn plant sydd ar waith ar draws y rhanbarth, gall plant a phobl ifanc gael cefnogaeth uniongyrchol gydag unrhyw gamdriniaeth neu drawma y maent wedi ei phrofi neu dystio iddi.

Mae'r prif ddarparwyr arbenigol yn y rhanbarth yn cefnogi plant a phobl ifanc gyda gwaith unigol a gwaith grŵp o 4-25 oed. Anelir peth o'r gwaith grŵp, gan gynnwys Seren a'r Pecyn Cymorth Adferiad, ar weithio gyda'r plentyn a'u rhiant/gofalwr.

Yn ogystal, trwy dîm arbenigol 'Safe As', mae Cymorth i Fenywod Caerdydd yn cyflwyno project SODA (Goroeswyr Cam-drin Domestig) a gynlluniwyd ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau sy'n defnyddio hunan-niweidio a syniadaeth hunanladdiad i ddelio â thrawma byw, neu drawma y buont drwyddo'n flaenorol, gyda thrais neu gam-drin domestig. Mae Dave's House yn rhaglen i ddynion ifanc rhwng 17 a 25 oed a allai gael eu heffeithio gan gam-drin domestig, neu sy'n pryderu am eu hymddygiad eu hunain o fewn eu perthnasoedd. Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn ariannu IDVA/IPA Gwrywaidd i gefnogi dynion a bechgyn sy'n fwy anodd ymgysylltu â hwy, i drafod eu profiad o drais /cam-drin domestig. Mae'r gwasanaeth hwn yn bwydo i mewn i waith grŵp Dave's House.

**BYDDWN YN:**
**Ystyried ymestyn modelau rôl gwrywaidd cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n profi mathau eraill o drais a cham-drin**

## Ymyriadau Teuluol



Un o'r gwasanaethau a gynigir gan Atal y Fro yw'r rhaglen Ymyrraeth Gynnar. Golyga hyn, cyn gynted ag y derbynnir atgyfeiriad, y gelwir ynghyd yr asiantaethau y mae angen iddynt gymryd rhan, i ddatblygu 'pecyn' i'r teulu cyfan, gyda diogelwch bob amser yn ganolog. Yn y lle cyntaf, mae'r pecyn am chwe wythnos, yna caiff ei adolygu a rhoddir cynllun tymor hwy at ei gilydd, gan ddarparu gwasanaeth i gyplau sy'n dymuno aros gyda'i gilydd neu wahanu ar sail gyfeillgar. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi aelodau'r teulu trwy ddarparu gwaith un i un i'r dioddefwr, eu partner ac unrhyw blant dan sylw. Yn aml, bydd hyn yn cynnwys presenoldeb gofynnol ar raglenni tramgwyddwyr cymunedol, ond nid yw llawer o'r rhai presennol yn cefnogi'r gwahanol fathau o deuluoedd sy'n bodoli, gan ddibynnu ar y stereoteip o deulu traddodiadol.

Bydd gwasanaethau yng Nghwm Taf yn darparu ymyriadau tebyg i deuluoedd trwy raglen Cronfa Trawsnewid PCC i brofi a threialu'r dull teulu cyfan ymhellach.

**BYDDWN YN:**
**Ymchwilio ac yn ystyried modelau ymyriadau teuluol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol**

## Pobl o Gefndir BME




Gall profiad dioddefwyr BME a phrofiad eu plant o drais gael eu ffurfio gan eu perthynas â chysyniadau megis diwylliant a'u perthynas â chymunedau. Gall y materion hyn ddiffinio eu profiadau o drais a cham-drin ac effeithio ar eu mynediad at y mathau o wasanaethau sydd eu hangen neu eu heisiau arnynt. Gall dioddefwyr BME a'u plant fod â rhwystrau ychwanegol i gefnogaeth oherwydd effaith iaith, gwahaniaethu, hiliaeth neu statws mewnfudo. Mae'r rhanbarth yn cydnabod yr angen i gael gwasanaethau a gyflenwir gan bobl BME ar gyfer pobl BME.

Gwnaeth y Ganolfan Astudiaeth Diogelwch a Llesiant, Prifysgol Warwick ac Imkaan astudiaeth i archwilio i ba raddau y mae menywod a merched BME yn datgelu trais rhywiol a chael mynediad at gefnogaeth, ac i edrych ar rwystrau a bylchau sy'n dod i'r amlwg o ran cael mynediad at gefnogaeth. Adolygodd yr adroddiad a gynhyrchwyd - *Between the Lines - Service Responses to Black and Minority Ethnic (BME) Women and Girls Experiencing Sexual Violence* 38 o wasanaethau arbenigol ledled y DU.

Roedd y canfyddiadau yn dangos diffyg dealltwriaeth go iawn o'r materion, ac argymhellwyd hyfforddiant a chyflenwad o wasanaethau arbenigol.

Mae'r boblogaeth ar draws Caerdydd a'r Fro (C&F) yn datblygu'n gyson, gyda nifer gynyddol o ddiwylliannau ethnig amrywiol a mwy o symudiadau mudol. Gyda'r amrywiaeth gynyddol, nid yw'n beth anghyffredin nodi mwy o bryderon iechyd diwylliannol sy'n effeithio ar iechyd atgenhedlu, seicogymdeithasol a seicorywiol. Mae hyn yn cynnwys ymarfer FGM; adroddwyd yn helaeth ar y trawma a gaiff ei ail-fyw am flynyddoedd ar ôl i'r anffurfio hwn ddigwydd.

Gan nodi'r angen sylweddol am wasanaeth di-dor i ddiwallu anghenion pob menyw sy'n cael ei heffeithio gan FGM, cynigir sefydlu clinig cymunedol peilot. Bydd BIP Caerdydd a'r Fro a Bawso yn darparu gwasanaeth a fydd yn helpu i chwalu'r rhwystrau i gael mynediad at ofal, a sicrhau bod gan bob menyw yr effeithiwyd arnynt fynediad at glinigwyr a chymorth cwnsela. Bydd hefyd yn hwyluso cyfle i weithio gyda rhai o'r credoau diwylliannol dwfn gyda theulu hŷn ac aelodau'r gymuned estynedig.

**BYDDWN YN:**
**Adolygu effeithiolrwydd y peilot clinig FGM**

## Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Mae sipsiwn a theithwyr yn dioddef lefel uchel o wahaniaethu a rhagfarn yn eu bywydau bob dydd, ac maent yn profi anhawster mawr wrth gynnal eu ffordd o fyw a'u treftadaeth. Maent dan anfantais wrth gael mynediad at ofal iechyd, addysg, a sicrhau llety.

Dengys ymchwil bod cam-drin domestig yn fater iechyd sylweddol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Amcangyfrifodd astudiaeth ddiweddar fod rhwng 60% - 80% o fenywod o gymunedau teithio yn profi cam-drin domestig yn ystod eu bywydau, o gymharu â 25% o'r boblogaeth fenywaidd yn gyffredinol. Gall disgwyliadau diwylliannol ynghyd â natur ynysig y cymunedau ei gwneud yn anodd i drais domestig gael ei herio gyda chenedlaethau olynol o ddynion a menywod sy'n gweld cam-drin domestig fel rhywbeth cyffredin. Mae menyw Sipsiwn neu Deithwyr sy'n gadael oherwydd cam-drin domestig nid yn unig yn colli ei chartref a'i phartner, ond hefyd ei chymuned, ei diwylliant a'i ffordd o fyw. Am y rhesymau hyn, mae Sipsiwn a Theithwyr yn llawer llai tebygol o adrodd am ddigwyddiad neu i ofyn am help.

**BYDDWN YN:**
**Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.**

*"Roeddwn yn 14 oed pan roddodd fy mam lun i mi o ddyn y deellais wedyn yr oeddwn wedi fy addo iddo pan oeddwn yn wyth oed. Y fi oedd yr un a feiddiodd ddweud: 'Na, cefais fy ngeni yma, rwyf eisiau mynd i'r ysgol – nid wyf eisiau priodi dieithryn"*
Jasvinder Sanghera, CBE, sylfaenydd Karma Nirvana

## Dioddefwyr Gwrywaidd

Nododd y ddau awdurdod lleol yn y rhanbarth yr angen am ddarpariaeth dioddefwyr gwrywaidd ar wahân, ac maent yn cydnabod y gall darparu gwasanaethau i ddioddefwyr gwrywaidd fod yn wahanol i'r rhai a ddarperir i ddioddefwyr benywaidd. Fodd bynnag, yn ymarferol mae yna debygrwydd o ran eu bod angen dilysiad anfeirniadol o'r gamdriniaeth a ddioddefwyd, lle diogel i aros, a chymorth i ailadeiladu eu bywydau. Mae'n amlwg bod rhai o ddioddefwyr gwrywaidd hefyd yn dod â'u plant o'r ddau ryw gyda hwy.

Yn aml, ceir mynediad at wasanaethau trwy linellau cymorth penodol i ddynion neu drwy lwybrau digartrefedd y Cyngor. O ran lle diogel i aros, mae Caerdydd yn cynnal lloches i ddynion yn unig yn Ne Cymru. Nodwyd y gwasanaeth lloches gwasgaredig a gyflwynir ar hyn o bryd ym Mro Morgannwg fel model da ar gyfer achosion cymhleth, gan gynnwys teuluoedd mwy a dioddefwyr gwrywaidd.

Mae gwaith ar y gweill i archwilio'r arferion gorau a datblygu gwasanaeth mwy crwn o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd, i ailadrodd y gwasanaethau di-dor a gynigir i ddioddefwyr benywaidd. Er mwyn ehangu arbedion maint, gwahoddwyd awdurdodau lleol eraill yn Ne Cymru i rannu yn y broses asesu a chomisiynu anghenion. Ceisir data a barn gan bartneriaid, darparwyr cyfredol a dioddefwyr o'r gorffennol, ynghyd ag arfer gorau ac ymchwil.

**BYDDWN YN:**
**Comisiynu gwasanaeth arbenigol i ddioddefwyr gwrywaidd gyda phartneriaid rhanbarthol ehangach**

**Yn 2016/17:**



*Cysylltodd 216 o ddynion â llinell gymorth Byw Heb Ofn*



*Derbyniodd y Project Dyn 236 o atgyfeiriadau i IDVA Gwrywaidd Caerdydd*



*Trafodwyd 36 o ddioddefwyr gwry-waidd risg uchel yn y*

ynys saff
safe island

*MARAC Ceisiodd 100 o ddynion help gan y SARC*

## Dioddefwyr LGBTQ+



Mae IDVAs/ISVAs/IPAs yn gweithio gyda dioddefwyr sy'n dynodi eu hunain yn Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, fodd bynnag, mae Rainbow Bridge yn wasanaeth penodol a weithredir gan Gymorth i Ddioddefwyr sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig sy'n dynodi eu hunain yn LGBTQ+. Cynhwysa hyn gamdriniaeth gan bartneriaid agos, cynbartneriaid (hefyd cynbartneriaid heterorywiol) a pherthnasau. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys eiriolaeth, diogelwch personol a chartref, cefnogaeth emosiynol a mentora. Parha'r broses o adrodd gan ddioddefwyr LGBT i fod yn arbennig o isel, ac mae angen annog hyder i adrodd a gofyn am gymorth. Mae parodrwydd gan bartneriaid i weithio ac ymgysylltu â sefydliadau sydd â gwybodaeth arbenigol am anghenion dioddefwyr LGBTQ+, i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch ac yn briodol.

O ran y gymuned drawsryweddol, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau ym mis Gorffennaf 2017 i ddiwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd (2004). Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys gwneud y broses o newid rhyw ar dystysgrif geni person yn llai biwrocrataidd, a dod â hi'n unol â phrosesau anfeddygol ar gyfer newid rhyw, e.e. ar basbortau, dibynnu ar 'hunan-adnabod'. Mae agweddau newidiol tuag at ryw a rhywioldeb yn bynciau llosg, ac mae'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth yn profi i fod yn ddadleuol. Ar hyn o bryd, mae gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 eithriadau sy'n caniatáu gwasanaethau, galwedigaethau, llety cymunedol a gweithgareddau chwaraeon unrhyw, lle mae'r rhain yn ddull cymesur o gyflawni nod dilys. Mae ymgyrchwyr yn mynegi pryderon y gallai symud tuag at hunan-adnabod rhywedd ddod â chanlyniadau anfwriadol yn ei sgil. Mae'r materion hyn yn gymhleth ac yn amlwg angen trafodaeth agored bellach ynglŷn â hygyrchedd a chyflenwi gwasanaethau.

**BYDDWN YN:**
- **Cryfhau cysylltiadau â sefydliadau LGBTQ+ arbenigol i wella gwasanaethau a chynyddu adrodd**
- **Sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i ddioddefwyr LGBTQ+**

## Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

Mae maint llawn effaith trais rhywiol yn ein cymunedau yn anhysbys i raddau helaeth gan nad yw llawer o ddioddefwyr yn adrodd wrth yr Heddlu. Tan-adroddir ynghylch treisio dynion yn enwedig, am resymau megis cywilydd, euogrwydd ac ofn peidio â chael eu credu, neu gael eu beirniadu am yr hyn a ddigwyddodd. Mae chwedlau a rhagfarnau cryf o ran rhywioldeb dynion hefyd yn atal dynion rhag dod ymlaen.




Mae Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) Ynys Saff yn cynnig gwasanaethau i ddioddefwyr trais rhywiol, gan ddiwallu anghenion pob oedran a phob rhywedd. Ei nod yw cynnig cefnogaeth a gofal priodol ar bwynt angen, gan weithio i eirioli ar ran y cleient gan sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y dioddefwr bob amser. Lleolir y SARC yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd ac fe'i ariennir ar y cyd fel rhan o ddarpariaeth BIP Caerdydd a'r Fro. Gall y Ganolfan hwyluso archwiliadau meddygol fforensig, cyfweliadau Heddlu, cymorth ISVA yn ystod y broses cyfiawnder troseddol, cwnsela trawma arbenigol a chymorth grŵp addysgol seicolegol. Mae'r atebolrwydd am Ynys Saff yn gorwedd gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Mae'r SARC hefyd yn darparu gwasanaeth pediatrig arbenigol i blant a phobl ifanc, gan gydnabod bod gan y grŵp cleientiaid hwn anghenion penodol y mae'n rhaid ymdrin â hwy mewn ffordd sensitif ac amserol. Bellach, mae trosedd rhywiol ymhlith plant a phobl ifanc yn fwy cyhoeddus nag erioed o'r blaen ac mae'r peryglon i'r cenedlaethau iau yn cynyddu; datblygiad yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, meithrin amhriodol ac ecsbloetio'r rhai sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n cael eu cam-drin yn eu teuluoedd eu hunain.

Gwnaed llawer o waith i sicrhau model cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol ar draws De Cymru. Mae cynlluniau ar y gweill i ranbarthu gwasanaethau a datblygu SARC Caerdydd a'r Fro fel 'Hyb' ar gyfer darpariaeth gwasanaethau aciwt i oedolion a phlant yn Ne Ddwyrain Cymru. Amlyga hyn gydnabyddiaeth bod darpariaeth gwasanaeth ar gyfer trais rhywiol yn hynod arbenigol a'i fod angen y modelau gofal gorau y gellir eu darparu i'r holl ddioddefwyr. Fodd bynnag, mae llawer o ffactorau yn aros, y bydd angen ymdrin â hwy yn y dyfodol. Cydnabyddir bod grwpiau yn tan-adrodd, fel dioddefwyr gwrywaidd, gweithwyr rhyw, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a dioddefwyr HBV. Mae angen datblygu dealltwriaeth well o'r broblem, yr achosion a'r amgylchiadau a meithrin hyder unigolion i adrodd.

**BYDDWN YN:**
**Ymwreiddio'r model 'Hyb a Lloeren' ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol ledled De Ddwyrain Cymru**

## Pobl Hŷn

Efallai y bydd rhai pobl hŷn yn agored i gam-drin domestig neu rywiol o ganlyniad i'w bregusrwydd meddyliol neu gorfforol, a/neu allu meddyliol neu anableddau corfforol; fodd bynnag, nid y rhain yw'r unig ffactorau a allai arwain at gam-drin person hŷn. Gall camdriniaeth pobl hŷn ddigwydd am sawl rheswm, ac nid yw o anghenraid yn dod i ben pan fo'r dioddefwr neu'r camdriniwr yn mynd yn hŷn. Mewn gwirionedd, gall dioddefwr hŷn brofi camdriniaeth amlach neu gynyddol; yn ogystal, efallai mai yn ystod y cyfnod hwn yn eu bywyd y bydd rhai pobl hŷn yn dechrau dioddef camdriniaeth. Gall pobl hŷn hefyd ddioddef camdriniaeth gan nifer o aelodau o'r teulu, rhai ohonynt efallai gyda rôl ofalgar. Dylid ystyried cam-drin ariannol gan aelodau'r teulu fel cam-drin domestig.

Mae materion gallu meddyliol wedi codi mewn DHR lleol, o ran peidio â gofyn i ddioddefwr gydag arwyddion cynnar o ddementia os oedd hi'n profi camdriniaeth, a hefyd o ran ei gofalwr a oedd yn dangos arwyddion o straen gofalu, ond a oedd yn gwrthod help. Cododd trafodaeth dros weithdrefnau lleol a p'un a yw'n briodol diystyru penderfyniad unigolyn, dangos tystiolaeth o'r rhesymau, a rheoli unrhyw ganlyniadau. Mae angen arweiniad pellach ar y mater hwn.

**BYDDWN YN:**
**Gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol i ddatblygu polisïau a hyfforddiant i'r rhai sy'n gweithio gyda dioddefwyr hŷn VAWDASV**

## Anghenion Cymhleth / Triawd Gwenwynig

Mae cyfraddau uchel o orgyffwrdd rhwng VAWDASV a defnydd sylweddau ar gyfer dioddefwyr a thramgwyddwyr camdriniaeth. Er y derbynnir nad yw camddefnyddio alcohol a chyffuriau yn achosi VAWDASV, gall presenoldeb defnydd sylweddau gynyddu amlder a difrifoldeb y gamdriniaeth. Mae plant mewn perygl arbennig o niwed pan fydd camddefnyddio sylweddau a thrais domestig yn bresennol.


Gall sylweddau hefyd fod yn ffordd o analluogi'r dioddefwr, neu wneud iddynt gyflawni pethau nad ydynt eisiau eu gwneud. Gall hyn gynnwys gwthio ffiniau rhywiol, recordio rhyw, neu buteindra. Gallai partneriaid gael eu gorfodi i werthu, prynu neu hyd yn oed i ddefnyddio cyffuriau. Yn nes ymlaen, gallai hyn gael ei ddefnyddio fel pwysau ychwanegol ar y dioddefwr pan aiff yn gaeth i'r sylweddau.

Mae gan ddioddefwyr camdriniaeth gyfradd uwch o gamddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol (p'un a yw'n dechrau cyn neu ar ôl y gamdriniaeth): mae o leiaf 20% o ddioddefwyr camdriniaeth risg uchel yn adrodd eu bod yn defnyddio cyffuriau ac/neu alcohol (Bywydau Diogel 2015). Yn aml cânt eu defnyddio fel mecanwaith hunan-feddyginiaeth i ymdopi.

Mae dioddefwyr sy'n defnyddio alcohol a chyffuriau yn fwy tebygol o gael eu cam-drin, ac mae dioddefwyr camdriniaeth yn fwy tebygol o ddefnyddio sylweddau. Un o achosion posibl hyn yw bod profi gelyniaeth, trais a cham-drin am gyfnod hir yn cyfrannu at ddirywiad iechyd meddwl y dioddefwr - efallai y byddant yn cael trafferth gydag iselder, pryder, ymddygiad hunanladdol, diffyg hunan-barch, anallu i ymddiried mewn eraill, aflonyddwch a gwaharddiad emosiynol. Mae 40% o ddioddefwyr risg uchel yn adrodd bod ganddynt broblemau iechyd meddwl (Bywydau Diogel 2015).

Gall alcohol a chyffuriau eu helpu i leddfu pryder dros dro, anghofio, neu'n syml, yn haws i ddioddef rhagor o gamdriniaeth. Efallai nad ydynt yn sylweddoli y gall hunan-feddyginiaethu fel hyn arwain at ddibyniaeth a mwy o broblemau.

Triawd Gwenwynig




Nodwyd bod y Triawd Gwenwynig yn nodweddion cyffredin o deuluoedd lle mae niwed i oedolion a phlant yn digwydd: Mewn un sefyllfa, gall camdriniaeth ddomestig ddigwydd oherwydd bod menywod sy'n camddefnyddio sylweddau yn fwy tebygol o ffurfio perthynas â dynion treisgar. Efallai mai sefyllfa arall yw y gallai camddefnyddio sylweddau ymhlith mamau fod yn ganlyniad uniongyrchol i'w profiad hwy eu hunain o gam-drin domestig. Gall afiechyd meddwl ymhlith mamau fod o ganlyniad i drais neu gamdriniaeth y maent wedi ei brofi, neu y gall iselder arwain at i riant gamddefnyddio sylweddau.

Ym Mro Morgannwg, bydd partneriaeth newydd rhwng Atal y Fro a Gofal yn darparu gwasanaeth cymorth iechyd meddwl arbenigol 12 mis ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth. Mae'r Gweithiwr Iechyd Meddwl wedi'i leoli yn Atal Y Fro ac mae'n cefnogi unrhyw gleientiaid sy'n cael mynediad at wasanaethau ag anghenion iechyd meddwl.

Wrth ddadansoddi Adolygiadau Achosion Difrifol a gynhaliwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr (Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014, a gyhoeddwyd yn 2016), canfuwyd mewn 293 o Adolygiadau Achosion Difrifol mai cam-drin domestig oedd y ffactor mwyaf cyffredin a nodwyd, ac yna problemau iechyd meddwl rhieni, ac yn drydydd, camddefnyddio sylweddau: "it is now abundantly clear from research that living with domestic abuse is always harmful to children and it is rightly seen as a form of child maltreatment in its own right." (Humphreys a Bradbury-Jones, 2015). Amlygodd yr adroddiad hwn ymhellach fod camdriniaeth rywiol yn aml yn cyd-fynd â mathau eraill o niwed. Yn yr astudiaeth hon, roedd tystiolaeth o gam-drin rhywiol mewn 53% o achosion ymhlith plant rhwng 1-17 oed.

Mae'r astudiaeth hon yn amlygu na all unrhyw un asiantaeth reoli'r risgiau a niwed pan fo anghenion cymhleth yn cydfodoli. Yn bwysig, pan nodir anghenion cymhleth, rhaid rhoi ystyriaeth i sut y gall rheolaeth orfodol effeithio ar ymddygiad.

**BYDDWN YN:**
**Sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ystyried ac yn ymdrin â sut mae anghenion cymhleth yn effeithio ar oedolion a phlant**


## Gweithwyr Rhyw

Yng Nghaerdydd, mae tensiynau sylweddol wedi bodoli ers tro rhwng trigolion a'r rhai sy'n ymwneud â phuteindra ar y stryd yn Grangetown a Sblot. Archwiliodd ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe yn 2010 ganfyddiad y cymunedau hyn sy'n credu nad yw'n ddigon symud y broblem i rywle arall ond bod angen gweithredu dull gorfodi strategol sy'n dod â gostyngiad mewn niwed a chyfiawnder troseddol at ei gilydd.

Yn 2010, ymatebodd Caerdydd i newidiadau yn Adran 17 y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn trwy ddatblygu llwybr dargyfeirio, sy'n symud menywod sy'n weithwyr rhyw i ffwrdd oddi wrth ddirwyon a chosbau o fewn y system cyfiawnder troseddol tuag at wasanaethau cymorth, gan gydnabod cymhlethdod y sefyllfa. Gweithredwyd hyn yn llwyddiannus gan yr heddlu lleol ac asiantaethau cymorth ac mae wedi cael effaith sylweddol ar gynyddu nifer y menywod sydd bellach yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Fodd bynnag, er gwaethaf gweithredu gwahanol ddulliau, gan gynnwys Llwybr Dargyfeirio Caerdydd, mae tensiynau yn parhau rhwng gweithwyr rhyw a thrigolion, gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camdriniaeth a bygythiadau o drais cynyddol.

BEYOND THE GAZE

Yn ystod yr 8 mlynedd ddiwethaf, ymgymerwyd â nifer o astudiaethau craff ar waith rhyw, gyda chefnogaeth weithwyr rhyw, gan nifer o Brifysgolion, a oedd yn edrych ar faterion arwahanol gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, cysylltiadau â phlentyndod trawmatig a materion BME. Ar hyn o bryd, ‘Beyond the Gaze’ yw'r astudiaeth fwyaf hyd yma o waith rhyw ar-lein y DU, sy’n archwilio amodau gwaith, diogelwch a phlismona'r diwydiant gan ymchwilwyr o Brifysgolion Leicester a Strathclyde. Cynhyrchwyd nifer o sesiynau briffio ac mae’r canfyddiadau terfynol i fod ar gael yn 2018 pan fydd y project yn dod i ben.




**BYDDWN YN:**

- **Archwilio ffyrdd newydd o adnabod, amddiffyn a diogelu gweithwyr rhyw a'r cymunedau yr effeithir arnynt**
- **Adolygu canfyddiadau'r ymchwil 'Beyond the Gaze'**

## Oedolion Mewn Perygl

Nid oes gan rai dynion a menywod sy’n oedolion y sgiliau sylfaenol i ofalu amdanynt eu hunain a chadw'n ddiogel - a gall hyn eu gwneud yn fwy agored i gamdriniaeth. Eu bregusrwydd - ac weithiau eu diffyg gallu meddyliol - sy'n golygu bod yr oedolion hyn yn fwy agored i wahanol fathau o gamdriniaeth, yn ogystal ag esgeulustod.

Diffinia Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 'oedolyn mewn perygl' fel rhywun sy'n:

1. dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod;
2. angen gofal a chefnogaeth (p'un a yw'r awdurdod yn cwrdd ag unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); ac
3. o ganlyniad i'r anghenion hyn, yn methu â diogelu eu hunain rhag camdriniaeth, esgeulustod neu’r risg o’r naill neu’r llall.

Gall hyn gynnwys pobl ag anableddau corfforol, dysgu neu synhwyraidd. Mae ffactorau sy'n cynyddu bregusrwydd yn cynnwys oedran, problemau iechyd meddwl, salwch cronig, ymddygiad heriol, diffyg gallu meddyliol, problemau cymdeithasol ac emosiynol, tlodi, digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau.

Mae partneriaid yn y rhanbarth wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyfeirio a rheoli Oedolion mewn Perygl drwy'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, sy’n disodli'r trefniadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) blaenorol.

*"Ni allwn i gyd lwyddo pan fo hanner ohonom yn cael ein dal yn ôl."* Malala Yousafzai

